PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY


# 20/**21**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

53.2295° N, 4.1300° W

# CYNNWYS






04. Rhagarweiniad gan yr Is-ganghellor
08. Strategaeth 2030 – byd cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol
12. Ein hymchwil
24. Cefnogi busnes a sgiliau
32. Profiadau dysgu trawsnewidiol
40. Profiad rhagorol i fyfyrwyr
46. Prifysgol gynaliadwy
48. Amgylchedd dwyieithog lle mae'r gymraeg yn ffynnu
50. Datblygu ein hystâd
54. Ein pobl
58. Llywodraethu
68. Datganiadau ariannol



# RHAGARWEINIAD



1

Mae prifysgolion yn sefydliadau sy'n gwneud newid cadarnhaol - maent yn gwella'r dyfodol. Yn erbyn cefndir y pandemig, mae Prifysgol Bangor wedi dod trwyddi gydag agenda hyderus, ddeinamig ac eangfrydig sy'n cynyddu ei chyfraniad i economi'r Deyrnas Unedig. Ond mae'r cyfraniad a wneir gan brifysgolion yn llawer ehangach na'r budd economaidd uniongyrchol.

Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad angori yng Nghymru, ac o'r herwydd yn stiward i'r gymuned. Mae ymgysylltu â'r gymuned y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddi a dangos y gwerth a ddaw yn sgil y Brifysgol yn rhan o'r brif genhadaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig i brifysgol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil ac y mae ei chenhadaeth a'i gwreiddiau hanesyddol yn perthyn i ogledd Cymru.

Yn ystod 2020-21, diogelwch a gwytnwch cymuned Bangor - yn cynnwys myfyrwyr, staff ac ymwelwyr - oedd y brif flaenoriaeth a dilynodd y Brifysgol arweiniad y llywodraeth air am air er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ffynnu tra'n addasu i fywyd yn ystod y pandemig.

Mae'n dda gwybod bod ein myfyrwyr, er gwaethaf y pandemig, wedi dweud wrthym eu bod yn parhau i ffynnu a bod y brifysgol yn y 30 uchaf yn y Deyrnas Unedig am brofiad myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr blynyddol. Mae ein haddysgu wedi parhau i fod o'r ansawdd uchaf. Ein cryfderau penodol yw'r ffyrdd y mae academyddion yn ennyn diddordeb ein myfyrwyr, datblygiadau cadarnhaol mewn dysgu rhithiol, a'r gefnogaeth bersonol a'r gofal bugeiliol sydd ar gael i fyfyrwyr.

Mae'r Brifysgol wedi defnyddio ei chryfderau ymchwil a'i chysylltiadau busnes i helpu i adnewyddu bywiogrwydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y rhanbarth. Mae hyn yn ei dro, wedi helpu i gynyddu cyfleoedd cyflogadwyedd i'n myfyrwyr. Rydym wedi canolbwyntio ar ddysgu sgiliau i'r myfyrwyr a fydd yn hanfodol wrth iddynt gynllunio eu dyfodol. Mae ein parc gwyddoniaeth - M-SParc - wedi cefnogi mentrau myfyrwyr yn ogystal â llawer o bartneriaethau â diwydiant ac mae ein hysgolion academaidd yn parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr ledled Cymru a thu hwnt.

Mae Prifysgol Bangor hefyd wedi chwarae rhan lawn yn ymateb i'r heriau enfawr i'r system gofal iechyd yng ngogledd Cymru a gododd yn sgil y pandemig. Mae'r brifysgol yn arbennig o falch o'r cyfraniad rheng flaen a wnaed gan staff a myfyrwyr i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Mae'r pandemig wedi dangos gwytnwch partneriaeth hirsefydlog y brifysgol â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bu uchelgais i greu ysgol feddygaeth annibynnol yng Ngogledd Cymru ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Bellach, gyda galw cynyddol ar wasanaethau, a'r sefyllfa honno'n cael ei dwysáu gan y pandemig, mae gofyn am weithredu ar frys yn y rhanbarth i fynd i'r afael â nifer o broblemau cydberthynol, gan gynnwys anawsterau recriwtio a dal gafael ar feddygon, niferoedd is o feddygon mewn hyfforddiant nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac o ganlyniad i hynny, y gwariant mwyaf yng Nghymru ar staff asiantaeth, a chontractio gofal o du allan i Gymru sy'n golygu nad oes digon o gapasiti'n cael ei adeiladu yng ngogledd Cymru.

Yn haf 2021 sefydlodd Llywodraeth Cymru fwrdd rhaglen amlasiantaethol i weithio tuag at sefydlu ysgol feddygol i ogledd Cymru ym Mangor, gan adeiladu ar y cydweithrediad presennol â Phrifysgol Caerdydd ar y rhaglen mynediad i raddedigion i feddygaeth. Byddwn yn gweithio ar y cyd i ymgysylltu â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i sicrhau trosglwyddiad effeithiol o'r cwricwlwm presennol yng ngogledd Cymru a gyflwynir mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd i gwricwlwm annibynnol newydd a gaiff ei ddarparu gan Brifysgol Bangor.

Mae hyn yn arwydd o ddull Cymru gyfan o ddarparu rhaglen addysg feddygol lawn yng ngogledd Cymru gan gefnogi llywodraeth newydd Cymru i gyflawni Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, sy'n cynnwys sefydlu ysgol feddygol yng ngogledd Cymru fel un o'i phrif flaenoriaethau..

Ein nod yw system iechyd, gofal a lles integredig addas at y diben. Rydym yn anelu at sefydlu ecosystem i yrru ymchwil ac ymarfer blaengar ym maes atal ac ymyrraeth gynnar. Byddwn yn gweithio gyda diwydiant i ddatblygu capasiti a chyfleusterau i lywio gwaith ymchwil a datblygu a chymwysiadau addysg feddygol.

Mae'r sector gwyddorau bywyd yn cyfrannu £70 biliwn at economi'r Deyrnas Unedig yn flynyddol a gallai gyfrannu hyd at £0.75 biliwn at economi gogledd Cymru. Byddwn yn manteisio ar y sylfaen asedau gref yn y sector ac ym meysydd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), gan eu gwneud yn rhan o amgylchedd fydd yn cryfhau'r economi ranbarthol. Bydd hyn yn cynyddu capasiti ymchwil, effaith a throsi hynny yn ganlyniadau gwell i gleifion a bydd yn ein galluogi i ddylanwadu ar gyllid ymchwil a datblygu o ffynonellau ledled y Deyrnas Unedig.

Fel rhanbarth a phrifysgol ddwyieithog, mae'n hanfodol i'n cymunedau ein bod yn sicrhau cynnydd parhaus yn y gweithlu sy'n siarad Cymraeg. Mae'r brifysgol a'n partneriaid mewn sefyllfa unigryw i ymateb i'r her honno. Bydd yr ysgol feddygol newydd yn cyflwyno gweledigaeth ffres a newydd ar gyfer gweithio yn y proffesiynau meddygol, iechyd a gofal, gan gynnig llwybrau i'r proffesiynau hyn i bobl o bob cymuned ledled gogledd Cymru. Bydd yn cynyddu capasiti lleoliadau ar draws ein cymunedau, a thrwy hynny'n adeiladu gwytnwch a chreu ecosystem iechyd gref.

Wrth gwrs, gwaith prifysgol yw rhannu gwybodaeth a'i chreu hefyd. Mae ymchwil ac arloesi sy'n cael eu gyrru gan effaith yn nodweddion ym Mhrifysgol Bangor a dyma sy'n rhoi ein gallu trawsnewidiol i ni a dyma sut mae ein myfyrwyr yn elwa.

Mae ein hymchwil yn chwilio am atebion i rai o broblemau mwyaf heriol y byd - o wella iechyd a lles a diogelu'r amgylchedd i ddarparu atebion newydd i hyrwyddo'r economi 5G byd-eang a chyfrannu at atebion ynni carbon isel. Mae ymchwil blaenllaw Prifysgol Bangor i ddŵr gwastraff wedi gwneud cyfraniad penodol at y frwydr yn erbyn pandemig COVID-19.

Wrth edrych at y dyfodol, mae ein pryderon ehangach ynglŷn â chynaliadwyedd ein harferion fel prifysgol a'n heffaith ar y blaned yn ganolog i'n hunaniaeth. Mae cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o'r brifysgol, boed yn ddiogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas neu hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog a diwylliannol. Mae'n hymrwymiadau yn cefnogi dyheadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a 17 Nod Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Oherwydd ein bod wedi ein gwreiddio yn y gymuned, rydym yn falch o'n treftadaeth. Rydym yn ymwneud yn arbennig â hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ac wedi arwain y maes yn natblygiad addysg ddwyieithog yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Mae gan lawer o'n rhaglenni gradd opsiwn Cymraeg i alluogi myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg



Dyma ran yn unig o'r hyn sy'n ein gwneud yn gampws amlieithog gyda dros 2,700 o fyfyrwyr rhyngwladol yn cynrychioli dros 70 o wledydd. Rydym yn cynnig porth i'r byd ehangach i'n myfyrwyr cartref gyda chynlluniau astudio dramor a chyfleoedd profiad rhyngwladol sy'n galluogi myfyrwyr i astudio neu weithio ledled y byd.

Mae'r byd wedi newid yn ystod y pandemig. Yn y cyfnod heriol hwn, ni fu erioed adeg cyn bwysiced i brifysgolion ddangos eu gwerth i'r cyhoedd, nid yn unig o ran y wybodaeth rydym yn ei chynhyrchu ond o ran gwerth ymchwil ac addysgu'r genhedlaeth nesaf wrth i ni eu helpu i'w paratoi i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r byd.

Dyma yn wir yw pwrpas Cynllun Strategol 2030 y brifysgol, y gwnaethom ymgynghori arno â staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn ystod 2020-21. Dyma weledigaeth rymus o Brifysgol sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo talent a chyfiawnder cymdeithasol. Yn sail i hynny mae effaith economaidd a dinesig sydd â chyrhaeddiad byd-eang, a fydd yn gwella iechyd a lles cymuned y Brifysgol ac yn ehangach na hynny. Rydym yn rym er daioni yng ngogledd Cymru.

Fel Is-ganghellor, rwy'n arbennig o falch bod strategaeth 2030 yn cyd-fynd â'r amcanion polisi gwych a nodir yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo cydweithredu a chydlyniant mewn addysg ac ymchwil drydyddol, cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol, hyrwyddo addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, hyrwyddo cenhadaeth ddinesig a hyrwyddo agwedd fyd-eang.

Er gwaethaf y pandemig, mae momentwm bellach i ddatblygu cyfleoedd addysgu a dysgu trwy gyflwyno disgyblaethau newydd o natur gymhwysol neu alwedigaethol mewn pynciau gan gynnwys Cyfrifiadureg, Peirianneg Gyffredinol, Ffarmacoleg, Meddygaeth, a, thros amser, Fferylliaeth. Ar yr un pryd mae'r Brifysgol yn arloesi mewn gwaith dysgu ac addysgu digidol arloesol a chreadigol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n arbennig o braf bod Prifysgol Bangor wedi ennill cyllid trwy gomisiwn iechyd Cymru gyfan i ddarparu addysg nyrsio o bell a chefnogaeth i addysg nyrsys yn y gweithle. Mae hwn yn gyfle ardderchog i ni ddatblygu ymhellach ein harbenigedd mewn dysgu digidol a mynd â'r gwaith hwn i lefel newydd.

Rydym yn edrych ymlaen at strategaeth recriwtio a symudedd myfyrwyr rhyngwladol ar ei newydd wedd sy'n adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o COVID-19. Elfen allweddol o hyn yw ehangu nifer a chwmpas ein partneriaethau addysgol trawswladol i roi hyd yn oed mwy o gyrhaeddiad byd-eang i ni. Ar yr un pryd, mae dysgu gydol oes yn amcan strategol mawr i'r brifysgol wrth i ni symud ymlaen i weithio gyda'n holl bartneriaid.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn disgwyl am ganlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Bydd ein strategaeth ymchwil ac effaith yn amlwg yn cyd-fynd â'r canlyniadau a byddwn yn hyrwyddo gwaith rhyngddisgyblaethol ar draws ein cryfderau ymchwil ac yn buddsoddi mewn meysydd o gryfder amlwg.

Wrth i ni edrych ymlaen, nid yw dychwelyd at ffyrdd o feddwl oedd gennym cyn y pandemig yn opsiwn a bydd y Brifysgol yn parhau i arloesi. Bydd cynaliadwyedd ariannol yn sail i'r dull gweithredu hwn, gan fod hyn, yn bwysig ddigon, yn creu'r amodau i'r Brifysgol wych hon gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn Strategaeth 2030.

**Yr Athro Iwan Davies**
*Is-Ganghellor*

53.2293° N, 4.1309° W





2

Cyflwynodd Prifysgol Bangor strategaeth newydd – Strategaeth 2030 – ar ôl ymgynghori â staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid a dylanwadwyr eraill. Dyma strategaeth ac ynddi weledigaeth o ran ei chwmpas a'i huchelgais sy'n rhannu'r cyfeiriad y bydd cymuned y Brifysgol yn ei ddilyn dros y degawd nesaf.

# STRATEGAETH 2030

**CYNALIADWY I GENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Y Brifysgol hon yw'r unig un gynhwysfawr a arweinir gan ymchwil yn y gogledd, ac rydym yn ymrwymo i ddarganfod gwybodaeth newydd a'i chymhwyso er lles cymdeithas a'r economi. Byddwn yn adeiladu ymhellach ar ansawdd ein hymchwil, yn buddsoddi mewn meysydd o gryfder a maint, gan ymwneud â heriau byd-eang, cyflymu gweithio rhyngddisgyblaethol, a galluogi ein myfyrwyr i elwa ar amgylchedd dysgu sy'n gynhwysol ac sy'n ysbrydoli.

Byddwn yn cefnogi amgylchedd colegol sy'n sail i ddiwylliant o hunanwelliant ymhlith cymuned y Brifysgol gyfan. Bydd hynny'n cynnwys datblygu llwybrau i gyfnewid doniau academaidd - gan gynnwys y staff a'r myfyrwyr - gyda diwydiant ac yn fwy cyffredinol mewn gweithgarwch economaidd, gwyddonol a diwylliannol.

Byddwn yn gweithredu'n gyflym ac ar raddfa fawr, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ymchwil ac arbenigedd sy'n arwain y byd a phwyslais ar yr effaith gymdeithasol a chydweithredu. Mae pwyslais ar gysylltiadau diwydiannol - gyda mentrau amlwladol a'r gymuned gynhenid o fusnesau bach a chanolig eu maint - a bydd y Brifysgol yn arweinydd o ran syniadau sy'n ymwneud â thwf a bydd yn cefnogi ac yn dylanwadu ar gymunedau'r gogledd a thu hwnt.

Ein nod yw creu darpariaeth ddi-dor o addysg a hyfforddiant galwedigaethol gyda llwybrau apelgar at addysg uwch. Byddwn yn croesawu dysgu ac addysgu digidol i greu amgylchedd ledled pob campws sy'n hyrwyddo dysgu cymunedol ac yn darparu sylfaen i ddatblygu Addysg Drawswladol ac academi fyd-eang gyda'n partneriaid ble bynnag y bônt yn y byd.

Awn ati i wella ar ein rhaglenni addysg o safon rhyngwladol trwy ansawdd ein haddysgu gan ddarparu profiad rhagorol i fyfyrwyr Bangor sy'n rhoi llwyfan iddynt ddatblygu gyrfaoedd da a chyfleoedd i wneud gwahaniaeth go iawn trwy eu cyfraniad at gymdeithas yn y dyfodol.

Bydd y Brifysgol yn parhau i ddenu myfyrwyr lleol, myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig yn ehangach a myfyrwyr rhyngwladol, gan wella diwylliant ac ansawdd bywyd gartref a thu hwnt. Mae Strategaeth 2030 yn gosod Bangor yn gadarn fel sefydliad a chanddo gysylltiadau byd-eang trwy ddarpariaeth academaidd gydweithredol a phortffolio o gysylltiadau a phartneriaethau deallusol a diwylliannol. Yn hynny o beth rydym yn Brifysgol ryngwladol, ac, yn y cyfnod wedi'r pandemig, byddwn yn datblygu strategaeth ryngwladoli drawsnewidiol ar ei newydd wedd.

Rhaid i Brifysgol Bangor fynnu ei lle yn rhan o gymuned o brifysgolion sy'n arwain y byd. Fel un o'r prifysgolion mwyaf rhyngwladol yng Nghymru, byddwn yn ychwanegu gwerth mewn perthynas â diwydiant, iechyd, diwylliant, yr economi a chenhadaeth ddinesig. Byddwn yn denu staff a myfyrwyr talentog, ac rydym yn ymrwymo i ddarparu addysg sy'n gwella sgiliau, cyflogaeth, anghydraddoldebau iechyd a'r cyfleoedd i ennill cyflogau uwch, a byddwn yn helpu i gadw doniau yn ein cymunedau, a chyfrannu at wneud Cymru'n genedl ddwyieithog lwyddiannus.

Mae pedair colofn yn sail i Strategaeth 2030: Rhagoriaeth ymchwil, profiadau dysgu trawsnewidiol, profiad rhagorol i fyfyrwyr, ac amgylchedd dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd y colofnau strategol yn cynnal ac yn datblygu ein hymdrechion craidd i osod y Brifysgol fel grym ar gyfer addysg uwch ac economi'r gogledd. Bwriedir i'r weledigaeth fod yn wirioneddol drawsnewidiol, yn cryfhau a hyrwyddo potensial y Brifysgol mewn modd sy'n cyd-daro'n thematig â'i chryfderau cyfredol a'r blaenoriaethau polisi cenedlaethol.

53.2547° N, -4.3271° W





53.2293° N, -4.1309° W

## EIN CENHADAETH

Prifysgol Gogledd Cymru ac ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n cael ei harwain gan ymchwil ac yn meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## EIN GWELEDIGAETH

Prifysgol ac iddi gysylltiadau byd-eang, sy'n gwireddu cyfleoedd ar gyfer llwyddiant trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol a sbardunir gan effaith, gyda ffocws ar gynaliadwyedd - diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol.

## EIN GWERTHOEDD

Uchelgais – Cynwysoldeb – Uniondeb – Parch – Cynaliadwyedd – Trawsnewid

# EIN HYMCHWIL




Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu fframwaith strategol newydd ar gyfer Ymchwil ac Effaith sy'n nodi pedwar nod cyffredinol: Enw da a rhagoriaeth yn fyd-eang a hynny ar raddfa fawr; effaith drawsnewidiol sy'n ymgorffori ymchwil ac effaith; cydweithredu a phartneriaeth; a datblygu sgiliau. Dyma i chi newid o ran ffocws a dull gweithredu'r Brifysgol sy'n cyfuno sawl agenda megis ymchwil, effaith, busnes ac ymwneud â menter.

Bydd y weledigaeth sydd gennym o ran ymchwil ac effaith - sef bod yn ganolfan ragoriaeth fyd-eang mewn cynaliadwyedd - yn galluogi'r Brifysgol i ymdrin â chynaliadwyedd mewn modd unigryw a chyfannol sy'n cyd-daro â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Yn ystod 2020-21 roedd y Brifysgol yn parhau i flaenoriaethu cefnogaeth a buddsoddiad mewn ymchwil rhyngddisgyblaethol sydd eisoes yn rhagorol ac yn sylweddol o ran maint, neu ar fin bod felly, ac sy'n gyson ag egwyddorion cynaliadwyedd, ac sy'n ymdrin â chwestiynau byd-eang heriol, ac sy'n arwyddocaol yn rhyngwladol.

Rhoddir sylw i ymchwil sydd â'r potensial i gael effaith drawsnewidiol ar adfywiad economaidd a chymdeithasol, yn enwedig y themâu hynny sy'n gweddu i brif raglenni cyllido Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cynllun Twf y Gogledd sydd â'r nod i drawsnewid y rhanbarth a helpu cydbwyso'r economi

Rydym yn ffurfio partneriaethau ac yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i wireddu'r cyfleoedd a ddarperir gan ffrydiau cyllido newydd yr agenda Codi'r Gwastad. Mae datblygu sgiliau'n seiliedig ar ragoriaeth ymchwil i helpu i wella ac annog mewnfuddsoddi a chynigir amgylchedd dysgu a fydd yn ysbrydoliaeth ac sy'n seiliedig ar ymchwil i fyfyrwyr Prifysgol Bangor.



**Dywedodd yr Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Effaith: "Mae gwneud ein Prifysgol yn gyfystyr a chynaliadwyedd yn golygu y dylai cynaliadwyedd fod yn elfen ym mhob ymchwil a wnawn ac, ynghyd ag effaith ein hymdrechion ymchwil, bydd hynny'n cynnig diffiniad byw sy'n esblygu ac yn parhau'n berthnasol. O ddod â rhagoriaeth ymchwil ac effaith ynghyd fel hyn, byddwn ar flaen y gad o ran y blaenoriaethau a'r heriau cymdeithasol newydd sy'n codi yn ogystal â chyfrannu at bolisïau ac arferion y Llywodraeth at y dyfodol i roi sylw iddynt**

**"Ochr yn ochr â hyn byddwn yn sefydlu projectau 'naid cwantwm' gan roi'r potensial i'r brifysgol gynyddu graddfa'r ymchwil a wna. Mae'r cynlluniau sydd gennym ar gyfer Ysgol Feddygol i'r Gogledd, gyda chefnogaeth y Llywodraeth, yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni trwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid ar broject 'naid cwantwm' trawsnewidiol sydd nid yn unig yn ceisio cyflwyno ysgol ryngbroffesiynol arloesol, mae hefyd yn meithrin y cryfderau ymchwil sydd gennym yn y gwyddorau dynol ac yn ceisio helpu datblygu iechyd a gofal cymdeithasol y dyfodol sy'n gynaliadwy, yn seiliedig ar le ac yn cefnogi twf y sector gwyddorau bywyd yn rhanbarthol."**

## YMCHWIL COVID-19

Mae pandemig COVID-19 yn cynrychioli un o'r bygythiadau mwyaf diweddar i iechyd pobl, lles a thwf economaidd. Sicrhaodd Prifysgol Bangor fwy na £16 miliwn mewn cyllid tuag at ymchwil sy'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu'r rhwydwaith epidemioleg cenedlaethol cyntaf sy'n seiliedig ar ddŵr gwastraff ar gyfer monitro SARS-CoV-2 ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru.

Wrth i'r byd ddechrau sylweddoli maint y pandemig oedd yn dod i'r amlwg, sylweddolodd tîm o ymchwilwyr ym Mhrifysgol Bangor, dan arweiniad yr Athro Gwyddor Pridd a'r Amgylchedd, Davey Jones, yr angen dybryd i ddefnyddio'u harbenigedd a'u galluoedd i weithredu.

Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, bu ein hymchwilwyr yn monitro cyflwr newidiol y pandemig yng Nghymru, yn cefnogi ac yn llywio penderfyniadau polisi iechyd cyhoeddus, ac yn meithrin gallu cenedlaethol i fod yn barod ar gyfer unrhyw bandemig yn y dyfodol. Sylweddolwyd y rôl bwysig y mae'r diwydiant dŵr gwastraff yn ei chwarae ym maes iechyd cyhoeddus cenedlaethol.

Rhagoriaeth wyddonol: Mae Cymru wedi arloesi yn y defnydd o ddŵr gwastraff ar gyfer gwyliadwriaeth COVID-19 ar lefel genedlaethol. Mabwysiadwyd hyn gan Loegr a'i gyflwyno wedyn gan y Cyd-ganolfan Bioddiogelwch mewn 44 o safleoedd, gan godi i 250 erbyn 2021.

Mynychder afiechyd: Y Brifysgol oedd yn gyfrifol am sefydlu rhaglen monitro dŵr gwastraff ar lefel genedlaethol ar gyfer COVID-19 a oedd yn cynnwys 20 o safleoedd allweddol ac yn agos at 70% o boblogaeth Cymru. Mae hwn bellach yn rhan o ddangosfwrdd Armakuni sy'n adrodd ar amlder yr achosion o glefydau cenedlaethol i helpu asiantaethau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r gwaith wedi cefnogi profion torfol wedi'u targedu yng Nghymru a Lloegr.

Rhagoriaeth ac effaith ymchwil: Mae ymchwil dŵr gwastraff yn faes newydd iawn a chynhyrchwyd wyth papur ar gyfer cyfnodolion y seilir y rhaglen wyddoniaeth genedlaethol arnynt. Mae'r Brifysgol wedi cyfrannu arbenigedd at ymdrechion cydweithredol rhyngwladol i ddatblygu arfer gorau epidemioleg dŵr gwastraff ledled Ewrop a thu hwnt. Mae'r cyllid hefyd wedi rhoi cyfle i adeiladu ar gryfderau ymchwil yng Nghymru mewn gwyddorau amgylcheddol, gwyliadwriaeth afiechyd a genomeg pathogenau.






53.2293° N, -4.1309° W

## DATBLYGU TECHNOLEGAU NIWCLEAR

**Mae Sefydliad Dyfodol Niwclear y Brifysgol wedi bod yn hyrwyddo technolegau niwclear yng Ngogledd Cymru ers ei sefydlu yn 2017. Mae ynni niwclear yn chwarae rhan allweddol yn yr ardal gyda dau safle niwclear trwyddedig - yr Wylfa a Thrawsfynydd - ac adnodd diwydiannol ac academaidd sy'n ehangu'n gyflym yn y brifysgol yn ogystal â'n parc gwyddoniaeth, M-SParc. Mae'r cyfleusterau diweddaraf sydd gan Sefydliad Dyfodol Niwclear hefyd yn cael eu defnyddio gan randdeiliaid blaenllaw yn y diwydiant i helpu i ddatblygu technoleg niwclear.**

Mae gan y Sefydliad hanes o adeiladu rhwydweithiau ac mae'n ymwneud yn helaeth â nifer o gonsortia a noddir gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) gan gynnwys fel rhan o Ganolfan Hyfforddiant Doethurol a arweinir gan y Coleg Imperial a chydweithrediadau rhwng byd academaidd y DU ac ymchwilwyr yn India i arwain Rhaglen Niwclear Sifil y DU-India.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r Sefydliad Dyfodol Niwclear yn datblygu cyfleuster Ymchwil Mynediad Agored Hydroleg Thermol (THOR) yn M-SParc ac fel rhan o isadeiledd y Cyfleuster Cenedlaethol Defnyddwyr Niwclear, mae wedi cael arian i adeiladu Cyfleuster Cynhyrchu Tanwydd Prifysgol Bangor a fydd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol.

Gwnaeth buddsoddiad gan raglen Sêr Cymru, Llywodraeth Cymru a chan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn 2020-21 alluogi'r brifysgol i ehangu ei gwaith yn y maes niwclear i feddygaeth, rheolaeth ac offeryniaeth, deunyddiau strwythurol ac ynni ymasiad.

Yr Athro Bill Lee, un o wyddonwyr deunyddiau gorau'r byd, yw cyfarwyddwr Sefydliad Dyfodol Niwclear. Meddai, "Mae hwn yn gyfle gwych i Ogledd Cymru, yn darparu isadeiledd ymchwil a hyfforddiant rhagorol ynghyd â rhaglen niwclear llawer mwy sylweddol.

"Bydd y buddsoddiad newydd yn helpu'r Sefydliad Dyfodol Niwclear i ehangu i feysydd meddygaeth niwclear, gan ddefnyddio cemegion ymbelydrol i wneud diagnosis o glefyd y galon a llawer o ganserau a'u trin, deunyddiau strwythurol, i atal gollyngiadau ymbelydrol o adweithyddion niwclear, ac ymasiad niwclear."

Yn y cyfamser, mae pŵer ymasiad wedi cymryd un cam yn nes at fod yn ffynhonnell fasnachadwy o ynni toreithiog, glân a dibynadwy. Ers blynyddoedd mae gwyddonwyr a pheirianwyr ledled y byd wedi bod yn gweithio tuag at gael mwy o ynni allan nag y maent yn ei roi i mewn i adwaith ymasiad ar y ddaear fel y mae'r haul yn ei wneud, ac mae'r gamp hon bellach wedi'i chyflawni.

Mae ymchwilwyr yn y brifysgol yn cefnogi'r ymdrech ryngwladol hon trwy ddatblygu deunyddiau a chydrannau newydd i gynnal yr adwaith ymasiad, gan droi o fod yn lwyddiant byr i adwaith parhaus.

Cafodd ymchwilwyr yng Ngogledd Cymru gyllid gan Tokamak Energy, prif gwmni ymasiad niwclear masnachol y DU, i gyflymu eu llwybr i lwyddiant. Yn ogystal, dyfarnwyd grant gan y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg i'r tîm ym Mangor i ddefnyddio'r dechnoleg ymasiad hon i gynhyrchu isotopau meddygol i drin a gwneud diagnosis o salwch fel canser yr iau a'r prostad.



## ENSYMAU MICROBAIDD AR GYFER GLANEDYDDION, TECSTILAU A CHOLUR CYNALIADWY

**Bydd cynnyrch mwy cyfeillgar i'r amgylchedd, fel glanedyddion, tecstilau a chosmetigau yn cael eu cynhyrchu o ganlyniad i waith gan wyddonwyr Canolfan Biodechnoleg Amgylcheddol y Brifysgol a'u partneriaid project.**

Mae tîm y Brifysgol yn rhan o FuturEnzyme, sef consortiwm amlddisgyblaethol o 16 o bartneriaid academaidd a diwydiannol ledled Ewrop.

O dan arweiniad yr Athro Bioleg, Peter Golyshin, derbyniodd tîm Prifysgol Bangor EUR 550k o gyllid i ganolbwyntio ar gynhyrchu trwybwn uchel ar raddfa fach, a nodweddu ensymau posibl sy'n bwysig mewn gweithgynhyrchu tecstilau, cynhyrchion gofal personol a glanedyddion yn ddiwydiannol.

## NEWID POLISÏAU RHOI GWAED Y DU

**Cyfrannodd ymchwilwyr yn yr Ysgol Astudiaethau Iechyd tuag at y penderfyniad i newid polisi dewis rhoddwyr gwaed yn y Deyrnas Unedig, o fod yn un oedd yn seiliedig ar rywioldeb i fod yn un sy'n seiliedig ar ymddygiad rhywiol unigolion.**

Cymerodd ymchwilwyr yn yr Ysgol Astudiaethau Iechyd ran yn y project FAIR (For the Assessment of Individualised Risk), a gasglodd y dystiolaeth a oedd yn ofynnol i newid polisi dewis rhoddwyr gwaed y Deyrnas Unedig. Cynhaliodd FAIR adolygiad i asesu a deall yr ymddygiadau rhywiol yr oedd iddynt y risg uchaf o ran caffael heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STI) a gludir yn y gwaed.

Cynhaliodd tîm Bangor arolwg gyda'r holl staff a'r myfyrwyr, a ddarparodd wybodaeth bwysig yn gefn i ddatblygu holiadur asesu rhoi gwaed a oedd yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol mewn cysylltiad â rhoi gwaed. Daeth grŵp llywio FAIR i'r casgliad y dylai rhoddwyr y bu ganddynt yr un partner rhywiol yn ystod y tri mis diwethaf ac nad oes arnynt haint a drosglwyddir yn rhywiol fod yn gymwys i roi gwaed.

Cafodd canlyniad yr adolygiad sêl bendith gweinidogol a olygai fod dyn mewn perthynas hirdymor â dyn arall wedi gallu rhoi gwaed o Haf 2021.



## LANSIO PROJECT ARLOESOL I DDIOGELU EIN COED DERW EICONIG

**Mae arbenigwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol yn cyfrannu at broject arloesol i ymchwilio i rôl microbau buddiol wrth ymladd afiechydon sy'n effeithio ar ein coed derw brodorol. Cefnogwyd yr ymchwil gan £1.3miliwn o gyllid o'r rhaglen Clefydau Planhigion Bacteriol a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC), Defra a Llywodraeth yr Alban ac mae hefyd yn cael ei gefnogi gan Action Oak.**

Mae project FUTURE OAK yn astudio sut mae newid amgylcheddol a chlefydau'n effeithio ar ficrobiomau derw. Mae dirywiad acíwt coed derw (neu AOD) yn un clefyd sy'n fygythiad sylweddol i'n coed derw brodorol.

Mae project FUTURE OAK yn dadansoddi cannoedd o goed derw brodorol ledled Prydain i ddeall pa ficrobau sy'n hybu iechyd ac yn ymladd afiechydon. Bydd profi gallu'r microbau hyn i atal bacteria sy'n achosi afiechyd yn gam tuag at ddatblygu triniaethau bioreolaeth i hyrwyddo coed iachach ac atal symptomau AOD.

## DWYIEITHRWYDD A PHLANT Â SYNDROM DOWN

**Yn yr astudiaeth gyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig, bu ymchwilwyr yn yr Adran Ieithyddiaeth yn archwilio iaith plant dwyieithog Cymraeg-Saesneg sydd â syndrom Down ac ni welsant dystiolaeth o gwbl o anawsterau ychwanegol o'i gymharu â phlant uniaith.**

Cymharodd ymchwilwyr grŵp o blant dwyieithog â syndrom Down â grŵp o rai uniaith Saesneg, a chanfuwyd perfformiad tebyg yn Saesneg, ynghyd â sgiliau sylweddol yn Gymraeg.

Wedi'i gyhoeddi yn y Journal of Communication Disorders, mae'r astudiaeth grŵp gyntaf yn y DU ac un o ychydig iawn o astudiaethau yn rhyngwladol, yn chwalu'r myth y gallai dod i gysylltiad â dwy iaith achosi problemau i blant â syndrom Down.

Bydd y canlyniadau cadarnhaol hyn yn cynnig arweiniad i deuluoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol ar fagu plant â syndrom Down yn ddwyieithog..

Roedd Cymdeithas Syndrom Down yn bartner a chydweithredwr yn yr astudiaeth a ariannwyd ar y cyd gan Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC / Cymru a'r Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth. Mae'r cydweithredu'n parhau, gyda phroject newydd sy'n archwilio datblygiad dwyieithrwydd mewn plant awtistig sydd â syndrom Down a hebddo.

.



## SUT MAE'R CYFRYNGAU YN DYLANWADU AR DDEWIS GWISGO MWGWD?

**Mewn gwaith a ariannwyd gan Ymchwil ac Arloesedd y DU, bu tîm amlddisgyblaethol o arbenigwyr o feysydd y Cyfryngau, Ieithyddiaeth, y Gyfraith a Bio-gyfansoddion yn edrych ar ddylanwad negeseuon y cyfryngau ar ddewis pobl i wisgo mwgwd yn y pandemig.**

Roedd yr ymchwil yn archwilio nid yn unig gwisgo mwgwd, ond y dewis rhwng masgiau wyneb tafladwy yn erbyn rhai ailddefnyddiadwy a'u heffaith ar yr amgylchedd. Y nod oedd archwilio ymddygiad cyfredol gwisgo masg wyneb fel y mae'r cyfryngau yn dylanwadu arno, i lywio ymgyrchoedd cyfryngau gan y llywodraeth a sefydliadau eraill yn y dyfodol, gan ystyried materion amgylcheddol yn benodol.

Os dylid parhau i wisgo masgiau, bydd yr ymchwil newydd hon yn canfod sut y gellir annog mwy o bobl i'w gwisgo a'u defnyddio mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy

## YMCHWIL YN LLYWIO CANLLAWIAU CADWRAETH RHYNGWLADOL

**Mae dad-ddofi yn ddull cadwraeth sy'n cael ei arwain gan natur, ac mae'n golygu rhoi mwy o le i natur, atgyweirio cynefinoedd sydd wedi'u difrodi ac adfer bywyd gwyllt a gollwyd, wrth leihau dylanwad dynol i hyrwyddo prosesau naturiol.**

Mae'n cael ei hyrwyddo fel ffordd ragweithiol o fynd i'r afael ag argyfyngau amgylcheddol byd-eang, gan nid yn unig amddiffyn bywyd gwyllt presennol, ond rhoi mwy o ryddid a lle i natur ffynnu - dysgu oddi wrth natur yn hytrach na cheisio ei ficro-reoli.

Roedd ymchwil Dr Sophie Wynne Jones, yn ystyried dimensiynau cymdeithasol dad-ddofi tir, sy'n agwedd hanfodol a ddatblygwyd fel rhan o'r Egwyddorion Arweiniol er Dad-Ddofi ym maes Bioleg Cadwriaethol. Mae'n bwysig ystyried pryderon y rheiny a gaiff eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig hyn a gweithredu mesurau cadwraeth mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau negyddol ar gymunedau preswyl er mwyn ennill eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad.

Mae'r egwyddorion yn amlinellu'r angen am ymgysylltiad a chefnogaeth leol, fel y gall dad-ddofi gynnwys yr holl randdeiliaid, ac y gellir cynnwys gwybodaeth leol fel rhan allweddol o'r broses.

## GWAITH ARLOESOL MEWN PROFIADAU DELWEDDU DATA

**Cyflwynodd ymchwilwyr o'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig eu gwaith arloesol ar Ddadansoddeg Drochi yng nghynhadledd VIS 2020 Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ac Electronig, sef y prif fforwm ar gyfer datblygiadau mewn delweddu a dadansoddeg weledol.**

"Fframwaith ar y we yw VIRA sy'n golygu y gellir creu profiadau delweddu data mewn Rhithrealiti a Realiti Estynedig (VR/AR), a elwir gyda'i gilydd yn XR.

Mae'n cynnig ecosystem amgen i offer injans gêm tebyg, a gynigir gan Brifysgolion Monash, Michigan a Harvard. Mae ffocws Prifysgol Bangor ar y We, sef y platfform rhannu mwyaf hollbresennol, yn caniatáu i VRIA fod yn dreiddiol, ac yn hygyrch drwy'r porwr. Mae hyn yn galluogi cydweithrediadau a gwerthusiadau cyflym, sy'n arbennig o ddefnyddiol yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle mae pobl o amgylch y byd yn gweithio ar-lein yn sgil y pandemig, a phan fo cyfyngu ar y gallu i arbrofi yn y fan a'r lle.

Yn ogystal, bydd systemau cyfathrebu'r dyfodol, megis 5G, yr ymchwiliwyd iddo gan Ganolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol y Brifysgol yn gwneud cymwysiadau o'r fath yn llawer mwy treiddiol a throchol. Bangor yw un o'r ychydig brifysgolion sy'n gweithio ar y dechnoleg flaengar hon, ynghyd â sefydliadau megis W3C, Google, Microsoft a Mozilla.

Mae VRIA wedi'i lawrlwytho fwy na 3,000 o weithiau ers iddo gael ei gyflwyno yn 2020.

## CYLCHDROI CNYDAU GYDA CHODLYSIAU YN CYNNIG DULL MWY CYNALIADWY O GYNHYRCHU BWYD

**Yn dilyn astudiaeth gan yr Ysgol Gwyddorau Naturiol cafwyd tystiolaeth y gallai tyfu mwy o godlysiau, megis ffa a ffacbys, fod yn ddull mwy cynaliadwy a maethlon o ymdrin ag amaethyddiaeth yn Ewrop.**

Mae'r astudiaeth hon yn cyflwyno peth o'r dystiolaeth gyfannol gyntaf bod ychwanegu codlysiau at gylchdroadau cnydau traddodiadol (gan gynnwys haidd, gwenith a hadau rêp yn nodweddiadol) yn cynnig buddion amgylcheddol sylweddol yn ogystal â mwy o werth maethol i bobl a da byw.

Gallai'r strategaeth hon gyfrannu'n sylweddol at amcanion penodol Bargen Werdd yr Undeb Ewropeaidd, 'O'r Pridd i'r Plât' i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a'r defnydd o blaladdwyr cemegol a gwrtaith synthetig,

Roedd y canlyniadau'n tynnu sylw hefyd at yr angen am syniadaeth system gyfan - aml-gnwd, fferm-i-fforc - wrth lunio ymyriadau i weithredu systemau bwyd cynaliadwy, fel y gellir cynnig gwell maeth wrth leihau effeithiau amgylcheddol.



# YMCHWIL I YNNI CARBON ISEL A'R AMGYLCHEDD YN CYCHWYN CYFNOD NEWYDD



**Penodwyd y gwyddonydd cadwraeth, yr Athro Julia Jones, yn Gyfarwyddwr Sêr Cymru, sef Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd (NRN-LCEE).**

Meddai: "Mae hwn yn rhwydwaith ymchwil hollbwysig sy'n mynd i'r afael â rhai o'r heriau pwysicaf y mae ein planed yn eu hwynebu. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod y cam cyntaf yn dangos pa mor flaengar yw gwyddor yr amgylchedd yng Nghymru."

Yn ystod y cam cyntaf, enillodd sefydliadau Cymru gyllid cystadleuol ar gyfer 97 o brojectau, a chyfuno i ysgogi gwerth £33 miliwn o gyllid ymchwil.

Canfu un llinyn o'r ymchwil, 'Cleaner Cows', ddulliau cynhyrchu llaeth ac eidion mwy cynaliadwy, a fydd yn helpu i leihau'r effaith amgylcheddol wrth sicrhau na cheir effaith negyddol ar gynhyrchiant. Edrychodd un arall, 'Climate Smart Grass', ar effaith llifogydd a sychder ar gaeau a glaswelltiroedd ffermio. Ymchwiliodd 'Resilcoast' i forfeydd heli, adnoddau arfordirol gwerthfawr gyda lefelau dŵr y môr yn codi oherwydd newid yn yr hinsawdd

Archwiliodd ymchwil a ariannwyd gan NRN-LCEE hefyd sut y gallwn leihau ein hallyriadau carbon ar adeg o alw cynyddol am ynni trwy ddefnyddio ynni a gynhyrchir gan y llanw a thonnau, maes y mae Cymru eisoes yn arweinydd rhyngwladol posibl ynddo.

53.2293° N, -4.1309° W






# MENTER AR Y CYD NEWYDD I'R LLONG SYDD YN HYFFORDDI'R GENHEDLAETH NESAF O WYDDONWYR MOROL

**Y Prince Madog yw'r llong ymchwil fwyaf yn sector addysg uwch y DU, ac mae'n gallu gweithio mewn ceryntau cryf a bron ym mhob tywydd. Cafodd ei hadeiladu yn arbennig i gynnal arolygon gwyddonol ar draws holl sbectrwm gwyddorau'r môr - o ddyfroedd arfordirol hyd ymyl yr ysgafell - ynghyd â darparu llwyfan effeithiol ac effeithlon ar gyfer addysgu, ymchwil a gwaith siartr yn y sector morol.**

**Yn unigryw yn y Deyrnas Unedig, mae'r llong yn galluogi gwyddonwyr môr i astudio bioleg, cemeg, daeareg a ffiseg ein moroedd. Fe'i chynlluniwyd i gario hyd at 10 o wyddonwyr, 20 myfyriwr a chriw ac mae'n mynd â myfyrwyr ar deithiau dysgu am ddyddiau hyd at ymyl y silff gyfandirol. Bob blwyddyn mae mwy na 250 o fyfyrwyr yn elwa o'r profiad unigryw o weithio ar long ymchwil ar y môr, gan ddefnyddio offer gwyddonol i asesu prosesau ac ansawdd dŵr a mesur helaethrwydd a dosbarthiad bywyd y môr.**

**Sefydlwyd Cyd-fenter newydd ym mis Ionawr 2021 rhwng Prifysgol Bangor ac O.S. Energy. Mae O.S. Energy, sydd wedi'i leoli yn Newcastle a'r Almaen, yn gwmni teuluol sy'n arbenigo yn niwydiant ynni gwynt y môr a gwaith arolygu amgylcheddol ym Môr y Gogledd a'r Môr Baltig, ac mae ganddynt nifer o longau.**

**Yn ogystal â rhoi cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr Prifysgol Bangor, mae gan y Prince Madog draddodiad hir o gyfrannu at ymchwil môr ym mhob disgyblaeth. Disgwylir i hyn barhau, gyda ffocws newydd ar ddiwydiant ynni adnewyddadwy'r môr, y mae'r Prince Madog a gwyddonwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion wedi bod yn ei gefnogi trwy eu hymchwil.**

**Mae'r fenter ar y cyd yn sicrhau y gall Prifysgol Bangor adeiladu ar ei dealltwriaeth, sydd gyda'r gorau yn y byd, am amgylchedd a lleoliad ffisegol safleoedd ynni. Mae ehangu'r sector môr yn fasnachol yn dibynnu ar wybodaeth wyddonol, ac mae ein harbenigedd yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion a thrwy'r Prince Madog yn rhan annatod o gefnogaeth y Fenter ar y Cyd i'r sector diwydiannol pwysig hwn.**



# CEFNOGI BUSNES A SGILIAU

4

Fel sefydliad mawr a phartner strategol yng Ngogledd Cymru, mae'r Brifysgol wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol i rannu arweiniad syniadol ac ymchwil ac arloesedd pwysig i gefnogi effaith economaidd a chymdeithasol ehangach.

Mae Prifysgol Bangor hefyd yn ymrwymedig i arwain gweledigaeth gyffredin ar draws addysg drydyddol yng Ngogledd Cymru i bontio terfynau addysg bellach ac addysg uwch a darparu cynnig amgen yn hytrach na llwybrau addysg a hyfforddiant sefydledig.



53.2291° N, 4.1328° W

## Cynllun Twf y Gogledd

Wrth i'r amgylchedd gyllidol ac economaidd addasu ar ôl Brexit ac wrth i gronfeydd strwythurol rhanbarthau Ewrop ddod i ben yn raddol, mae'r Brifysgol wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol i lunio a chefnogi gweithrediad Cynllun Twf y Gogledd, sef mecanwaith ariannu rhanbarthol mawr i wella ffyniant rhanbarthol. Mae £240m wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru gan fynd i'r afael â sectorau allweddol ar gyfer yr economi ranbarthol.

Mae Prifysgol Bangor yn datblygu projectau blaenllaw a fydd yn arwain at gyfleusterau Ymchwil a Datblygu o'r radd flaenaf er mwyn cefnogi twf rhanbarthol mewn tri maes allweddol: Prosesu Signalau Digidol, Ynni Carbon Isel a Biotechnoleg Amgylcheddol. Bydd y projectau hyn yn darparu ymchwil a datblygu a chyfleusterau arloesi yn y Brifysgol. Byddant yn ysgogi cydweithrediadau newydd gyda diwydiant, yn darparu budd rhanbarthol uniongyrchol ac yn sicrhau buddsoddiad i'r Brifysgol. Project Prosesu Signalau Digidol y Brifysgol, sef project a fydd yn creu mwy na 30 o swyddi newydd, yn ffurfio nifer o gydweithrediadau diwydiannol a chwmnïau newydd yn ogystal â sicrhau buddsoddiad ychwanegol sylweddol i'r rhanbarth, yw'r project cyntaf a gefnogir ar draws y rhanbarth cyfan ac mae'n dynodi cyfnod newydd o ragweld twf rhanbarthol.

## Prifysgolion Santander

Mae partneriaeth y Brifysgol â Phrifysgolion Santander wedi cael ei ymestyn am dair blynedd ychwanegol gyda chyllid newydd ar gyfer nifer o fentrau sy'n cwmpasu entrepreneuriaeth, cyflogadwyedd ac addysg. Bydd hyn yn adeiladu ar lwyddiannau sylweddol y cytundeb blaenorol gan gynnwys cefnogi 122 o fyfyrwyr yn defnyddio Cyflymydd Menter Santander, ariannu deorydd busnesau cychwynnol myfyrwyr yn M-SParc, sef Parc Gwyddoniaeth y Brifysgol, a darparu 68 o interniaethau gyda busnesau bach a chanolig eu maint. Yn ogystal, darparodd y rhaglen gymorth i 23 o fyfyrwyr entrepreneuraidd i sefydlu busnesau newydd yn ystod anterth y pandemig COVID-19.

## Rhwydwaith rhanbarthol darparwyr dysgu a sgiliau

Un o flaenoriaethau'r Brifysgol yw ei safle wrth galon y ddarpariaeth drydyddol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r rhwydwaith hwn yn cryfhau ymrwymiad y Brifysgol i sbarduno llwybrau ehangach ymlaen i addysg uwch ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'r cydweithrediadau hyn yn parhau i gyflwyno darpariaeth yn defnyddio dull gweithredu gwahanol, sydd yn aml yn alwedigaethol o ran natur, ond gyda sicrwydd safonau ansawdd y Brifysgol yn rhan o'r ddarpariaeth ragorol gan bartneriaid wrth i bob un ohonynt geisio meithrin taith eu dysgwyr ar draws lefelau sgiliau ac i mewn i broffesiynau ar draws y rhanbarth.

Mae'r Brifysgol wedi adnewyddu ei pherthynas hirsefydlog, hynod lwyddiannus, â Grŵp Llandrillo Menai, ac wedi cychwyn ar gydweithrediad newydd gyda Choleg Cambria yng ngogledd ddwyrain Cymru, gan wella'r effaith gydweithredol ledled Gogledd Cymru mewn sectorau allweddol megis y proffesiynau iechyd, meysydd digidol, y celfyddydau, peirianneg, busnes a sectorau amgylcheddol. Mae'r cydweithrediadau hyn yn cyflawni dyheadau cyffredin i sicrhau bod addysg uwch ragorol ar gael ledled Gogledd Cymru ac ymestyn y llwybrau ar draws lefelau sgiliau i sicrhau amgylchedd dysgu a sgiliau cydlynol ar gyfer y rhanbarth gydag ymrwymiad ar y cyd i lunio gweledigaeth ymhlith poblogaeth Gogledd Cymru i gyflawni mwy a chryfhau cymunedau.







53.2299° N, 4.1252° W

## Y Ffatri Sgiliau: Dulliau newydd o ymdrin â heriau newydd

Mewn cyfnod o newid technolegol cyflym ac yn sgil effaith y pandemig byd-eang mae heriau sy'n effeithio ar rai rhannau o economi Gogledd Cymru i raddau mwy difrifol nag eraill, e.e. gweithgynhyrchu uwch, y celfyddydau a diwylliant, ac adeiladu a thwristiaeth. Bu cydnabyddiaeth eang bod sgiliau technegol yn allweddol ar gyfer yr adferiad ynghyd â datblygu cyfleoedd newydd. Nid yw hon yn her newydd i Ogledd Cymru a gogledd ddwyrain Cymru'n benodol.

Mewn ymateb i'r cyd-destun economaidd ac er mwyn darparu atebion newydd, yn 2020-21, lluniodd y Brifysgol a Choleg Cambria weledigaeth ar gyfer math newydd o Academi Sgiliau dan arweiniad technoleg yng ngogledd ddwyrain Cymru, gan adeiladu ar gonglfeini angen diwydiannol, ac ymchwil i dechnoleg gymhwysol, ynghyd â hyfforddiant ystwyth a pharhaus. Mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, sicrhaodd y Brifysgol swm cychwynnol o £1.5m i sefydlu'r Ffatri Sgiliau.

Bydd y Ffatri Sgiliau yn pontio'r bwlch rhwng addysg bellach ac addysg uwch ac yn cyflawni ei weledigaeth y tu allan i'r patrymau cyffredin o addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar hyn o bryd ar oedran a chymwysterau addysgol traddodiadol.

Bydd y Ffatri Sgiliau, sydd wedi'i ysgogi gan yr angen am weithlu STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) hynod fedrus sy'n cael cyflogau da, a'r angen i roi sylw i anghenion yr economi ranbarthol yn y dyfodol mewn amgylchedd ôl-bandemig, yn darparu mynediad at gyflogaeth yn y sectorau STEM ac yn darparu llwybrau newydd at yrfaoedd newydd. Gyda ffocws cychwynnol ar feysydd digidol, gweithgynhyrchu uwch a pheirianneg, a hynny'n gysylltiedig â gallu ymchwil ac arloesi rhagorol y Brifysgol, bydd y weledigaeth hon yn cynnig dulliau gweithredu hyblyg, rhaglenni achrededig ac anachredig ac yn darparu sgiliau ar gyfer technolegau newydd a'r swyddi y bydd eu hangen yn y dyfodol i gefnogi'r economi ar draws gogledd ddwyrain Cymru.

## Gweithgynhyrchu uwch a'r economi ynni

Aeth arbenigedd y Brifysgol mewn Peirianneg o nerth i nerth yn 2020-21. Mae'r Sefydliad Dyfodol Niwclear wedi bod yn rhan ganolog o ddatblygiadau sylweddol o ran polisi a gwyddoniaeth ar lefel fyd-eang tra ydym yn ddylanwadol yng nghyd-destun Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r Sefydliad Dyfodol Niwclear wedi parhau i dyfu drwy lwyddo i ddenu rhagor o grantiau ymchwil ac mae wedi gwella'r sylfaen wyddoniaeth o ddeunyddiau a modelu i feddygaeth niwclear, peirianneg niwclear, dylunio adweithyddion ac offeryniaeth a systemau rheoli, sydd oll yn cael eu cymhwyso y tu hwnt i'r sector niwclear yn y cyd-destun Gweithgynhyrchu Uwch ehangach. Mae gwaith polisi rhanbarthol yn mynd i'r afael â rheoleiddio, gwyddoniaeth, isadeiledd hanfodol a dyfodol y maes polisi yn ogystal â'r wyddoniaeth graidd.

Yn hollbwysig, mae'r gwaith hwn yn rhan o ymgysylltiad ehangach â gweithgarwch cenedlaethol y Catapwlt Ymchwil drwy Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru yng ngogledd ddwyrain Cymru a'r Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Niwclear Uwch sydd bellach yn denant rhithiol ym mharc gwyddoniaeth y Brifysgol, M-SParc. Mae hefyd yn cysylltu â datblygiadau newydd cyffrous yn rhaglen technoleg gofod Cymru a'r Deyrnas Unedig, yn enwedig cefnogi ymdrechion lleol i sefydlu cyfleusterau lansio lloerennau yng Ngwynedd.



## Ecosystem gydweithredol gyda busnes a diwydiant

Mae gan y Brifysgol draddodiad hir a chryf o gydweithredu. Ni fu 2020-21 yn eithriad yn hyn o beth gyda chynigion project newydd yn cael eu datblygu gyda chwmnïau rhyngwladol mawr. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd mentrau a wnaed gyda chwmnïau megis Rolls Royce, Vodaphone a Thales. Mae partneriaethau cydweithredol newydd wedi cael eu datblygu gyda Microsoft, NEC a'r Labordai Niwclear Cenedlaethol. Mae'r cysylltiadau hyn yn adeiladu ar y sylfaen eang presennol ac ategir atynt gan gydweithrediadau pwysig eraill ag Asiantaeth yr Amgylchedd, Orange, Huawei, Fujitsu, Airbus, Comtek, Fibrespeed a BT.

Ychwanegir at y partneriaethau mwy hyn gan gydweithrediadau sy'n cefnogi yr ymchwil a wnawn yng Ngogledd Cymru gyda chwmnïau sydd â diddordeb mewn bwyd a diod cynaliadwy, roboteg, iechyd y cyhoedd a gwyddor pridd ymhlith amrywiol ddisgyblaethau eraill. Mae'r ecosystem gydweithredol hon gyda busnes a diwydiant yn sicrhau bod ymchwil y Brifysgol yn cael effaith ar draws y gymuned fusnes yn rhanbarthol yn ogystal ag yn fyd-eang.

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHOLEG CAMBRIA

**Mae Prifysgol Bangor a Choleg Cambria wedi cytuno i gydweithio'n agosach yng ngogledd ddwyrain Cymru. Llofnododd y ddau sefydliad Ddatganiad o Fwriad ar y Cyd oedd yn nodi eu dyhead i gydweithio ar draws y lefelau sgiliau ac i gysylltu'r agenda sgiliau yng ngogledd ddwyrain Cymru â'r ymchwil flaenllaw y mae'r Brifysgol yn ei wneud ledled Gogledd Cymru. Er y bydd hyd a lled y cydweithredu'n eang, y bwriad yw targedu'r sectorau hynny y mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio fwyaf arnynt a chanolbwyntio ar yr angen i helpu'r gweithlu i ddysgu sgiliau newydd a datblygu sgiliau uwch mewn meysydd blaenoriaeth yng ngogledd ddwyrain Cymru megis gweithgynhyrchu, peirianneg, peirianneg meddalwedd a chefnogaeth i'r sector niwclear.**

**Trwy'r bartneriaeth hon mae'r Brifysgol yn ailddatgan ei hymrwymiad i ddarparu ar draws Gogledd Cymru gyfan, gan adeiladu llwybrau rhwng y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch a chefnogi gweithwyr a chyflogwyr wrth iddynt wynebu amgylchedd economaidd newydd ac anodd.**







# M-SPARC PRIFYSGOL BANGOR

**Mae M-SParc, sef Parc Gwyddoniaeth Prifysgol Bangor, yn cefnogi dyhead y Brifysgol i weld rhagor o gyflogadwyedd, busnesau cychwynnol a masnacheiddio ledled Gogledd Cymru. Dyma'r grym sy'n gyrru arloesedd yn y rhanbarth a'i nod yw arallgyfeirio'r economi, creu cyfleoedd gyrfa newydd a helpu busnesau i ffynnu.**

Yn 2020-21, mae M-SParc wedi sicrhau mwy na £1m mewn cyllid ar gyfer y cwmnïau sy'n denantiaid yno. Mae hefyd wedi bod 'ar daith' i gymunedau gwledig gan ddarparu ysbrydoliaeth, gofod i wneuthurwyr a gofod cydweithio, a rhaglen estyn allan. Mae wedi rhagori ar y targedau masnachol ac mae lefelau deiliadaeth oddeutu 85% gyda 35 o gwmnïau ar eu prifiant wedi eu lleoli yno, ynghyd â 'rhith-denantiaeth' sy'n hynod boblogaidd.

Mae hefyd wedi datblygu sawl cydweithrediad strategol gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Microsoft, y Ganolfan Gweithgynhyrchu Niwclear Uwch - sy'n helpu gweithgynhyrchwyr yn y Deyrnas Unedig i gystadlu a chydweithredu ar draws cadwyni cyflenwi'r sector niwclear - a Morlais, sef project ynni llanw Ynys Môn.

Mae'r Brifysgol ac M-SParc yn aelodau allweddol o grŵp o sefydliadau sy'n ceisio sicrhau Cyfleuster Hydrolig Thermol Cenedlaethol ar gyfer y rhanbarth. Os yw'r ymdrech yn llwyddo, byddai'r project, sy'n cael ei arwain gan Adran Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol y Deyrnas Unedig, yn sefydlu'r Labordy Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru. Byddai'r bwriad i ddatblygiad adeilad ynni fel rhan o Fargen Twf y Gogledd yn meithrin trawsffrwythloni a chydweithredu rhwng busnesau yn y sector adnewyddadwy a charbon isel ynghyd â'u cadwyni cyflenwi a'r byd academaidd.

Fel rhan o Barth Menter Llywodraeth Cymru a Phroject Magnet ar gyfer mewnfuddsoddi, rydym wedi gallu cynnig 20 interniaeth i fyfyrwyr, cefnogi mwy na 200 o fusnesau newydd, creu tua 50 o swyddi newydd, datblygu 14 o gydweithrediadau rhwng tenantiaid a'r Brifysgol, ac mae enillion cyfartalog y safle £5,000 yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Trwy ddenu pobl o anian entrepreneuraidd, talentau medrus, busnesau gwybodaeth-ddwys a buddsoddiad a'u cyfuno ag asedau gwyddonol, technolegol, addysgol a chymdeithasol sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau sy'n ychwanegu gwerth, rydym mewn sefyllfa dda i wella enw da Gogledd Cymru.

## MENTER TRWY DDYLUNIO

**Rhoddwyd cyfle i fyfyrwyr feithrin sgiliau newydd a ystyrir yn hanfodol gan gyflogwyr trwy raglen Menter trwy Ddylunio'r Brifysgol. Rhoddodd y cynllun 10 wythnos her ddylunio arloesol ac addysgol i fyfyrwyr a chyfle i gyflwyno eu syniadau i arweinwyr busnes.**

**Yr her oedd datblygu cynigion ar gyfer menter fwyd newydd, leol er mwyn helpu'r ymdrechion i gynnal planed iach gan annog pobl i fwyta bwyd maethlon a chreu cymuned iach. Roedd y dasg hefyd yn gofyn am farchnata'r defnydd a wneir o ficrolysiau gwyrdd, a datblygir hynny mewn gardd gymunedol gyda phobl syn gwella o anhwylderau caethiwus.**

**Elwodd y myfyrwyr entrepreneuraidd yn sylweddol o'r profiad a chafodd y tri thîm uchaf gyllid ac arweiniad arbenigol. Roedd y rhaglen yn cefnogi arloesedd dan arweiniad myfyrwyr ac yn eu hannog i ystyried datblygu busnesau newydd cyffrous yn y dyfodol.**

# TRAWSNEWIDIOL

5

P R O F I A D A U   D Y S G U

53.2293° N, -4.1309° W



Symudodd Prifysgol Bangor o'r hyn a fu'n newid cyflym tuag at ddysgu ar-lein i ddull mwy deinamig wrth i gyfnodau clo'r pandemig lacio yn 2021. Dechreuwyd chwe phroject ailafael i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i elwa o raglen addysgu a dysgu sefydliadol gadarn yng nghyd-destun y cyfyngiadau cymdeithasol a achoswyd gan COVID-19.

O fewn canllawiau'r llywodraeth, gwnaethom yn fawr o'r cyfle i fyfyrwyr fod ar y campws pan oedd hynny'n bosib a gweithio'n greadigol i drefnu teithiau maes gan gadw pellter cymdeithasol i grwpiau llai o faint, cynnal digwyddiadau rhithwir, datganiadau ac arddangosfeydd a defnyddio technoleg drawsnewidiol i leihau effeithiau'r problemau a ddaeth yn sgil y pandemig.

Mae dull dysgu cyfunol y Brifysgol wedi cynnwys dysgu ar y campws mewn sawl maes. Mae ymgymryd â dysgu diogel a pharatoi cyfleusterau dysgu cymdeithasol defnyddiol wedi bod yn bosib oherwydd y gwaith a wnaed gan staff ar draws y Brifysgol, ac yn arbennig yn yr adrannau Gwasanaethau Eiddo a Champws, y tîm Iechyd a Diogelwch a'r tîm TG.

Gellir priodoli llwyddiant sefydlu'r chwe phroject ailafael i'r ffordd y bu i gymuned y Brifysgol yn y maes academaidd, y gwasanaethau proffesiynol ac Undeb y Myfyrwyr weithio'n fedrus i ddarparu amgylchedd addysgu a dysgu gwahanol ac arloesol.

Gan adeiladu ar y cyflawniad hwn a defnyddio'r un egwyddor rwydweithio, lansiwyd wyth project sgaffaldio addysgu a dysgu ym mis Ebrill 2021. Maent wedi eu cynllunio i wella ac adeiladu ar ein hamgylchedd addysgu a dysgu, dyma hwy: cefnogi pontio i Brifysgol Bangor; dysgu digidol; asesu ac adborth; cefnogaeth a hyfforddiant adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog; dal gafael ar fyfyrwyr; arsylwi cymheiriaid; nodweddion addysgol; a llwybrau dysgu hyblyg.



## Strategaeth Addysgu a Dysgu Newydd

Hefyd yn ystod 2020-21, cyhoeddodd y Brifysgol strategaeth addysgu a dysgu newydd. Datblygwyd y strategaeth mewn ymgynghoriad â staff a myfyrwyr, a'n gweledigaeth ar gyfer 2021-2025 yw rhoi cyfle i bob myfyriwr a phob aelod staff ddatblygu eu syniadau a'u diddordebau trwy brofiadau dysgu cyfoethog a thrawsnewidiol.

Mae pum nodwedd addysgol graidd yn sail i'r profiadau dysgu hyn - her, ymholi, cymhwyso, cydweithredu a hunan-gyfeiriad, a ddarperir trwy gwricwlwm bywiog ac eang. Bydd ein cwricwlwm yn cael ei arwain gan ymchwil ac wedi ei alluogi'n ddigidol er mwyn rhoi sylw i heriau economi, iechyd a chymdeithas, a bydd yn meithrin cyfrifoldeb dinesig trwy gysylltiad â chymdeithas. Gyda'n gwreiddiau mewn cyd-destun dwyieithog, ein huchelgais yw datblygu graddedigion a phrifysgol fydd yn helpu i drawsnewid ein rhanbarth a chystadlu ar lwyfan y byd.

Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys darparu cwricwla uchelgeisiol o ran addysgeg sy'n arwyddocaol yn rhanbarthol ac yn fyd-eang, gan alluogi myfyrwyr y Brifysgol i gyfrannu'n llwyddiannus at ein marchnad raddedigion rhanbarthol a byd-eang, a chystadlu ynddi, a defnyddio technolegau arloesol i wella ein hamgylchedd dysgu digidol, gallu digidol a datblygu ein dosbarth rhithiol rhyngwladol.

Wrth i'r pandemig barhau i achosi heriau yn ystod 2020-21, mae Strategaeth Addysgu a Dysgu'r Brifysgol wedi dangos ymrwymiad amlwg i gefnogi datblygiad graddedigion Bangor, fel pobl sydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen i weithio a byw mewn ffordd sy'n diogelu lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, yn y presennol ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Rydym wedi ymateb gyda'n gilydd i heriau'r pandemig gan ddangos cryn ystwythder, gwytnwch ac ymrwymiad. Dylem fod yn falch o'r hyn rydym wedi ei gyflawni..**

**Yn ystod y pandemig, fel sector, ac fel Prifysgol, rydym wedi adfyfyrio ar ein gwir bwrpas, ac wedi sylweddoli efallai y bydd y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud heddiw fel addysgwyr yn pennu cwrs bywyd a bywoliaeth cenhedlaeth gyfan, ac mae wedi gwneud i ni ddeall bod gennym gyfrifoldeb i baratoi ein myfyrwyr at ddelio â byd mwy ansicr nag y mae llawer ohonom wedi cael profiad ohono hyd yn hyn. Darparodd hyn y sylfaen i ddatblygu strategaeth addysgu a dysgu newydd gadarn ac ystwyth ar gyfer 2021-2025."**

**Yr Athro Nichola Callow,**
*Dirprwy Is-ganghellor Addysgu a Dysgu.*

### Virtual fieldwork

Pan nad oedd yn bosib teithio i safleoedd maes, newidiwyd cynnwys yr addysgu i waith maes rhithwir. Mae staff y brifysgol wedi gwneud defnydd arloesol o amrywiaeth o feddalwedd ac adnoddau, e.e. aeth myfyrwyr sy'n astudio modiwl geoberyglon yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol ar daith maes rithwir i Ddyffryn Conwy ac arfordir gogledd Cymru i astudio problemau'n ymwneud â pherygl llifogydd.

Fel eglurodd Dr Lynda Yorke, trefnydd y modiwl: "Roedd rhaid i mi ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu â myfyrwyr a oedd yn parhau i adlewyrchu ethos gwaith maes daearyddiaeth. Meddyliais am ddull 'teithiau maes rhithiol' a'n galluogodd i fynd â myfyrwyr i safleoedd na fyddent wedi gallu ymweld â hwy fel arall. Er mwyn ail-greu ein profiadau maes rhyngweithiol arferol, defnyddiais gyfuniad o Google Earth fel y gallai myfyrwyr roi eu hunain yn yr amgylchedd, a StoryMaps i greu stori maes amlgyfrwng i weithio drwyddi yn ystod teithiau maes. Gan ddefnyddio Blackboard Collaborate, gwnaethom ail-greu'r dysgu, yr hwyl a'r brwdfrydedd sydd fel rheol yn cyd-fynd â'n teithiau maes a'i gyfuno â chasglu data mewn ffordd hollol newydd!"

53.2293° N, -4.1309° W

# TEACHING AND LEARNING SCAFFOLD PROJECTS

**Mae strategaeth y Brifysgol yn nodi ein hymrwymiad i sicrhau profiad dysgu trawsnewidiol i bob myfyriwr gan bwysleisio blaenoriaeth ar ddefnyddio dysgu hyblyg. Ym mis Ebrill 2021, bu i ni ddechrau projectau sgaffaldio i wella ein hamgylchedd addysgu a dysgu.**

## 1 Cefnogi pontio i Brifysgol Bangor
### dan arweiniad Dr Fran Garrad-Cole

Oherwydd y trafferthion a achoswyd gan y pandemig COVID-19, roeddem yn ymwybodol y byddai myfyrwyr wedi bod yn dibynnu ar gefnogaeth rhieni ac eraill a oedd yn annhebygol o fod yn bresennol yn yr un modd yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y brifysgol. Nod y project hwn oedd teilwra ein cefnogaeth i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r Brifysgol a sicrhau'r llwyddiant mwyaf posib trwy'r flwyddyn gyntaf a thu hwnt.

Yn ogystal ag edrych ar arholiadau ac asesiadau, rydym yn gwybod bod ymgeiswyr yn cyffroi wrth gael lle yn y brifysgol a bod ganddynt awydd i gymryd rhan ar ôl cael cadarnhad o'u lle. Rydym wedi creu proses gynefino fwy ryngweithiol i'r cyfnod hwn o'r enw Bod yn Barod i Fangor sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac sydd wedi ei gynllunio i gyflwyno termau, cysyniadau a gweithgareddau y cyfeirir atynt yn ystod yr Wythnos Groeso ac wedi hynny. Mae'n gwahodd myfyrwyr i wneud cysylltiadau ag aelodau eraill o gymuned y Brifysgol trwy'r ap Cyswllt Campws.

Mae cefnogaeth gynefino yn parhau trwy gydol y flwyddyn gyntaf – gan weld y flwyddyn gyntaf fel proses o bontio i'r brifysgol. Mae modiwl hunangyfeiriedig - Byddwch ar eich gorau ym Mangor - yn cynnig gwybodaeth gryno bob wythnos ac yn cyflwyno gwahanol bynciau ar ffurf hyfforddwr ffordd o fyw ar-lein neu seinfwrdd ar gyfer hunan-ddadansoddi ac adfyfyrio yn ystod y flwyddyn bwysig hon.

## 2 Datblygu ein capasiti dysgu digidol
### dan arweiniad Dr Awel Vaughan-Evans

Un o'n prif blaenoriaethau yw cyflymu ein hamgylchedd addysgu a dysgu gan ddefnyddio technoleg arloesol i wella ein capasiti digidol, trawsnewid ein hamgylchedd dysgu digidol, a datblygu ein hystafell ddosbarth rithwir ryngwladol.

Arweiniodd y pandemig at newid sydyn a digynsail o addysgu traddodiadol, ar y campws, i addysgu digidol ar-lein. Roedd y seilwaith TG rhagorol ym Mhrifysgol Bangor yn galluogi staff i ymdopi â'r newid hwn a pharhau i addysgu trwy lwyfannau ar-lein. Mae buddsoddi mewn llwyfannau dysgu rhithwir a datblygu canolfan adnoddau dysgu cyfunol wedi galluogi staff i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021.

Rydym wedi parhau i drawsnewid ein hamgylchedd dysgu digidol ac ymgorffori arloesi digidol ar draws y Brifysgol fel y gall ein graddedigion ffynnu mewn byd digidol. Ar lefel ymarferol, mae hyn wedi cynnwys popeth o helpu ysgolion academaidd i ddatblygu eu deunyddiau dysgu digidol eu hunain i sicrhau bod ein campws a'n seilwaith wedi eu hanelu at y byd digidol. Roedd hyfforddiant hefyd ar gael i staff addysgu ddatblygu eu galluoedd digidol.

## 3 Asesu ac adborth
### dan arweiniad Dr Fran Garrad-Cole

Mae'r project hirdymor hwn yn edrych ar y ffordd yr ydym yn cynnal ein hasesiadau ac yn cynnig adborth i fyfyrwyr. Y nod yw sicrhau bod asesu ar lefel rhaglen yn briodol ac yn cynyddu'r defnydd a wneir o asesiadau sy'n paratoi myfyrwyr at swyddi ar lefel graddedigion, a'r gwerth a geir ohonynt.

Cynhelir y project mewn sawl cam, dros nifer o flynyddoedd. Roedd y cam cyntaf yn 2021 yn edrych ar arholiadau'r flwyddyn gyntaf ac yn bwydo i mewn i hyfforddiant a thrafodaethau am asesiadau dilys a gor-asesu posib. Bydd yr ail gam yn cynnwys archwiliad o asesiadau ac adborth cyfredol a chanlyniadau ar lefel rhaglen, profiadau myfyrwyr o'r holiadur asesu a'r grwpiau ffocws, sesiynau hyfforddi a datblygu staff ac yn rhestru rhaglenni ysgolion.

## 4 Cefnogaeth a hyfforddiant adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog
### dan arweiniad yr Athro Enlli Thomas

Fel prifysgol sy'n falch o'i dwyieithrwydd, nod y project yw datblygu gwybodaeth a hyder staff i ddarparu addysgu Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel. Bydd diwylliant cydweithredol o gefnogaeth ar draws y sefydliad yn adeiladu ar ganolbwynt adnoddau'r Ganolfan Gwella Dysgu ac Addysgu (CELT) ac yn datblygu cynnwys pwrpasol sy'n diwallu anghenion staff darlithio, gan gynnwys staff sy'n cyflwyno cynnwys dwyieithog/cyfrwng Cymraeg a staff sy'n cyflwyno cynnwys cyfrwng Saesneg i bobl ddwyieithog Cymraeg-Saesneg.

## 5 Dal gafael ar fyfyrwyr
### dan arweiniad Dr Graham Bird

Mae'r Brifysgol eisiau sicrhau ei bod yn gwneud pob ymdrech i gefnogi myfyrwyr i aros ym Mangor a ffynnu yma. Mae'r project yn adeiladu ar waith blaenorol yn y sefydliad i sicrhau bod gennym brosesau cadarn ar waith i ddarparu trosolwg rhagorol ar ymwneud myfyrwyr a rheoli ceisiadau myfyrwyr i dynnu'n ôl.

Dechreuodd cam cyntaf y project hwn ym mis Gorffennaf 2021 ac roedd yn cynnwys optimeiddio dangosfyrddau ymgysylltu gan ddefnyddio data presenoldeb. Yn y tymor canolig, bydd y project hwn yn edrych ar ddulliau eraill o ddarparu'r Brifysgol â'r data a'r hyfforddiant angenrheidiol i wneud yn fawr o'r cyfle i ddal gafael ar fyfyrwyr rhagorol yn y brifysgol.

## 6 Arsylwi cymheiriaid
### dan arweiniad yr Athro David Perkins

Mae arsylwi cymheiriaid, lle mae aelodau staff yn cydweithio i wella a dylanwadu ar eu haddysgu, yn un ffordd y gall y brifysgol wella ansawdd yr addysgu a phrofiad dysgu myfyrwyr.

Adolygodd tîm y project ein cynllun arsylwi cymheiriaid cyfredol ac argymell ei ehangu fel y gellir defnyddio gweithgareddau addysgu a dysgu eraill y tu hwnt i ddarlithoedd yn y cnawd, e.e. adolygiad o wefan Blackboard modiwl, sesiwn ymarferol, a chadeirio pwyllgor cyswllt staff-myfyrwyr. Cryfhawyd y cynllun i gydnabod bod yr unigolyn sy'n arsylwi yr un mor bwysig â'r sawl sy'n cael ei arsylwi, a bod arsylwi gweithgaredd yn gallu cynnig cyfleoedd datblygu hefyd.

Roedd yr argymhellion eraill yn cynnwys: gweithredu strwythur cefnogi ar gyfer y cynllun, lle caiff ei adolygu ar ôl ei gwblhau, gan nodi arfer gorau a bylchau a'u bwydo i mewn i CELT, ysgolion, a Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol fel y gellir datblygu projectau gwella; a gweithredu system ar-lein addas i'r diben i leihau llwyth gwaith papur aneffeithlon.

## 7 Nodweddion addysgol
### dan arweiniad Dr Nia Young

Mae ein myfyrwyr yn ymuno â ni o lawer o wahanol gefndiroedd a llwybrau. Wrth astudio ym Mhrifysgol Bangor, rydym eisiau iddynt gael profiad sy'n drawsnewidiol yn academaidd ac yn bersonol. Mae'r project hwn yn ymwneud â diffinio'r math o feddylfryd a sgiliau rydym eisiau eu meithrin yn ein cwricwlwm ac ar draws ein hamgylchedd addysgu a dysgu. Roedd cam cyntaf y project hwn yn cynnwys cydweithio ar draws y sefydliad i gytuno ar set o rinweddau.

## 8 Llwybrau dysgu hyblyg
### dan arweiniad Dr Laura Grange

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod myfyrwyr yn dod i Fangor o gefndiroedd amrywiol - gyda gwahanol ddewisiadau o ran sut maent yn dysgu a'r hyn maent eisiau ei ddysgu. Gyda phroffiliau dysgwyr lluosog mewn golwg, mae'r project hwn yn edrych ar yr amrywiaeth o lwybrau i addysg uwch a sut y gallwn gynnig hyblygrwydd unwaith y bydd myfyrwyr yn astudio gyda ni.

Rydym yn gwybod o'n cynllun cynrychiolwyr myfyrwyr fod hyn yn rhywbeth y mae myfyrwyr ei eisiau – hyd yn oed os yw eu llwybr academaidd yn eithaf diffiniedig, maent eisiau cymaint o gyfleoedd â phosib i ehangu ar eu profiad. Efallai na fydd hyn bob amser yn arwain at gymwysterau proffesiynol ond mae'n cyfrannu at eu gwneud yn unigolion cyflawn y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Dechreuodd cam cyntaf y project hwn yn ystod 2020-21 gydag adolygiad o arferion da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan ddarparu adolygiad ar sail tystiolaeth a fframwaith o ddulliau hyblyg o gyflwyno'r cwricwlwm.

53.2293° N, -4.1309° W



## SICRHAU ANSAWDD: BARN MYFYRIWR

Cymerodd Francesca Fehlberg, sy'n astudio am radd Meistr Integredig Bioleg Môr a Sŵoleg, ran yn y broses ddilysu Sicrhau Ansawdd ar gyfer y Gyfraith.

"Gan fy mod yn fyfyriwr rhyngwladol a fagwyd yn y Swistir, rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i ddod i adnabod pobl o bob cefndir. Rwyf wedi cael profiad o wahanol ieithoedd, diwylliannau a chredoau, ac rwy'n ymwybodol iawn ein bod ni i gyd yn wahanol ac yn dod at ein hastudiaethau ar hyd gwahanol lwybrau.

Rwyf wedi dysgu nad yw'r un peth yn addas i bawb o ran asesu a strwythur y cwrs, felly rwy'n awyddus i wneud gwahaniaeth o ran cynwysoldeb ac amrywiaeth. Nid oes unrhyw ddiben cwyno am bethau, mae'n rhaid i chi ddod at y bwrdd gydag ateb a bod yn rhan o'r ateb yn hytrach na'n rhan o'r broblem - dyna fy ffordd i o feddwl erioed!

Dyna pam y penderfynais gymryd rhan weithredol yn y broses Sicrhau Ansawdd ym Mangor a gwneud cais i fod yn fyfyriwr adolygu. Rwy'n meddwl ei bod yn hollbwysig bod myfyrwyr yn cael y cyfle hwn, a chan fod y Brifysgol yn rhan mor bwysig o'n bywydau a'n gyrfa yn y dyfodol pam na ddylem gael dweud ein dweud a chyfle i godi materion posib cyn iddynt godi? Fel hyn gallwn geisio gwneud y profiad yn y brifysgol yn un gwell fyth i fyfyrwyr eraill yn y dyfodol.

Dechreuais drwy edrych drwy'r holl ddogfennau a chyrsiau yr oedd y Brifysgol yn eu cynnig. Roedd pethau oedd yn bwysig i mi adrodd yn ôl arnynt, megis peidio â chael gormod o waith, ffordd fwy modern o asesu myfyrwyr, eisiau i bopeth fod yn deg - yn enwedig yn 2020-21 gyda phopeth rydym wedi ei ddysgu am astudio trwy'r pandemig - a sicrhau bod nodau'r myfyrwyr a'r Brifysgol yn cael eu gosod yn glir.

Roedd yn awyrgylch croesawgar iawn, a phawb yn hapus i helpu. Os oedd rhaid esbonio cysyniadau, nid oedd yn broblem. Roedd gennyf dri neu bedwar o bwyntiau mawr ac eglurodd y panel eu bod yn ddefnyddiol iawn gan nad oeddent wedi meddwl amdanynt yn yr un ffordd, ac felly teimlais fy mod wedi cael fy nghlywed. Ni allaf honni fy mod yn siarad ar ran pob myfyriwr, ond gallaf wrando cymaint â phosib i gael gwybod barn pobl eraill a dweud beth rwy'n meddwl sy'n iawn."



## NYRSYS NEWYDD YN GWEITHIO AR LEOLIAD YN YSTOD Y PANDEMIG

**Daeth myfyrwyr Bangor i'r gad yn ystod y pandemig gan ymgymryd â lleoliadau mewn ysbytai a chefnogi staff y GIG. Yn eu plith, cafodd Lynda Williams ei hun yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn ac yn gweithio ar ward COVID-19 yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor ychydig ddyddiau ar ôl graddio fel nyrs. Roedd hi'n rhan o'r grŵp cyntaf i astudio gradd nyrsio ran-amser wedi ei hanelu at weithwyr cymorth sydd eisoes yn gweithio yn y GIG yng Ngogledd Cymru.**

**Roedd nyrsio yn ystod COVID-19, meddai, yn un o brofiadau mwyaf "anhygoel o anodd" ei bywyd ond hefyd ar adegau yn un o'r rhai mwyaf gwerth chweil pan oedd yn gweld cleifion yn gwella o'r firws. Meddai, "Roeddwn ar y ward Covid yn syth ar ôl cymhwyso ac roedd y bobl yno yn wael iawn. Roeddwn yn ffodus fy mod wedi cael y profiad o weithio yn yr ysbyty cyn cymhwyso fel nyrs.**

**"Ond roedd yn arbennig pan oeddech yn gweld cleifion yn gwella ac yn cerdded allan o'r ward - roedd yn gwneud i chi deimlo eich bod yn gwneud eich gwaith. Helpu pobl yw'r peth gorau, dim ond bonws yw popeth arall, a'r ffaith eich bod yn dysgu bob amser ym maes nyrsio. Mae rhywbeth newydd bob amser. Mae'n eich cadw ar flaenau eich traed fel na fyddwch byth yn meddwl eich bod yn gwybod y cwbl."**

**Roedd Lynda, o Faesgeirchen, wedi bod yn weithiwr cefnogi gofal iechyd yn yr ysbyty ers saith mlynedd pan gafodd y cyfle i gofrestru ar gwrs rhan-amser newydd a gyflwynwyd gan y Brifysgol i helpu pobl fel hi i ddatblygu eu gyrfaoedd.**

**Meddai Gill Truscott, arweinydd y cwrs, a enillodd wobr Athro/Athrawes y Flwyddyn yng ngwobrau Undeb Myfyrwyr y Brifysgol:**

**"Roedd Lynda yn rhan o'r grŵp cyntaf a astudiodd drwy gydol y pandemig Covid, ond gwnaeth pawb ddyfalbarhau a gwneud yn arbennig o dda – rwyf wedi fy synnu gan ymrwymiad ac ymroddiad pob myfyriwr ac rwyf mor falch o bob un ohonynt. Rhan o lwyddiant y rhaglen yw'r cydweithio rhwng Prifysgol Bangor, Coleg Llandrillo a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr sy'n sicrhau llwyddiant y cwrs a'r gallu i gefnogi myfyrwyr yn rhagweithiol drwy gydol y cwrs.**




## EHANGU AR RAGLENNI MEWN PYNCIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â MEDDYGAETH AC IECHYD

Bydd Prifysgol Bangor yn ehangu ar ei rhaglenni israddedig mewn pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth ac iechyd, gan ategu ei chynlluniau i sefydlu ysgol feddygol newydd ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae rhaglenni newydd mewn nyrsio trwy ddysgu o bell a dysgu gwasgaredig - gan gynnwys ffocws ar iechyd meddwl, a hylendid deintyddol - yn rhan o ein weledigaeth i gynnig ychwaneg o lwybrau i fyfyrwyr weithio yn y proffesiynau meddygol, iechyd a gofal, ynghyd ag amgylchedd cynhwysfawr ar gyfer dysgu ac addysgu dwyieithog, a chapasiti lleoliadau ledled ein cymunedau.

Mae'r rhaglenni wedi eu hariannu trwy fenter Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Llywodraeth Cymru ac maent yn dangos ein arbenigedd wrth ddarparu addysg o ansawdd uchel sy'n sicrhau cynaliadwyedd o fewn gweithlu'r GIG yng Nghymru.



53.2293° N, -4.1309° W



# 6 PROFIAD

## RHAGOROL I FYFYRWYR

53.2270° N, 4.1298° W

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu profiad personol i fyfyrwyr sy'n golygu rhoi cefnogaeth i bob myfyriwr allu derbyn cyfleoedd, datblygu a gwireddu eu huchelgais. Mae myfyrwyr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn y Brifysgol, gan lunio eu profiad myfyrwyr trwy ein pwyllgorau a'n dull o ddatblygu strategol yn ogystal â rhedeg y Brifysgol o ddydd i ddydd.

Wrth wynebu heriau addysgu ac astudio yn ystod pandemig, ymatebodd staff a myfyrwyr gydag ystwythder, gwytnwch ac ymrwymiad. Addasodd y Brifysgol yn gyflym i unrhyw sefyllfa benodol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi ac yn dal i allu elwa o'r addysgu, dysgu, gweithgareddau allgyrsiol a'r gofal bugeiliol gorau.

Yng ngwobrau WhatUni Student Choice 2020, daeth y Brifysgol yn ail trwy'r Deyrnas Unedig yng nghategori cymdeithasau a chwaraeon. Daeth UMCB yn drydydd ac yn chweched yn nhablau cynghrair Student Crowd yn y categori Prifysgolion Gorau o ran Undeb Myfyrwyr a'r categori Prifysgolion Gorau o ran Clybiau a Chymdeithasau. Dyma'r unig wobrau a roddir i brifysgolion yn y Deyrnas Unedig yn llwyr ar sail adolygiadau gan fyfyrwyr. Mae'r gwobrau hyn yn tystio i waith caled swyddogion sabothol a chynrychiolwyr myfyrwyr y Brifysgol yn creu profiad cadarnhaol i fyfyrwyr gan ddod â'r gymuned ynghyd yn ystod cyfnod anodd y pandemig.

## Rhaglen gyflogadwyedd i fyfyrwyr ag awtistiaeth:

Rhaglen gyflogadwyedd i fyfyrwyr ag awtistiaeth: Mae Prifysgol Bangor yn un o ddim ond 17 o brifysgolion ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd wedi ymuno â rhwydwaith Employ Autism Higher Education, sef rhaglen gyflogadwyedd addysg uwch arloesol, sydd â'r nod o ddatgloi potensial myfyrwyr a graddedigion ag awtistiaeth a'u helpu i gael gwaith llawn amser.

Cynhelir y rhaglen genedlaethol trwy Santander Universities UK ac Ambitious about Autism, a bydd yn galluogi myfyrwyr a graddedigion ag awtistiaeth sy'n astudio ym Mhrifysgol Bangor i gael mynediad at interniaethau cyflogedig a chefnogaeth a chyngor pwrpasol ynglŷn â gyrfaoedd.

Graddedigion ag awtistiaeth sydd leiaf tebygol o blith myfyrwyr anabl i gael swyddi ar ôl gorffen eu hastudiaethau. Amcan y rhaglen newydd hon yw sicrhau bod rhagor o fyfyrwyr a graddedigion ag awtistiaeth yn cael mynediad at brofiad cyflogaeth ystyrlon.

## Cyfleoedd i wneud interniaeth gyflogedig ym Mangor:

Cynhaliwyd Cynllun Interniaeth i Israddedigion y Brifysgol unwaith eto yn 2020/21. Mae'r cynllun yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr israddedig gael profiad gwaith cyflogedig ar lefel graddedigion yn ysgolion academaidd ac adrannau gwasanaeth y Brifysgol.

Gall natur y swyddi amrywio o farchnata, cynllunio gwefan neu brojectau ennyn diddordeb myfyrwyr, i roi cefnogaeth gyda phrojectau ymchwil, gwaith maes neu reoli data. Gwahoddir pob myfyriwr israddedig i wneud cais, rhoddir cefnogaeth lawn trwy gydol y prosesau ymgeisio a chyfweld.

## COVID – gostyngiad rhent i fyfyrwyr:

O ganlyniad i effaith y pandemig byd-eang, cynigiodd tîm Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol, gan weithio gydag Undeb y Myfyrwyr, ostyngiad o 10% i fyfyrwyr ar eu ffioedd Neuaddau Preswyl am y flwyddyn academaidd.

Roedd yr hyn sy'n cyfateb i bedair wythnos o rent, neu fwy yn dibynnu ar hyd y contract, ac roedd ar gael i bob myfyriwr yn y Neuaddau Preswyl ym Mangor a Wrecsam. Cymhwyswyd y gostyngiad yn awtomatig i'r holl breswylwyr a oedd â chontractau o 40 wythnos neu fwy.

## Cronfa caledi digidol:

Yn 2020/21 gwnaeth dros 350 o fyfyrwyr elwa o'r gronfa caledi digidol a oedd yn cynnig y cyfle i brynu offer digidol neu ddarpariaeth rhyngrwyd i gael mynediad i'r dysgu ar-lein a ddarperid gan y Brifysgol.

Roedd myfyrwyr ag incwm cartref o dan £40,000 a allai ddangos eu hangen am y gronfa hon yn gymwys i wneud cais am swm o hyd at £500.

Gwnaeth y gronfa gefnogi'r myfyrwyr hyn i brynu gliniaduron, cyfrifiaduron personol, tabledi, uwchraddio cysylltiad rhyngrwyd, clustffonau a sgriniau cyfrifiadur.



## CRONFA BANGOR

Cronfa Bangor
The Bangor Fund

**Ers ei sefydlu yn 1884, mae gan Brifysgol Bangor hanes balch o ddyngarwch. Nodwedd bwysig o sefydlu'r Brifysgol oedd y cyfraniadau gwirfoddol a wnaed gan ffermwyr a chwarelwyr lleol o'u cyflogau wythnosol. Mae'r traddodiad hwn o roi yn parhau hyd heddiw ac mae miloedd o gyn-fyfyrwyr yn cyfrannu at Gronfa Bangor sy'n cefnogi myfyrwyr heddiw.**

**Prif bwrpas Cronfa Bangor yw galluogi'r Brifysgol i gyfoethogi a rhoi elfennau ychwanegol i'r profiad a gaiff y myfyrwyr. Mae'r gronfa fel rheol yn rhoi cefnogaeth eang i fyfyrwyr, gan gynnwys offer, bwrsariaethau teithio ac offer chwaraeon.**

**Roedd y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig yn golygu ei bod hi'n anodd gwneud yr alldaliadau arferol yn ystod y flwyddyn o roddion hael gan ein cyn-fyfyrwyr - cyfanswm o £86,500 yn 2020-21.**

**Penderfynodd y Brifysgol ddefnyddio'r her hon fel cyfle i ariannu un fenter flaenllaw a chreu cyfres drawsnewidiol o ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr PhD eithriadol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gymuned Prifysgol Bangor.**

**Bydd Ysgoloriaethau Cronfa Cyn-fyfyrwyr Bangor yn wobrau arbennig i nodi blwyddyn heriol ac arbennig.**

# SAFBWYNTIAU MYFYRWYR

**Mae Undeb Bangor, sef undeb y myfyrwyr, wedi cael blwyddyn brysur ond heriol yn ystod 2020-21 gyda llawer iawn o weithgaredd a gwaith wedi ei gyflawni gan ein myfyrwyr a thimau staff. Er ein bod wedi wynebu heriau oherwydd y pandemig ein blaenoriaeth oedd cefnogi myfyrwyr, eu cynrychioli a chynnig cyfleoedd iddynt yn ystod y cyfnod anodd hwn.**

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Brifysgol i sicrhau bod buddiannau ein myfyrwyr wedi'u cynrychioli'n effeithiol ac mae ein hymateb i COVID-19 yn enghraifft o'n dull gweithredu mewn partneriaeth a'n perthynas waith agos. Gwnaethom lwyddo i drafod ad-daliadau rhent i fyfyrwyr mewn neuaddau preswyl a Pholisi Rhwyd Diogelwch a oedd yn cynnig haen o ddiogelwch i fyfyrwyr er mwyn lliniaru effaith COVID-19. Cynigiwyd mentrau lles hefyd i fyfyrwyr trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) gan gynnwys Hyfforddiant Gwytnwch Emosiynol, Gweithdai Lles, a dosbarthiadau coginio rhithiol.

Gwnaethom gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Strategaeth 2030 ac is-strategaethau'r Brifysgol. Cyfrannodd Undeb y Myfyrwyr hefyd at ddatblygiadau Addysgu a Dysgu a chyflwyno adroddiadau yn cynnig adborth ar brofiad myfyrwyr yn ystod y pandemig. Roedd projectau partneriaeth eraill yn cynnwys mentrau a ariannwyd gan HEFCW ar wella cefnogaeth iechyd meddwl a lles i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg, gwella polisïau ac arferion diogelu a hyrwyddo mentrau urddas mislif. Mae'r gwaith partneriaeth a welsom yn ystod y flwyddyn yn dangos mantais undeb myfyrwyr annibynnol a chryf yn gweithio ar y cyd â'r Brifysgol i gynrychioli buddiannau pob myfyriwr.

Datblygodd Undeb y Myfyrwyr Strategaeth newydd ar gyfer 2021-24 a fydd yn ein helpu i ddarparu'r profiad myfyrwyr gorau posibl i'n myfyrwyr amrywiol.

Fel llywydd Undeb y Myfyrwyr a llywydd UMCB (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor) rydym yn aelodau o Gyngor y Brifysgol ac mae swyddogion sabothol yn aelodau o holl grwpiau strategaeth y Brifysgol. Rydym wedi bod yn falch o gyfrannu at lawer o fentrau yn ystod y flwyddyn ac rydym hefyd wedi cynnal sesiynau holi ac ateb gydag aelodau o Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol.

Cynhaliwyd ein seremoni wobrwyo flynyddol ar-lein ac mae'r gwobrau hyn yn cydnabod llwyddiannau a chyfraniadau eithriadol ein myfyrwyr ac yn dathlu eu gwaith caled ac ymroddiad. Gwnaethom hefyd gydnabod addysgu, cyfraniadau a chefnogaeth ragorol gan staff ledled y Brifysgol.

Rydym wedi derbyn y Wobr Rhagoriaeth Effaith Werdd unwaith eto am ein gwaith a'n cynlluniau cynaliadwyedd a chawsom y sgôr uchaf gan y Cenhedloedd Unedig sy'n dangos sut rydym yn parhau i arwain gyda chynlluniau cynaliadwyedd.

Bydd heriau newydd a gwahanol i'r myfyrwyr yn y flwyddyn academaidd nesaf, ond mae ymrwymiad i weithio ar y cyd gan gydnabod rhan allweddol Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu fel corff sy'n cynrychioli'r myfyrwyr yn golygu y gallwn wynebu'r heriau yn hyderus ein bod yn gallu darparu profiad myfyrwyr unigryw i'n haelodau.

**James Avison,** *Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor* a **Mabon Dafydd,** *Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor.*



53.2270° N, 4.1298° W


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021



# PRIFYSGOL GYNALIADWY



Nod Prifysgol Bangor yw bod yn brifysgol y bydd y rhai sydd am wneud y ddaear yn blaned fwy cynaliadwy yn ei dewis. Rydym eisiau i Brifysgol Bangor fod yn gyfystyr â chynaliadwyedd. Gall yr effaith a gawn drwy ein hymchwil, ein myfyrwyr, ein prosesau a'n dulliau ymgysylltu helpu i arwain y ffordd at fyd gwirioneddol gynaliadwy.

Mae'n hymrwymiadau yn cefnogi dyheadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a 17 Nod Datblygiad Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. O ymchwil dylanwadol i gynnwys arloesol yn y cwricwlwm ac o iechyd a lles ein staff i fentrau 'gwyrdd' megis ailgylchu, mae pob agwedd ar gynaliadwyedd yn hollbwysig i'r sefydliad.

Mae Prifysgol Bangor eisoes wedi cael ei chydnabod â gwobrau amrywiol am ei hymrwymiad i yn cynnwys bod y brifysgol orau yng Nghymru a'r 14eg yn y Deyrnas Unedig) yn Sgôr Effaith y Times Higher Education.

Yn 2020-21 sicrhaodd y Brifysgol y bydd ein holl ymchwil yn cwmpasu elfennau o gynaliadwyedd, tra bydd cynaliadwyedd yn rhan o gwricwlwm pob myfyriwr israddedig sy'n dechrau ym Mhrifysgol Bangor.

Rydym ar flaen y gad o ran mynd i'r afael â heriau byd-eang allweddol trwy ymchwil i faterion sy'n cynnwys newid yn yr hinsawdd, cadwraeth ac ecoleg, cynhyrchu pŵer a defnyddio ynni, diwylliannau lleol cynaliadwy, cynhyrchu bwyd a diogelwch dŵr, colli bioamrywiaeth a llygredd. Mae ein hymchwil yn cyfrannu hefyd at heriau cynaliadwyedd yn nes adref, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau yng Ngogledd Cymru i helpu i wella ansawdd ein hamgylchedd a bywydau pobl.

Mae'n huchelgeisiau yn seiliedig ar dystiolaeth amlddisgyblaethol gadarn, yn tynnu oddi ar arbenigedd academaidd ac arbenigedd sylweddol arall y Brifysgol, ar draws pob agwedd ar gynaliadwyedd. Mae gwybodaeth yr arbenigwyr hyn eisoes yn cael ei chyhoeddi mewn cyfnodolion ac adroddiadau gwyddonol, ac mae aelodau staff unigol ac adrannau eisoes yn ymgorffori gweithredoedd cadarnhaol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd ledled y Brifysgol.

Yn ogystal â sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael sylw penodol fel rhan o brosesau strategol a chynllunio busnes y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr cynaliadwyedd ac yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr i hyrwyddo cynaliadwyedd ymhellach ar gyfer y myfyrwyr.

Rydym wedi ymrwymo i wella cynaliadwyedd ein campws trwy amrywiaeth o bolisïau penodol sy'n rhoi sylw i deithio, gwastraff ac ailgylchu, ynni a charbon, adeiladu, bioamrywiaeth, caffael bwyd o ffynonellau cynaliadwy a bod yn brifysgol Masnach Deg. Byddwn yn neilltuo 30% o'n campws i helpu bywyd gwyllt, yn unol ag ymgyrch '30 wrth 30' yr Ymddiriedolaeth Natur ac yn ymuno â sefydliadau eraill i gytuno i argymhellion perthnasol o Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCC) a chyfarfodydd Cyngor y Partïon. (COP).

Datblygwyd Strategaeth Gynaliadwyedd yn haf 2021, ffurfiwyd pwyllgor cynaliadwyedd ymhlith y myfyrwyr a phenododd y Brifysgol Ddirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol newydd i arwain ar gynaliadwyedd ar draws y sefydliad. Ein nod cyffredinol yw bod cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori i'r fath raddau ym Mhrifysgol Bangor nes yn syml, dyna'r 'ffordd rydym ni'n gwneud pethau yma'.

53.2293° N, -4.1309° W



AMGYLCHEDD DWYIEITHOG

# LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

8

Mae Prifysgol Bangor wedi ei lleoli yng nghanol un o'r cymunedau mwyaf llewyrchus o ran y Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n bodolaeth ac yn rhan greiddiol o hunaniaeth ein cymuned.

Trwy ein hymrwymiad parhaus i'r Gymraeg ac i ddwyieithrwydd, mae gan y Brifysgol gyfraniad pwysig i'w wneud o ran twf y Gymraeg yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd, ac mae ganddi gyfle euraidd i gyfrannu at ymdrech y Llywodraeth i annog a chefnogi unigolion sy'n barod i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Mae 71% o weithlu'r Brifysgol yn siarad Cymraeg ac mae gan bron i chwarter ein myfyrwyr sgiliau Cymraeg.

Mae ein strategaeth iaith Gymraeg, a fabwysiadwyd yn 2021, yn gwella ac yn cryfhau ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg ar draws ein holl weithgareddau addysgu, ymchwil a Gwasanaethau Proffesiynol craidd, gan sicrhau bod y sefydliad yn arwain y sector addysg uwch o ran darpariaeth Gymraeg ac fel eiriolwr dros ddwyieithrwydd.

Ein huchelgais yw i'r Gymraeg gael lle canolog ym mhob agwedd ar waith y Brifysgol, ac y gall staff a myfyrwyr ddewis manteisio ar ddysgu a gweithio mewn amgylchedd Cymraeg a dwyieithog, a mwynhau'r cyfle hwnnw.

**Mae gan y Brifysgol chwe amcan allweddol yn sail i'w strategaeth o ran y Gymraeg:**

**Ethos:** bod yn Brifysgol wirioneddol ddwyieithog sy'n gosod y Gymraeg yng nghanol pob agwedd ar ei gwaith.

**Marchnata a Recriwtio:** cael ein cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ein harloesedd o ran y Gymraeg a dwyieithrwydd, fel dewis cyntaf i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ac am arwain ar ddyfnder, ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg.

**Addysgu a Dysgu:** bod yn fan lle mae pob myfyriwr yn cael y cyfle i astudio a mwynhau ystod o gyfleoedd eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ymchwil:** cael ein cydnabod fel arweinwyr wrth gynnal ymchwil sy'n arwain y byd ar agweddau ar y Gymraeg a dwyieithrwydd, gan blethu ein hagenda ymchwil â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n ymwneud â thrawsnewid cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

**Profiad Myfyrwyr:** cynnig profiad Cymraeg eithriadol ac sy'n arwain y sector i'n myfyrwyr.

**Gweithio gyda'r gymuned:** gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allanol a'n cymunedau lleol i ddatblygu, gwella a chefnogi mentrau iaith Gymraeg.

Yn ystod 2020-21 addasodd y Brifysgol yn gyflym i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael yn rhwydd er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig. Roedd gwersi Cymraeg ar gael ar-lein a chynigiwyd cwrs hunan-ddysgu newydd. Sefydlwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar-lein ar gyfer cyfarfodydd mewnol a chyflwyniadau myfyrwyr a lansiwyd Trawsgrifiwr Ar-lein – sef gwefan sy'n helpu i greu isdeitlau a thrawsgrifiadau o ffeiliau sain a fideo cyfrwng Cymraeg.

Gan weithio ochr yn ochr â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) derbyniodd 133 o fyfyrwyr Bangor – y nifer uchaf erioed – ysgoloriaeth cymhelliant yn 2020-21. Cynigir yr ysgoloriaeth i fyfyrwyr sy'n bwriadu astudio o leiaf 33% o'u cwrs gradd mewn unrhyw bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd trwy'r Coleg Cymraeg, llwyddodd 112 o fyfyrwyr i gwblhau'r Dystysgrif Sgiliau Iaith, cymhwyster a ddatblygwyd i alluogi myfyrwyr prifysgol sy'n astudio yng Nghymru i ennill cymhwyster achredig gan CBAC, corff dyfarnu mwyaf y wlad o gymwysterau dwyieithog. Mae hyn yn dystiolaeth o'u sgiliau iaith a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae llawer o gyflogwyr wedi'i ganmol.

53.2207° N, 4.1637° W



9

53.2293° N, -4.1309° W



# YSTAD LEWYRCHUS

Trwy gydol blwyddyn heriol a achoswyd gan y pandemig, parhaodd tîm Gwasanaethau Campws y brifysgol i reoli cyfleusterau, cefnogi'r gwasanaethau brys i ymateb i effeithiau lleol COVID-19 a thrawsnewid a pharatoi'r campws cyn i staff a myfyrwyr ddychwelyd ar ddiwedd cyfnodau clo.

Ar yr un pryd, roedd staff, myfyrwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â datblygu gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer ein hystad. Bydd y weledigaeth hirdymor hon yn canolbwyntio ar ddathlu treftadaeth y Brifysgol, gan ddangos uchelgais, sefydlu amgylchedd cynaliadwy a diogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a hyrwyddo ymdeimlad o le, hunaniaeth a balchder.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys rhywfaint o waith cyfuno er mwyn lleihau costau a risgiau ariannol a gwella'r defnydd o adeiladau yn yr amgylchedd gwaith ar ôl y pandemig. Fel rhan o'r gweithgaredd hwn mae'r Brifysgol yn anelu at symud 'canol disgyrchiant' campws Bangor yn nes at ganol y ddinas, gan sicrhau manteision i'r economi leol.

### Ar y campws yn ystod y pandemig

Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith i sicrhau bod ein campws yn ddiogel i fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr yn ystod y pandemig.

### Ysbyty Enfys:

Cafodd Canolfan Brailsford Prifysgol Bangor ei throi'n ysbyty dros dro i ddarparu capasiti ychwanegol i'r GIG yn 2020. Cafodd ei defnyddio yn ddiweddarach fel canolfan frechu torfol i gefnogi gweithrediad cyflym y rhaglen frechu COVID-19 a rhoddwyd dros 85,000 o frechiadau yn y ganolfan. Dechreuodd y gwaith o ddatgomisiynu'r ysbyty yn yr haf yn 2021.

### Awyru:

Asesodd y tîm gannoedd o systemau ac unedau awyru mecanyddol ledled yr ystad i werthuso eu haddasrwydd, gan wneud addasiadau, lle bo angen, i gynyddu llif yr aer a sicrhau bod digon o awyru i ganiatáu capasiti llawn.

### Glanhau:

Cafodd trefniadau glanhau eu dwysau a rhoddwyd mwy o bwyslais ar brif fannau cyffwrdd yr ardaloedd cymunedol. Darparwyd deunyddiau glanhau addas wrth bob darllenfa ac roeddent ar gael i bawb er mwyn glanhau swyddfeydd.

### Cefnogaeth arlwyo i fyfyrwyr:

Trwy gydol y pandemig mae tîm arlwyo'r Brifysgol wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i fyfyrwyr ar y campws. Agorodd sawl lle bwyd yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ac roedd siopau ar safle Ffriddoedd a safle'r Santes Fair yn cynnig danfon neges am ddim i fyfyrwyr yn byw yn y neuaddau preswyl. Yn ogystal, danfonodd y tîm brydau bwyd am ddim i fyfyrwyr a oedd yn hunan-ynysu.

### Pecynnau Gofal i Fyfyrwyr:

Mewn ymgyrch i godi calon myfyrwyr oedd yn byw yn neuaddau preswyl y Brifysgol yn ystod y pandemig, dosbarthwyd 1,200 o becynnau'n llawn o nwyddau defnyddiol cyn gwyliau'r Pasg yn 2021. Lle'r oedd modd, defnyddiwyd cyflenwyr a chynnyrch o Gymru, gan sicrhau bod y Brifysgol yn cefnogi busnesau lleol. Bu'n bosib cynnig y pecynnau gofal trwy gyfrwng cyllid a gyfrannwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi myfyrwyr yn ystod y pandemig.

**"Mae cymuned y Brifysgol wedi talu teyrnged i'n tîm Gwasanaethau Campws am eu hymdrechion aruthrol, eu hyblygrwydd, eu gwybodaeth broffesiynol, a'u hymdrech i sicrhau amgylchedd sy'n ddiogel yn erbyn Covid.**

**"Yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i ni ddygymod â newid sylweddol ar lefel broffesiynol a chymdeithasol. Bu i ni wynebu cyfres o heriau a daeth ein gwytnwch unigol a chyfunol i'r amlwg. Beth bynnag fydd yn ein wynebu yn y blynyddoedd i ddod, rwy'n credu ein bod yn dychwelyd o'r pandemig yn gryfach ac wedi ein harfogi'n well at y dyfodol yn dilyn cyfnod hir o ansicrwydd."**

**Lars Wiegand,**
*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws*

# CYLLID CYFALAF HEFCW

**Yn ystod cyfnod hir o ansicrwydd pan oedd yn anodd iawn sicrhau cyllid cyfalaf, mae cefnogaeth barhaus corff cyllido addysg uwch Cymru, HEFCW, wedi bod yn hanfodol i'n galluogi i gyflawni projectau cyfalaf allweddol. Yn ystod 2020-21, cyflawnodd y Brifysgol amrywiaeth o brojectau gyda'r nod o wella profiad myfyrwyr, datblygu ein gwasanaethau digidol a galluogi camau gweithredu i leihau allyriadau carbon.**

Roedd y rhain yn cynnwys archwiliad ynni a dadansoddiad bylchau yn nodi map ffordd tuag at garbon sero net; darparu a gosod wrinalau di-ddŵr a ffynhonnau dŵr yfed; ailosod gwydr yn nhai gwydr Gerddi Botaneg Treborth; uwchraddio seilwaith boeleri; gosod cyfleusterau campfa awyr agored ar draws yr ystad; llochesi beiciau newydd y gellir eu cloi; canolfan weithgareddau clybiau a chymdeithasau newydd arloesol Undeb y Myfyrwyr ar Safle Ffriddoedd; gosod wal berfformio ddigidol yn adeilad Pontio; a phroject gwytnwch seilwaith digidol.

Roedd y mentrau newydd eraill yn cynnwys:

### Treborth:

Costiodd y gwaith o osod wyneb newydd ar y trac chwaraeon yn Nhreborth £320,000 a chafwyd cyllid gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac ariannodd Sefydliad Confucius y Brifysgol ddatblygiad Gardd Tsieineaidd a Gardd Feddyginiaethol Gymreig.

### Stiwdios Hygyrch Adeilad Borth:

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Brifysgol i sicrhau ystad gynhwysol a hygyrch, dyluniwyd ac adeiladwyd dwy stiwdio hygyrch newydd yn Adeilad Borth ar Safle Ffriddoedd.

### Cronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru:

Er mwyn datblygu'r Brifysgol ymhellach fel sefydliad sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon defnyddiwyd cyllid i wella'r cyfleusterau compostio yn Nhreborth gan ddefnyddio hen drawstiau rheilffordd a deunydd sefydlogi tir plastig wedi ei ailgylchu. Gosodwyd 30 o finiau sbwriel cryf, hawdd eu defnyddio, wedi eu lled-wahanu ac wedi eu gwneud o blastig 100% wedi ei ailgylchu, a phrynwyd cerbydau trydan newydd fel rhan o ymgyrch y brifysgol i ddod yn sefydliad sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

### Rhandiroedd dan arweiniad myfyrwyr:

Mae garddio yn ein helpu i gadw'n heini, cysylltu ag eraill, mwynhau bod yn rhan o natur, ac mae'n caniatáu i ni ymhyfrydu mewn lliw, arogl, bywyd gwyllt a harddwch. Mae creu mannau tyfu dan arweiniad myfyrwyr, gan gynnwys gwelyau rhandir hygyrch, yn annog myfyrwyr i dreulio amser yn yr awyr agored, dysgu sgiliau newydd, cael ymdeimlad o gyflawniad o dyfu cynnyrch, a meithrin ymdeimlad o gymuned. Un nod yw tyfu a chynaeafu cynnyrch y gall tîm arlwyo'r brifysgol ei ddefnyddio mewn bwydlenni tymhorol. Mae'r dull cylchol hwn o hau, tyfu a bwyta yn sicrhau bod y rhandiroedd yn cyfrannu'n barhaus at iechyd a maethiant myfyrwyr a staff.







# CELFYDDYDAU I BAWB

**Mae Pontio, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi'r Brifysgol yn cynnig cyfuniad unigryw o'r celfyddydau, diwylliant, arloesi, addysg a chymuned.**

**"Yn bwysicach na dim", medd Cyfarwyddwr y Ganolfan, Osian Gwynn "mae Pontio yn ychwanegu'n sylweddol at y cyfleusterau sydd i'w cael ym Mangor a'r cyffiniau er budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y Brifysgol a'r gymuned ehangach. Wrth wneud hynny, mae Pontio yn gwireddu gweledigaeth yr enw a roddwyd i'r ganolfan trwy gynnig pont rhwng y Brifysgol a chymuned Gogledd Cymru."**

**Cyn y pandemig roedd Pontio yn denu tua 80,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ond yn sgil effaith sylweddol y pandemig ar y ddarpariaeth gelfyddydol ym mhob cwr o'r wlad newidiodd y ganolfan ei gweithgareddau i gynnig darpariaeth amgen.**

**Ymhlith y gweithgareddau bu gŵyl awyr agored yn ardal loriau'r adeilad yn ystod yr haf. Llwyddodd y cyfuniad o berfformiadau byw a gweithdai, ym meysydd cerddoriaeth, dawns a theatr, i ddenu cannoedd o ymwelwyr, a chafodd perfformiad o Faust Goethe ei ffrydio'n fyw i gynulleidfa rithiol o 500 o fynychwyr. Roedd y cynhyrchiad yn cynnwys 15 o bobl ifanc o'r gymuned gan gynnwys myfyrwyr Bangor nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o actio.**

**Ffocws project arall, a wnaed ar y cyd â chwmni theatr Taking Flight, Theatrau Rhondda Cynon Taf, Theatrau Sir Gaerfyrddin a Chelfyddydau Anabledd Cymru, oedd y gymuned anabl, sef cymuned y cafodd cyfyngiadau'r pandemig yn 2020 effaith fawr arni, gyda llawer o unigolion ac artistiaid yn gorfod hunan-ynysu am gyfnodau hir. Llwyddodd y project i atgyfnerthu holl ethos Pontio, sy'n sicrhau fod mynediad a hygyrchedd yn rhan ganolog o bopeth a wnawn.**

**Mae Pontio hefyd yn rhan o Cartref a Chynefin, partneriaeth rhwng y tair prifysgol yng Nghymru sydd â chanolfan i'r celfyddydau – Bangor, Aberystwyth ac Abertawe – a'u Hundebau Myfyrwyr. Mae'r fenter yn galluogi artistiaid proffesiynol, myfyrwyr a grwpiau cymunedol i gydweithio â'i gilydd. Yn 2020-21 roedd yn cynnig cyflogaeth i artistiaid llawrydd gan gryfhau cyflogadwyedd a gwytnwch myfyrwyr a rhoi budd i grwpiau cymunedol a chreu partneriaethau parhaol rhwng y Brifysgol a'r gymuned ehangach.**

**Cynhaliwyd Dance for Parkinson's yn Pontio hefyd, sef partneriaeth gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru ac English National Ballet sy'n cynnig gweithdai dawns i bobl sy'n byw gyda chlefyd Parkinson a'u teuluoedd. Trwy gynllun peilot hynod lwyddiannus, roedd modd i'r cyfranogwyr ymwneud ag artistiaid dawns ac adran Seicoleg y Brifysgol.**

**Defnyddiwyd Theatr Bryn Terfel a'r Stiwdio yn Pontio hefyd i gynnal digwyddiadau ffrwd fyw megis comedi, gigs cerddorol, elfennau o'r Eisteddfod Genedlaethol, ac mae cwmnïau cynhyrchu teledu megis Orchard, Cwmni Da ac Antena wedi bod yn eu defnyddio.**



# EIN POBL

10

## Bydd ein llwyddiant wrth gyflawni Strategaeth 2030 y Brifysgol yn effeithiol yn dibynnu ar ein staff.

Datblygwyd Strategaeth Pobl a Thalent yn 2021 i greu amgylchedd sy'n galluogi ein staff i ffynnu ac i gyflawni eu potensial. Cafodd elfennau o'r strategaeth hon eu seilio ar ganfyddiadau arolwg staff y Brifysgol yn 2020.

Mae'r strategaeth yn cydgysylltu ar draws cynlluniau strategol Addysgu a Dysgu, Ymchwil a'r Gymraeg a Dwyieithrwydd. Mae hefyd yn cysylltu â'r strategaeth Ystadau, y Cynllun Cydraddoldeb, y Strategaeth Iechyd a Lles, y Concordat Ymchwil a chynllun gweithredu Athena SWAN.

Rydym wedi ymrwymo i groesawu a chefnogi diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd ac ymddygiad sy'n golygu hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a diwylliant sy'n dathlu lles unigolion.

**Mae'r strategaeth yn amlinellu pum maes blaenoriaeth:**

### 1 Galluogi talent a pherfformiad uchel:

Mae arnom eisiau sbarduno diwylliant o berfformiad uchel lle caiff datblygiad unigol a dyheadau gyrfaol eu cefnogi a byddwn yn blaenoriaethu ymdrechion i ddenu a datblygu unigolion a all wneud gwahaniaeth arwyddocaol i berfformiad y sefydliad.

### 2 Gwobrwyo a chydnabod:

Rydym yn cynnig mecanweithiau gwobrwyo a chydnabod hyblyg, cynaliadwy, teg a thryloyw a byddwn yn gwobrwyo rhagoriaeth mewn perfformiad ac ymrwymiad i'r gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Brifysgol.

### 3 Arweinyddiaeth:

Bydd y Brifysgol yn datblygu a chefnogi twf arweinyddiaeth a rheolaeth drawsnewidiol.

### 4 Amrywiaeth a chynwysoldeb:

Mae hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chynwysoldeb yn y gweithle yn ymwneud â gwerthfawrogi pawb fel unigolion a dylai staff deimlo eu bod yn gallu cymryd rhan a chyrraedd eu potensial.

### 5 Iechyd, lles a llwyth gwaith:

Byddwn yn rhoi iechyd a lles wrth galon y profiad o weithio yn y Brifysgol ac yn annog ac ysbrydoli'r holl staff i gymryd cyfrifoldeb dros eu lles, a gofal drosto.

**Mae dyfarniadau Athena Swan y Brifysgol yn dangos ymrwymiad parhaus i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac amrywiaeth, cynrychiolaeth, dilyniant a llwyddiant i bawb.**

**I gydnabod hyn, mae gennym ddyfarniad Efydd fel sefydliad ac mae gan y rhan fwyaf o Ysgolion academaidd bellach ddyfarniad Efydd ar lefel adrannol. Yn ystod 2020-21, cafodd tair Ysgol arall y dyfarniad hwnnw - yr Ysgol Gwyddorau Naturiol, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer - gan ddod â'r cyfanswm i saith gwobr Efydd ar lefel adrannol.**

**Fel rhan o ymrwymiad ehangach y Brifysgol i gefnogi mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ystod 2020-21 dyfarnwyd tair ysgoloriaeth Bangor Gynhwysol i gefnogi myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau gan sicrhau bod llais a phrofiad y myfyrwyr yn rhan o'n hagenda cydraddoldeb ac amrywiaeth ac Athena Swan. Rydym hefyd wedi denu cannoedd o staff a myfyrwyr i nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Balchder, mis Hanes Pobl Dduon, ac wedi nodi Diwrnod Cofio'r Holocost a Diwrnod Aids y Byd.**

**Mae 100 o aelodau staff y Brifysgol sydd mewn swyddi arwain a rheoli wedi gwneud hyfforddiant i-act Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, sef rhaglen achrededig ar sail tystiolaeth i ddeall a rheoli materion iechyd meddwl a lles yn y gweithle. Cafodd cymhellwyr llesiant eu cyflwyno hefyd i wella rhwydwaith presennol y Brifysgol o gymhellwyr.**

**Mae lansio'r rhaglen Arweinyddiaeth Ymchwil mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth yn galluogi'r Brifysgol i dynnu ar arbenigedd ac arweinyddiaeth o'r ddau sefydliad ac adeiladu a meithrin ymgysylltiad a gwaith traws-sefydliadol.**



## IECHYD A LLES

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i greu amgylchedd gweithio a dysgu iach i staff a myfyrwyr a chymuned ehangach y brifysgol. Mae ein strategaeth Iechyd a Lles, a ddatblygwyd yn 2020-21, yn canolbwyntio ar greu diwylliant lle gall staff a myfyrwyr siarad yn agored am iechyd a lles. Rydym yn annog aelodau o gymuned y Brifysgol i gynnal ffordd iach o fyw gyda ffocws ar atal a lleihau afiechyd. Rydym hefyd yn cyfrannu at ysgogi newid cymdeithasol trwy brofi a lledaenu ymyriadau sy'n seiliedig ar ymchwil er budd y gymuned ehangach.

Wrth greu'r amgylchedd hwnnw, mae'r brifysgol yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod staff a myfyrwyr yn gweithio ac yn dysgu mewn lleoliad cefnogol, proffesiynol a gofalgar, lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi, yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial, ac, wrth wneud hynny, yn cwrdd â'r disgwyliadau uchel sydd gennym o ran perfformiad yn y brifysgol.

Mae ein strategaeth yn tynnu ar ein harferion gorau ni ac arferion gorau'r sector addysg uwch, gan gynnwys canllawiau ac argymhellion Rhwydwaith Prifysgolion Iach y Deyrnas Unedig a Phum Ffordd at Les Cydffederasiwn y GIG ac mae'n gydnaws ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'n rhoi sylw i'r person cyfan – hynny yw ei les corfforol a meddyliol, oddi fewn a thu allan i'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn darparu arweinyddiaeth glir mewn perthynas ag iechyd a lles a dulliau cefnogi sy'n meithrin diwylliant agored, gan leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chodi materion iechyd, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Rydym yn ymgorffori rhwydwaith o hyrwyddwyr lles ar draws y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol ac yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a'r tîm Gwasanaethau Myfyrwyr er mwyn elwa ar y ddarpariaeth ragorol a gynigiwn i'r gymuned o fyfyrwyr, megis ein cynllun gwirfoddoli ar gyfer myfyrwyr Cyswllt@Bangor.

Bydd alinio strategaeth iechyd a lles y brifysgol gyda strategaeth iechyd meddwl a lles dan arweiniad myfyrwyr 2020-2022 yn galluogi dull prifysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles erbyn 2024.

# CIPOLWG AR Y BRIFYSGOL

FFEITHIAU ALLWEDDOL 2020 – 21

## 11,000 FYFYRWYR

Mae gan Brifysgol Bangor dros 11,000 o fyfyrwyr o dros 120 o wahanol wledydd. Mae hyn yn ein gwneud yn brifysgol wirioneddol ryngwladol. Roedd 3,000 o fyfyrwyr o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn astudio ym Mangor yn 2020/21

## RHAGORIAETH YMCHWIL 77%

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf dyfarnwyd bod 77% o ymchwil Bangor nail ai gyda'r orau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol

## CYMRAEG

Mae gan

**71%**
o weithlu'r Brifysgol sgiliau Iaith Gymraeg.

**44%**
yn rhugl

**27%**
able to speak some Welsh.

## IEITHOEDD

Mae
**1411**
o'n myfyrwyr yn astudio o leiaf 5 credyd o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae
**927**
o'n myfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg

**AM DDIM**
Mae dosbarthiadau ar gyfer pump prif iaith y byd ar gael am ddim i bob myfyriwr i'w helpu i feithrin sgiliau bywyd cynyddol bwysig.

## YMHLITH Y 25

Cynghrair Effaith Addysg Uwch y Times wedi ei asesu yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (2021)

## YMYSG Y 15

Ansawdd Addysgu (The Times a The Sunday Times Good University Guide 2020).

## YMYSG Y 10

Foddhad Myfyrwyr (Complete University Guide (2021)

## YMYSG YR 20

Foddhad gyda'r Cwrs (tabl cynghrair prifysgolion y Guardian 2021)

## SAFLE 20 STUDENT CROWD

## UNDEB BANGOR YN SAFLE

**#6**
Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgolion Gorau

**#3**
Clybiau a Chymdeithasau

seiliedig ar adolygiadau gan dros 19,000 o fyfyrwyr



## 15FED YN Y BYD

MAE PRIFYSGOL BANGOR YN Y BYMTHEGFED SAFLE TRWY'R BYD AM EI HYMRWYMIAD I GYNALIADWYEDD

yn ôl tabl cynghrair rhyngwladol o sefydliadau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, yr UI GreenMetric World University Ranking.

## 'DOSBARTH CYNTAF'

PEOPLE & PLANET UNIVERSITY RANKINGS

## ÔLRADD CEIR 4,100 O FYFYRWYR

yn ein cymudend ôl-radd

### MESURAU COVID

**27, 412**
Darparwyd a danfonwyd 27,412 o brydau bwyd I myfyrwyr gan yr adran arlwyo

**29,000+**
o oriau glanhau ychwanegol wedi'u hamserlennu

**13,075**
o weithiau diheintiwyd ystafelloedd darlithio

**35 (circa)**
Gosodwyd 35 (tua) sgriniau persbecs wrth ddesgiau'r Dderbynfa a darllenfeydd

**2450**
Gosodwyd 2450 o sticeri marcio seddi

**3105**
Tynnwyd 3105 o gadeiriau, soffas, cadeiriau cyfrifiadurol

### PROFIAD RHYNGWLADOL

Mae ein Rhaglen Profiad Rhyngwladol yn rhoi hyd at flwyddyn dramor i fyfyrwyr ar ben eu gradd, gan alluogi iddynt ddod i gysylltiad â gwahanol ddiwylliannau ac ieithoedd a rhoi cyfleoedd pellach iddynt ddatblygu sgiliau newydd ac ehangu eu gorwelion. Mae pob un o'r elfennau hyn yn ychwanegu at eu cyflogadwyedd fel graddedigion Bangor.

### LLWYBRAU

Mae gennym goleg cynwysiedig ar y campws sy'n cynnig rhaglenni paratoi at astudio am radd i fyfyrwyr rhyngwladol, campws ar y cyd yn Tsieina a phrojectau partneriaeth o bwys yn Bahrain, Singapore, Maleisia ac Uzbekistan, yn ogystal â rhwydwaith o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio trwy raglenni cyfunol a dysgu o bell.

## LAWRLWYTHO UCHAF

Dechreuwyd cynnig pecyn meddalwedd Cysgliad yn rhad ac am ddim - gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru - ar ddechrau'r pandemig coronafeirws i gynorthwyo gweithio ac astudio o bell. Mae wedi cael ei lawrlwytho

**8,655 o weithiau**

Our Language Technologies Unit's bilingual dictionary app, 'Ap Geiriaduron', has had

**274,260+ lawrlwythiadau**



# 11 LLYWODRAETHU

## PRIFYSGOL LEWYRCHUS

Mae cymuned Prifysgol Bangor wedi ymateb yn wych i'r heriau digynsail a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19, ac, ar ran y corff llywodraethu, hoffwn dalu teyrnged i wytnwch ac ymrwymiad ein staff a'n myfyrwyr.

Mae effaith y pandemig ar addysg uwch yn parhau i fod yn ddwys. Mae'r Brifysgol wedi gweithio'n ddiflino i gyflymu ymchwil mewn meysydd cysylltiedig â COVID-19 ac i symud yn llwyddiannus i ddysgu ar-lein a gweithio o bell. Mae ein myfyrwyr, sy'n nodedig am eu hymrwymiad i gymuned ehangach Bangor, wedi rhagori yn y gefnogaeth wirfoddol y maent wedi'i rhoi.

Er bod y 12 mis diwethaf wedi bod yn arbennig o heriol mewn tirwedd gynyddol gystadleuol ac anrhagweladwy, mae'r Cyngor yn falch o'r gwaith a wnaed ar draws y sefydliad i ymgynghori ar weledigaeth a chynllun strategol newydd a'u datblygu. Mae Strategaeth 2030 wedi canolbwyntio ein meddyliau ar y cyd ar y blynyddoedd i ddod.

Rydym wedi cryfhau a hyrwyddo galluoedd a chapasiti iechyd a lles y brifysgol a'r rhanbarth, gan ganolbwyntio ar ddatblygu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. Mae hyn wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol gyda'r cytundeb i drosglwyddo'r rhaglen gyfredol a gyflwynir gan Brifysgol Bangor mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd i gwricwlwm annibynnol newydd yn 2026.

Bydd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yn creu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr meddygol gael eu haddysgu a'u hyfforddi yng Ngogledd Cymru. Bydd yn darparu gweithlu newydd a gwybodaeth newydd ar gyfer y proffesiynau iechyd a meddygol, gan gydnabod nodweddion, iaith a diwylliannau'r cymunedau ledled Gogledd Cymru.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi cryfhau a hyrwyddo'r economi ranbarthol a chenedlaethol trwy hybu potensial ein sylfaen ymchwil a'r buddion sy'n deillio o'n swyddogaeth ym Margen Twf y Gogledd.

Cafodd aelodau'r Cyngor eu calonogi'n arbennig gan ymateb HEFCW, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, i adolygiad sefydliadol o'n prifysgol. Mae adolygiadau o'r math yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y drefn lywodraethu, rheoli risg, a'r camau rheoli mewnol sydd ar waith i ddiogelu'r arian cyhoeddus a gawn.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gwella llywodraethu a goruchwylio. Mae HEFCW yn teimlo bod diwylliant y brifysgol wedi gwella a bu cynnydd cadarnhaol hefyd o ran cryfhau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Tynnwyd sylw at ein pwyslais ar ddiwylliant a gwerthoedd wrth ddatblygu Strategaeth 2030. Buom yn siarad â HEFCW am fod yn brifysgol ac iddi gysylltiadau byd-eang ac ynglŷn â manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy'n cael eu ysgogi gan effaith. Mae canolbwyntio ar gynaliadwyedd - gan gynnwys diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant yr economi, cymdeithas, dwyieithrwydd a diwylliant - yn un o'r ffyrdd allweddol y gall Prifysgol Bangor ddangos pa mor unigryw ydyw a pha mor falch ydyw o fod yn brifysgol gogledd Cymru a'r brifysgol ar gyfer gogledd Cymru.

Mae'r Brifysgol hon, fel yn achos pob sefydliad addysg uwch, yn parhau i wynebu cyfnod heriol oherwydd effaith y pandemig byd-eang. Ond mae HEFCW wedi canmol y sefydliad am ei reolaeth ariannol gref a'i gynllunio'n effeithiol.

Ynghyd â fy nghydweithwyr ar y Cyngor, rwyf wedi fy nghyffroi gan ddatblygiad pum is-strategaeth allweddol sy'n sail i Strategaeth 2030 - Pobl yn Gyntaf, Marchnata a Recriwtio, Ymchwil ac Effaith, Cynaliadwyedd, a Strategaeth Ystadau ddeinamig a fydd yn parhau i wella'r campws dros y degawd nesaf.

Rwy'n arbennig o falch o'r gwerthoedd a ddatblygwyd gennym ar draws cymuned y brifysgol yn ystod 2020-21 - uchelgais, cynwysoldeb, uniondeb, parch, cynaliadwyedd a thrawsnewid - a'r gwerthoedd hyn fydd yn helpu i gynnal y sefydliad a diffinio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Brifysgol Bangor, sef Prifysgol Gogledd Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Gellir dadlau mai dyma'r brifysgol fwyaf Cymraeg o ran iaith ac agwedd a'r mwyaf rhyngwladol ei golygon o holl brifysgolion Cymru.

**Marian Wyn Jones,**
*Cadeirydd y Cyngor Prifysgol Bangor*

# DATGANIADAU LLYWODRAETHU

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

## CYNGOR Y BRIFYSGOL

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r brifysgol. Mae'n gyfrifol am gyllid, ystadau, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y brifysgol ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Mae'r Cyngor yn ceisio gwneud ei waith yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).

Mae'r Cyngor wedi ystyried gofynion y cod ymarfer ar lywodraethu yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Medi 2020) ac rydym yn cydymffurfio. Yn ogystal, ystyriwyd gofynion adolygiad Camm o lywodraethiant prifysgolion yng Nghymru (Rhagfyr 2019), a mabwysiadodd y brifysgol y Siarter Llywodraethu yn ffurfiol, ac ymrwymo i gyflawni'r camau a amlinellir yn y ddogfen Ymrwymiad i Weithredu yn ei chyfarfod. ym mis Ebrill 2020.

Mae'r materion hyn yn parhau i gael eu hadolygu fel rhan o fusnes y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Mae'r holl gamau a gododd yn sgil adolygiad Camm o lywodraethiant oedd o fewn rheolaeth y Brifysgol wedi'u rhoi ar waith, ac mae'r Brifysgol yn rhoi'r argymhellion sector gyfan ar waith wrth i ganllawiau fel y cânt eu cyhoeddi gan grwpiau'r sector, gan gynnwys Grŵp Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru.

Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaus wrth lywodraethu ac yn adolygu effeithiolrwydd y drefn lywodraethu'n rheolaidd. Cwblhawyd yr adolygiad effeithiolrwydd llywodraethu diweddaraf yn 2018/19 a chafodd y cynllun gweithredu ei gwblhau. Cynhelir adolygiad effeithiolrwydd pellach yn ystod 2021/22

Pennir y materion a neilltuir yn arbennig i'w penderfynu gan y Cyngor yn siarter a statudau'r brifysgol, trwy arfer ac o dan y cod rheolaeth ariannol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae swyddogaethau'r Canghellor, Cadeirydd y Cyngor, y Dirprwy Ganghellor yn rhai ar wahân i swyddogaeth prif weithredwr y brifysgol, sef yr Is-ganghellor. Daw mwyafrif aelodau'r Cyngor o'r tu allan i'r brifysgol (disgrifir hwy fel aelodau annibynnol). Rhaid dewis Cadeirydd y Cyngor o blith yr aelodau lleyg. Hefyd ymhlith ei aelodau mae cynrychiolwyr o blith staff y brifysgol ac o blith y myfyrwyr.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn ond ymdrinnir â llawer o'i waith manwl gan bwyllgorau sefydlog y Cyngor yn y lle cyntaf. Mae gan y Cyngor bum pwyllgor sefydlog (Cyllid a Strategaeth, Archwilio a Risg, Enwebiadau a Llywodraethu, Iechyd a Diogelwch a Phobl a Diwylliant), ac mae pob Pwyllgor wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol â chylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau annibynnol o'r Cyngor.

Nodir isod aelodaeth y Cyngor, ac aelodaeth y Pwyllgorau ynghyd â'r ffigurau presenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.



# DATGANIADAU LLYWODRAETHU

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| Enw a Swydd | Pwyllgorau Cyfredol | Presenoldeb yn y Cyngor (5 cyfarfod fesul blwyddyn galendr) |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Cyngor<br>Mrs Marian Wyn Jones<br>(hyd at 8 Chwefror 2025) | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (Cadeirydd)<br>Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd (Cadeirydd)<br>Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | 5/5 |
| Dirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd<br>Yr Athro Gareth Roberts<br>(hyd 31 Awst 2022) | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (Cadeirydd)<br>Pwyllgor Materion y Gymraeg (Cadeirydd)<br>Pwyllgor Archwilio a Risg<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | 5/5 |
| **Aelodau Ex officio o'r Cyngor** | | |
| Is-ganghellor<br>Yr Athro Iwan Davies | Pwyllgor Materion y Gymraeg<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>Pwyllgor Cyllid a Strategaeth<br>Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd | 5/5 |
| Dirprwy i'r Is-ganghellor<br>Yr Athro Oliver Turnbull | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd<br>Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | 5/5 |
| Llywydd, Undeb y Myfyrwyr<br>Mr Henry Williams (hyd 30 Mehefin 2021),<br>Mr James Avison (o 1 Gorffennaf 2021) | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>Pwyllgor Materion y Gymraeg<br>Pwyllgor Archwilio a Risg<br>Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 5/5 |
| Llywydd, UMCB<br>Mr Iwan Evans (hyd 30 Mehefin 2021),<br>Mr Mabon Dafydd (o 1 Gorffennaf 2021) | Pwyllgor Materion y Gymraeg | 5/5 |
| **Penodwyd gan y Senedd** | | |
| Dr Llion Jones (hyd 31 Awst 2023) | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | 5/5 |
| Dr Lynne Williams<br>(tan 12 Hydref 2024) | Pwyllgor Materion y Gymraeg<br>Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 3/4<br>Penodwyd Hydref 2020 |
| **Penodwyd gan Staff** | | |
| Dr Myfanwy Davies<br>(hyd 30 Medi 2023 | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | 5/5 |
| Mr Tudur Williams<br>(hyd 18 Hydref 2021) | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 5/5 |

| Enw a Swydd | Pwyllgorau Cyfredol | Presenoldeb yn y Cyngor (5 cyfarfod fesul blwyddyn galendr) |
|---|---|---|
| **Aelodau Annibynnol** | | |
| Ms Julie Perkins<br>(hyd 31 Hydref 2024) | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | 4/5 |
| Dr Karen Jones (hyd 31 Hydref 2021) | | 3/5 |
| Dr Griff Jones (hyd 31 Mawrth 2022) | Pwyllgor Archwilio a Risg (Cadeirydd) | 5/5 |
| Mrs Alison Lea-Wilson MBE<br>(hyd 31 Gorffennaf 2023) | Pwyllgor Archwilio a Risg<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | 5/5 |
| Dr Ian Rees<br>(hyd 31 Gorffennaf 2023) | Pwyllgor Archwilio a Risg,<br>Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br>Pwyllgor Materion y Gymraeg<br>Pwyllgor Pobl a Diwylliant (Cadeirydd) | 5/5 |
| Syr Paul Lambert<br>(hyd 31 Awst 2024) | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (Cadeirydd)<br>Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd | 5/5 |
| Mr Marc P. Jones (hyd 31 Awst 2024) | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | 4/5 |
| Mr Eric Hepburn CBE<br>(hyd 31 Hydref 2024) | Pwyllgor Archwilio a Risg<br>Pwyllgor Iechyd a Diogelwch<br>Pwyllgor Taliadau | 4/4<br>Penodwyd Hydref 2020 |
| Mr Atul Devani<br>(until 31 October 2024) | Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4<br>Penodwyd Hydref 2020 |
| Mr Kailesh Karavadra<br>(until 31 October 2024) | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth<br>Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 3/4<br>Penodwyd Hydref 2020 |
| **Ysgrifennydd y Cyngor:**<br>Mrs Gwenan Hine | Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (Ysgrifennydd)<br>Pwyllgor Materion y Gymraeg (Ysgrifennydd)<br>Pwyllgor Pobl a Diwylliant (Ysgrifennydd)<br>Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd (Ysgrifennydd) | 5/5 |



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIADAU LLYWODRAETHU

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

## AELODAU ANNIBYNNOL Y CYNGOR/ AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chaiff pob hysbyseb am aelodau annibynnol eu hysbysebu'n allanol a chroesawir ceisiadau'n arbennig gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Ystyrir ceisiadau gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a chânt eu hystyried yn erbyn yn y matrics sgiliau cyfredol a gwnaed hynny ddiwethaf yn haf 2021. Nid yw'r un o'r aelodau annibynnol yn derbyn unrhyw dâl, ac eithrio ad-daliad treuliau, am y gwaith a wnânt i'r brifysgol. Mae'r holl aelodau a benodir i'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o 4 blynedd, ond gellir eu hailbenodi am gyfnod o 8 mlynedd ar y mwyaf.

## ANNIBYNIAETH AELODAU'R CYNGOR

Yn A Review of Governance of the Universities in Wales, argymhellodd yr awdur Gillian Camm y dylid codi'r bar o ran annibyniaeth llywodraethwyr o gymharu â'r sefyllfa a fodolai pan gynhaliwyd yr adolygiad (2019); ac y dylid llunio a chyhoeddi canllawiau o ran yr hyn a olygir wrth annibyniaeth a'r materion hynny a allai gyfaddawdu annibyniaeth llywodraethwyr.

Mae'r brifysgol wedi mabwysiadu'r Guide on Independence for Lay Members a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno gan Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru ym mis Mehefin 2020 fel ymateb i'r argymhelliad hwn. Rhannwyd y Canllaw gydag aelodau'r Cyngor ac mae'n cael ei adolygu gan yr Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.

## DATGAN BUDD

Mae'n ofynnol i aelodau'r cyngor ddilyn gweithdrefn ffurfiol i ddatgan budd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, ac mae'r gofrestr ar gael ar-lein yma:

**https://www.bangor.ac.uk/cy/amdanom-ni/rheolaeth-a-llywodraethiant**

Yn ychwanegol, gofynnir i aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda, ar ddechrau pob cyfarfod o'r Cyngor, a nodir y rhain yn ffurfiol yn y cofnodion.

## AELODAU ANNIBYNNOL O'R CYNGOR

Gellir gweld manylion bywgraffyddol am Aelodau Cyngor Prifysgol Bangor ar dudalennau gwe'r Brifysgol:

**https://www.bangor.ac.uk/cy/amdanom-ni/rheolaeth-a-llywodraethiant**

## IS-BWYLLGORAU'R CYNGOR

**Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu**
Cadeirydd: Mrs Marian Wyn Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yw Cadeirydd y Cyngor ac mae'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, ynghyd â'r aelod Senedd sydd wedi gwasanaethu hwyaf ar y Cyngor a'r aelod staff academaidd ar y Cyngor. Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn ogystal ag uwch swyddogion y brifysgol hefyd yn aelodau.

Mae'r pwyllgor, ar ran y Cyngor, yn goruchwylio pedwar maes allweddol: Llywodraethu'r brifysgol, pwyllgorau'r Cyngor a'u haelodaeth, cymrodoriaethau a graddau er anrhydedd a'r adolygiad effeithiolrwydd.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 cyfarfu'r Pwyllgor ar bedwar achlysur gan roi ystyriaeth ym mhob cyfarfod i aelodaeth y Cyngor, presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor, aelodaeth o Is-bwyllgorau'r Cyngor a'r cynnydd a wnaed gyda chynlluniau gweithredu mewn perthynas ag Adolygiad Camm, yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu a Chod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol. Yn ogystal, ystyriwyd yr eitemau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Cylch Gorchwyl Is-bwyllgorau'r Cyngor;
- Adroddiadau Adolygiad Sicrwydd Blynyddol Is-bwyllgorau'r Cyngor
- Adolygiad Datblygu Blynyddol: Aelodau'r Cyngor;
- Sefydlu'r Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd, gan gynnwys cynrychiolwyr o Undebau'r Campws, y Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredu;
- Sefydlu'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant;
- Canllaw i Aelodau'r Cyngor;
- Diffiniadau o rolau Cadeirydd y Cyngor, Aelodau Annibynnol y Cyngor, Dirprwy Gadeirydd ac Uwch Lywodraethwr Annibynnol y Cyngor a'r Canghellor;
- Diweddariadau i Ordinhadau
- Cynllun Dirprwyo a Phwerau Gwneud Penderfyniadau
- Y Polisi Is-gwmnïau

**Pwyllgor Taliadau**
Cadeirydd: yr Athro Gareth Roberts

Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau yw Dirprwy Ganghellor y brifysgol ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, cynrychiolydd staff academaidd a thri aelod annibynnol o'r Cyngor. Mae ei gylch gorchwyl wedi ei bennu yn unol â Chod y Cyngor Cadeiryddion Prifysgol (CUC). Mae'r pwyllgor yn penderfynu ac yn adolygu tâl yr Is-ganghellor, aelodau'r Pwyllgor Gweithredu a staff sydd ar gyflog o £100,000 a mwy, yn pennu'r strategaeth ar gyfer taliadau diswyddo i uwch staff y brifysgol ac yn ystyried adroddiadau ar gyflog cyfartal a chyflog yn ôl rhyw yn y brifysgol.

Gwnaed penderfyniad yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 i gynnwys gwaith y pwyllgor taliadau o fewn pwyllgor newydd ar gyfer 2021/22 - sef y Pwyllgor Pobl a Diwylliant dan gadeiryddiaeth Dr Ian Rees.

**Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**
Cadeirydd: yr Athro Gareth Roberts

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol y brifysgol mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch, am sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i hyrwyddo iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr, ymwelwyr awdurdodedig ac aelodau'r cyhoedd sy'n dod i mewn i'r brifysgol yn gyfreithlon. Mae hefyd yn cynghori'r brifysgol ar gwestiynau polisi iechyd a diogelwch, yn goruchwylio gweithrediad polisi iechyd a diogelwch cymeradwy y brifysgol ac yn argymell i'r Cyngor unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Cadeirir y Pwyllgor gan y Dirprwy Ganghellor, ac mae hefyd yn cynnwys aelod staff sydd ar y Cyngor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, yr Is-ganghellor a'r Dirprwy i'r Is-ganghellor yn ogystal â nifer o uwch swyddogion gweithredol a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch o'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 trafodwyd yr eitemau canlynol:

- Adroddiad Covid-19 ym mhob cyfarfod gan gynnwys asesiad risg covid-19
- Adroddiad Damweiniau ac Absenoldeb Salwch
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch
- Trefniadau ar gyfer profi myfyrwyr yn dorfol
- Adroddiad Ystad y Brifysgol

**Pwyllgor Materion y Gymraeg**
Cadeirydd: yr Athro Gareth Roberts

Mae Pwyllgor Materion y Gymraeg yn gyfrifol am hyrwyddo dwyieithrwydd, ar ran y Cyngor, yn y brifysgol, a hefyd mewn perthynas ag unrhyw un o amcanion y brifysgol. Mae hefyd yn sicrhau y cydymffurfir â fframwaith deddfwriaethol y Gymraeg a pholisi iaith y brifysgol. Mae'r pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor ac yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

Cadeirir y pwyllgor gan y Dirprwy Ganghellor, ac mae'r pwyllgor hefyd yn cynnwys aelod annibynnol o'r Cyngor, yr Is-ganghellor, Dirprwy Is-ganghellor, Llywydd UMCB, aelod staff sydd ar y Cyngor yn ogystal ag uwch swyddogion perthnasol eraill o'r brifysgol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 cyfarfu'r Pwyllgor ar ddau achlysur a thrafodwyd yr eitemau canlynol:

- Aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor;
- Adroddiad Blynyddol ynghylch Safonau'r Gymraeg;
- Cyfleoedd Dysgu Cymraeg i Staff;
- Adroddiad Blynyddol yr Uned Gyfieithu;
- Adroddiad gan Dysgu Cymraeg: Y Gogledd Orllewin; a
- Fersiwn Ddrafft Strategaeth y Gymraeg

Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan Lywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB), a Chofnodion Grŵp Strategaeth y Gymraeg ym mhob cyfarfod.

**Pwyllgor Diswyddiadau**
Cadeirydd: Dr Ian Rees

Mae'r Pwyllgor Diswyddiadau yn ymdrin â materion yn ymwneud â diswyddo a chontractau cyfnod penodol. Cadeirir y pwyllgor gan aelod annibynnol o'r Cyngor, ac mae hefyd yn cynnwys dau aelod annibynnol arall o'r Cyngor a dau aelod staff academaidd a enwebwyd gan y Senedd. Ar hyn o bryd mae swyddogaeth y pwyllgor ei hun yn ymwneud ag ymgynghori rhwng y brifysgol a'r undebau llafur mewn perthynas â'r newidiadau i'r Siarter a chael gwared â'r Statudau wedi hynny. Mae nifer o Ordinhadau, yn cynnwys polisi contract cyfnod penodol a pholisi rheoli newid yn cael eu trafod gyda'r undebau llafur a allai olygu na fydd angen y pwyllgor hwn mwyach.


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIADAU LLYWODRAETHU

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

Gwnaed penderfyniad gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 i gynnwys gwaith y pwyllgor diswyddiadau o fewn pwyllgor newydd ar gyfer 2021/22 - sef y Pwyllgor Pobl a Diwylliant dan gadeiryddiaeth Dr Ian Rees.

**Pwyllgor Cyllid a Strategaeth**
Cadeirydd - Syr Paul Lambert

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am adolygu ar ran y Cyngor iechyd ariannol cyffredinol y sefydliad, a pherfformiad y Brifysgol yn erbyn ei strategaethau arfaethedig, ac am gadw trosolwg a gwneud argymhellion ar gyfeiriad strategol a strategaeth ariannol y Brifysgol. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan aelod annibynnol o'r Cyngor, ac mae hefyd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, yr Is-ganghellor, y Dirprwy i'r Is-ganghellor, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff ar y Cyngor a thri aelod annibynnol ychwanegol o'r Cyngor.

Mae dau is-grŵp sy'n adrodd i'r Pwyllgor: yr Is-bwyllgor Buddsoddi sy'n cadw trosolwg dros bortffolio buddsoddi'r Brifysgol, a'r Bwrdd Craffu ar Raglenni Cyfalaf sy'n cadw trosolwg dros brif raglenni cyfalaf y Brifysgol.

Mae busnes y Pwyllgor yn cynnwys:

- adolygiad blynyddol o strategaeth y Brifysgol;
- derbyn adroddiad perfformiad blynyddol ynglŷn â'r dangosyddion perfformiad allweddol yng nghynllun strategol y Brifysgol;
- adolygiad o ganlyniadau cylch cynllunio busnes blynyddol y Brifysgol;
- monitro perfformiad ariannol y Brifysgol fesul chwarter;
- adolygu cyfrifon blynyddol y Brifysgol ar ran y Cyngor;
- trosolwg dros raglen Gyfalaf y Brifysgol;
- goruchwylio cyflwyniadau i gyrff statudol: Cynllun ffioedd a mynediad HEFCW, rhagolygon ariannol HEFCW, ffurflen TRAC;
- gwneud argymhellion i'r Cyngor fel y prif gyflogwr mewn materion sy'n ymwneud â phob cynllun pensiwn; ac
- ystyried a phenderfynu ar yswiriant y Brifysgol, penodi bancwyr a chynghorwyr ariannol eraill.

**Pwyllgor Archwilio a Risg**
Cadeirydd: Dr Griff Jones

Caiff y Pwyllgor Archwilio a Risg ei gadeirio gan aelod annibynnol o'r Cyngor ac mae'r pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter. Mae'n cynnwys pum aelod lleyg o'r Cyngor gydag archwilwyr mewnol ac allanol y brifysgol yn bresennol. Mae'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y brifysgol, ynghyd ag ymatebion y rheolwyr a chynlluniau gweithredu. Mae aelodau'r tîm gweithredu ac uwch staff eraill yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ôl yr angen.

Mae'r pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar benodi a thalu'r archwilwyr mewnol ac allanol. Yn unol â'r polisi rheoli risg, mae gan y brifysgol brosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau arwyddocaol sy'n wynebu'r sefydliad. Bydd yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion posib yn ymwneud â chamau rheoli y tynnir sylw atynt gan fecanweithiau rhybuddio cynnar sydd wedi eu seilio o fewn unedau gweithredol y brifysgol ac a atgyfnerthir gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r pwyslais ar gael mesur addas o sicrwydd ac nid ar adrodd yn ôl eithriadau yn unig. Mae'r pwyllgor yn ystyried dogfennaeth prosesau rheoli risg ac archwilio mewnol y brifysgol, ac yn ystyried y pethau a ddigwyddodd ers diwedd y flwyddyn flaenorol.

**Risg a Chamau Rheoli Mewnol**

Mae Cyngor y brifysgol yn gyfrifol am system camau rheoli mewnol y brifysgol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion y brifysgol, gan ddiogelu cyllid cyhoeddus a chyllid arall.

Cynlluniwyd systemau'r camau rheoli hyn i reoli, yn hytrach na dileu, risgiau sylweddol sy'n bygwth amcanion busnes y brifysgol; felly dim ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd absoliwt a geir rhag camddatganiad neu golled faterol berthnasol.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad blynyddol ar waith yr archwiliwr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae hyn yn darparu sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd system camau rheoli mewnol a phrosesau rheoli risg a llywodraethu'r brifysgol.

Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021 mae'r adroddiad yn mynegi barn foddhaol bod gan y brifysgol fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risgiau, llywodraethu, camau rheoli a darbodaeth fewnol, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn amodol ar nodi gwelliannau pellach i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol. Mae'r Cyngor yn fodlon y bu hyn ar waith yn y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol, ei fod yn unol â chanllawiau HEFCW; a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Cyngor. Ni chafodd unrhyw wendidau sylweddol eu nodi mewn perthynas â chamau rheoli yn y cyfnod.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y brifysgol brosesau digonol ac effeithiol ar waith mewn perthynas â rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu; darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a rheoli a sicrhau ansawdd y data a gyflwynir i gyrff statudol - gan gofio na all unrhyw system reolaeth fewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, eithr nid diamod, rhag camddatganiad neu golled.

Mae elfennau allweddol system reoli gyllidol fewnol y brifysgol, a gynlluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau eglur o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd a gweinyddol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt
- proses gynllunio gynhwysfawr tymor canolig a byr, wedi ei hategu â chyllidebau incwm, gwariant a chyfalaf blynyddol manwl
- adolygiadau rheolaidd o berfformiad academaidd ac adolygiadau chwarterol o ganlyniadau ariannol gan gynnwys adrodd ar amrywiant a diweddaru canlyniadau a ragwelwyd
- gofynion a ddiffiniwyd ac a ffurfiolwyd yn eglur ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, gyda'r penderfyniadau buddsoddi sy'n cynnwys gwariant cyfalaf neu refeniw yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol ac yn fanwl a'u hadolygu yn unol â lefelau cymeradwyo a bennir gan y Cyngor
- rheoliadau ariannol cynhwysfawr, yn nodi manylion am gamau rheoli a gweithdrefnau ariannol, wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
- swyddogaeth archwilio mewnol broffesiynol a drefnir trwy gontract allanol, y caiff ei rhaglen flynyddol ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Y Senedd**

Y Senedd yw awdurdod academaidd y brifysgol a daw ei haelodaeth yn gyfan gwbl o blith staff academaidd a myfyrwyr y sefydliad. Yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 cyfarfu'r Senedd bedair gwaith. Mae aelodaeth y Senedd wedi ei bennu yn Ordinhad 12 a'r Is-ganghellor yw'r cadeirydd. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys y Dirprwy i'r Is-ganghellor, y dirprwy is-gangellorion, deoniaid, pob pennaeth ysgol, pennaeth pob sefydliad rhyngddisgyblaethol, dau gynrychiolydd pellach o bob ysgol academaidd, pum cynrychiolydd myfyrwyr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr, hyd at bum aelod cyfetholedig a hyd at ddeg aelod academaidd annibynnol.

Mae'r is-bwyllgorau canlynol yn adrodd i'r Senedd: Panel Apeliadau'r Senedd, byrddau arholi, y Pwyllgor Gwobrau a Dyfarniadau, y Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig, y Pwyllgor Llywodraethu Ymchwil a Moeseg, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Bwrdd Disgyblu.

**Y Llys**

Mae'r Llys yn gorff mawr, ffurfiol yn bennaf sydd ychydig yn debyg i gyfarfod rhanddeiliaid. Mae'n gyfrwng i gysylltu'r sefydliad â'r buddiannau ehangach y mae'r brifysgol yn eu gwasanaethu, ac mae'n fforwm cyhoeddus lle gall aelodau'r Llys godi unrhyw faterion yn ymwneud â'r brifysgol. Fel rheol mae'r Llys yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i dderbyn adroddiad blynyddol a chyfrifon y brifysgol. Daw mwyafrif aelodau'r Llys o'r tu allan i'r brifysgol, gan gynrychioli cymunedau Gogledd Cymru a chyrff penodol eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y brifysgol, ond mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y brifysgol (academaidd a gwasanaethau proffesiynol) ac o blith y myfyrwyr. Adolygwyd aelodaeth y Llys yn ystod 2020/21 ac mae wedi'i nodi yn Ordinhad 13.

**Y Tîm Gweithredu**

Y tîm gweithredu yw uwch grŵp rheoli'r brifysgol, ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiad cyffredinol y brifysgol. Cadeirir y tîm gweithredu gan yr Is-ganghellor ac mae hefyd yn cynnwys y Dirprwy i'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-gangellorion, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Cyllid dros dro, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Prif Swyddog Marchnata/Is-lywydd Rhyngwladol.


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# ADOLYGIAD STRATEGOL

# ADOLYGIAD STRATEGOL

Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021

## EIN CENHADAETH

Prifysgol Gogledd Cymru ac ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n cael ei harwain gan ymchwil ac yn meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## Y BRIFYSGOL MEWN CYD-DESTUN

Mae Prifysgol Bangor yn parhau i ragori ar adeg pan mae Addysg Uwch yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn wynebu cyfnod heriol, i raddau mwy fyth yn sgil effaith y pandemig Coronafeirws. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar lwyddiannau diweddar, gan weithio gyda chymunedau amrywiol a nodedig i ddarparu addysgu, ysgolheictod ac ymchwil rhagorol, gan gadw ein pwyslais cryf ar gyfraniad nodedig a gwerthfawr ein myfyrwyr a pharhau'n ffyddlon i'n cyd-destun dwyieithog a diwylliannol unigryw.

Mae'r cyfraniad mawr yr ydym yn ei wneud i wella gofal iechyd a lles, dwyieithrwydd a gwarchod yr amgylchedd, yn ei gwneud yn amlwg bod yr ymchwil sy'n cael ei wneud gan academyddion Prifysgol Bangor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi ac ar fywydau pobl ledled y byd.

Gan edrych ymlaen at Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, rydym yn parhau i adeiladu ar ein rhagoriaeth ymchwil, i ddarparu amgylchedd lle gall y gymuned ymchwil ffynnu, gan gefnogi'r meysydd presennol o gryfder ymchwil, meithrin meysydd ymchwil newydd ar draws yr holl ddisgyblaethau, a bod yn sail i addysgu sy'n cael ei lywio gan ymchwil sef yr hyn sy'n gefn i'r haddysgu o ansawdd uchel a'r profiad a gaiff ein myfyrwyr. Rydym yn gweithio gyda busnesau, llywodraethau a chyn-fyfyrwyr i sicrhau bod Prifysgol Bangor yn parhau'n berthnasol i'w hanghenion ac i anghenion egin-farchnadoedd, gan sicrhau ein bod yn uchafu ein cyfraniad cadarnhaol i'r economi leol a rhanbarthol.

Mae'r Brifysgol yn dal i fod wedi ymrwymo i ffurfio cysylltiadau strategol manteisiol yn y rhanbarth. Yn benodol, cryfhau ymhellach y berthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel llwyfan i adeiladu cryfder cydweithredol pellach mewn ymchwil ac addysgu sy'n ymwneud ag iechyd a meddygaeth.

## CYFEIRIAD STRATEGOL

Cyhoeddodd y Brifysgol Strategaeth 2030 yn ystod y flwyddyn. Dyma strategaeth ac ynddi weledigaeth o ran ei chwmpas a'i huchelgais sy'n rhannu'r cyfeiriad y bydd y Brifysgol yn ei ddilyn i fywiogi ei chymuned a'i rhanddeiliaid dros y degawd nesaf. Yn sail i'r strategaeth mae pedair colofn

- Rhagoriaeth ymchwil
- Profiadau dysgu trawsnewidiol
- Profiad rhagorol i fyfyrwyr, ac
- Amgylchedd dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae'r brifysgol mewn sefyllfa gref fel prifysgol ddwyieithog Gogledd Cymru ac ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n entrepreneuraidd ac yn cael ei harwain gan ymchwil. Fel sefydliad llwyddiannus, mae'r Strategaeth yn amlinellu lle y bwriada'r Brifysgol fod yn 2030, gan ddatblygu'r màs critigol sy'n angenrheidiol i chwarae ein rhan yn fyd-eang, gan fanteisio ar ddarbodion maint a bod yn gynaliadwy yn academaidd, yn weithredol ac yn ariannol. Felly mae'r brifysgol yn parhau i ganolbwyntio ar dwf, gan gydnabod heriau'r amgylchedd gweithredu wrth i addysg uwch nesáu at ddiwedd pandemig byd-eang COVID-19.

Er mwyn cefnogi Strategaeth 2030 nod y Brifysgol yw cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer yr ystad yn ystod y 12 mis nesaf. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cwblhau nifer o ddatblygiadau newydd, sy'n cynnwys llety myfyrwyr yn ogystal â mannau ar gyfer addysgu ac ymchwil ac ymwneud â'r gymuned. Maent yn amrywio o ddatblygiadau newydd i waith ar brif adeilad hanesyddol y brifysgol, er mwyn sicrhau y bydd myfyrwyr y dyfodol yn elwa o gael cyfleusterau academaidd rhagorol a phrofiad penigamp fel myfyrwyr.

## GWELEDIGAETH

Bod yn brifysgol ac iddi gysylltiadau byd-eang, sy'n gwireddu cyfleoedd ar gyfer llwyddiant trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol a sbardunir gan effaith, gyda ffocws ar gynaliadwyedd: diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol.



## RECRIWTIO MYFYRWYR

Mae recriwtio myfyrwyr yn parhau i fod yn farchnad gystadleuol iawn, a does dim cap go iawn wedi ei roi ar niferoedd sefydliadau addysg uwch yn Lloegr nac yng Nghymru. Cafwyd niferoedd cymharol sefydlog dros y 7 neu 8 mlynedd flaenorol, a gwelliant o ran recriwtio myfyrwyr yn y blynyddoedd cyn hynny, cafodd pandemig Covid 19 effaith ar recriwtio eleni, gan arwain at lefelau is o ran recriwtio myfyrwyr yn gyffredinol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg wrth recriwtio myfyrwyr tramor.

I israddedigion o Gymru a Lloegr mae'r cyllid ar gyfer addysgu a'r ffioedd a delir gan israddedigion yn system sydd wedi'i seilio ar fenthyciadau, tra bo israddedigion o Gymru hefyd yn manteisio ar grant cynhaliaeth rhwng isafswm o £1,000 hyd at uchafswm o fymryn dros £10,000, a hynny'n seiliedig ar brawf modd.

Mewn ymateb i'r farchnad newydd hon, gwelwyd cynnydd mewn myfyrwyr yn symud ar draws ffiniau gwledydd ac mae holl sefydliadau'r Deyrnas Unedig wedi cynyddu eu gweithgarwch o ran marchnata a throsi ceisiadau'n dderbyniadau pendant. Rydym yn parhau i fonitro ein marchnata ac yn parhau i ddatblygu dulliau arloesol o farchnata a byddwn yn parhau i ddatblygu rhaglenni traddodiadol a chyfoes mewn meysydd y mae galw amdanynt gan fyfyrwyr neu gyflogwyr, yn lleol ac yn fyd-eang, er mwyn sicrhau bod Prifysgol Bangor yn parhau'n gystadleuol yn y farchnad newydd.

Mae HEFCW wedi cytuno ar gynllun ffioedd, yn cynnwys ffi o £9,000 i Israddedigion Cartref a myfyrwyr TAR am y blynyddoedd hyd at 2021/22. Mae'r cynllun ffioedd yn cynnwys buddsoddiadau cynyddol i gefnogi ehangu mynediad, profiad myfyrwyr, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyflogadwyedd, gan gynnwys rhoi mynediad am ddim i'r holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli yn undeb y myfyrwyr, a rhoi gwell darpariaeth llyfrgell a chwaraeon.

Mae cynyddu niferoedd myfyrwyr ôl-radd a rhyngwladol yn bwysig hefyd, a byddwn yn sicrhau bod y cyrsiau a gynigiwn yn gynaliadwy ac yn ddeniadol, gan adeiladu ar brofiad myfyrwyr, a chryfhau brand y brifysgol gartref a thramor. Mae datblygu cysylltiadau agosach gyda nifer o bartneriaid rhyngwladol, yn ogystal â pharhau i ddatblygu Coleg Bangor yn Tsieina, yn gamau allweddol i ddatblygu llif cyson o fyfyrwyr i'r Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ehangu ôl troed ein haddysgu a'r mannau y daw ein myfyrwyr ohonynt.

## DATBLYGIADAU CYFALAF

Mae'r adolygiad o'n Strategaeth Ystadau ar fin cael ei gadarnhau'n derfynol, er mwyn sicrhau bod gennym y gallu i ddarparu'n effeithiol ar gyfer ystod eang o weithgarwch addysgu ac ymchwil ar draws portffolio eang o ddisgyblaethau. Bydd hyn yn ystyried tueddiadau newydd a thueddiadau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer mannau gwaith ac amgylcheddau addysgu a dysgu, a'r angen hefyd am fannau dysgu cymdeithasol ochr yn ochr ag ystafelloedd addysgu mwy ffurfiol.

Un elfen greiddiol yn ein cynlluniau ar gyfer yr ystad fydd sicrhau ein bod yn ymgorffori cynaliadwyedd yn rhan o unrhyw brojectau newydd o'r cychwyn cyntaf. Bydd y dull hwn yn cefnogi'r rhaglen y mae'r brifysgol wedi ei dilyn i nodi cyfleoedd i sicrhau effeithlonrwydd ynni mewn tua 30 adeilad ar draws ystad Prifysgol Bangor a fydd yn rhoi adenillion gwarantedig ar gost y buddsoddiad o fewn 8 mlynedd. Bydd yr holl ynni sy'n cael ei arbed yn cyfrannu at ein targedau o ran parhau i ostwng ein hôl-troed carbon, sydd wedi bod yn gostwng yn gyson ers nifer o flynyddoedd bellach.

## PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod risgiau ac ansicrwydd cynhenid yn gysylltiedig â sawl agwedd ar ei gweithrediadau. Mae'n anelu at adnabod, rheoli a lliniaru'r risgiau hynny lle bynnag y bo modd a hyrwyddo diwylliant o reoli risgiau drwy'r Brifysgol gyfan. Caiff y gofrestr risg sefydliadol ei hadolygu'n ffurfiol gan y Grŵp Tasg Rheoli Risg a'r Pwyllgor Gweithredu yn rheolaidd a rhoddir adroddiad ar y mater yn achlysurol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r broses hon, ynghyd ag ystyriaethau eraill, yn llywio'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â galluogi'r Pwyllgor Archwilio a Risg i roi sicrwydd i'r Cyngor trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol.

Ymysg y risgiau allweddol sydd o bwysigrwydd neilltuol i'r Brifysgol ar hyn o bryd mae'r canlynol:

- Recriwtio'r nifer a gynlluniwyd o fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd o'r Deyrnas Unedig, o'r Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol yn dilyn ymateb annigonol i farchnad gynyddol gystadleuol, gan gynnwys ein gallu i gyflawni rhagolygon recriwtio myfyrwyr, o ystyried diwygiadau a wnaed i drefn cyllido myfyrwyr a chynnydd mewn buddsoddi ym maes marchnata gan sefydliadau sy'n cystadlu â ni;

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# ADOLYGIAD STRATEGOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

- Effaith bosibl newidiadau i gyllid allanol, cyfundrefnau rheoleiddio a statudol;
- Effaith bosibl y cynnydd parhaus yng nghost darparu pensiynau â buddion wedi'u diffinio ac, yn achos yr USS, gwasanaethu'r diffyg sylweddol.
- Methu â chynnal iechyd ariannol y sefydliad, a chynnal hylifedd, ar adeg o gyfyngiadau economaidd sylweddol a chystadleuaeth gynyddol; a
- Sicrhau profiad myfyriwr o ansawdd uchel

Mae risgiau eraill y mae'r brifysgol yn eu rheoli ar sail barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod ystad y brifysgol yn cydymffurfio ac yn addas i'r diben;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoliadau e.e. diogelwch data, rheoliadau'n ymwneud â fisas;
- Sicrhau bod cyfamodau benthyciadau banc yn cael eu bodloni.

## PERFFORMIAD GWEITHREDU

Yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021, roedd y brifysgol yn teimlo effaith sylweddol y pandemig Coronafeirws ar draws pob agwedd ar ei gweithgarwch. Arweiniodd y diffyg mewn recriwtio myfyrwyr at ostyngiad o £6.6 miliwn mewn ffioedd dysgu, ac roedd £4.2miliwn ohono yn ostyngiad mewn ffioedd myfyrwyr rhyngwladol.

Mewn ymateb i effaith pandemig Covid19, roedd nifer o ffrydiau cyllid ychwanegol ar gael i'r Brifysgol gan y Llywodraeth, gan gynnwys cyllid i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr a chronfa adfer. O ganlyniad, cynyddodd grantiau gan gyrff cyllido gan £12.7 miliwn i £30.3 miliwn yn y flwyddyn hyd 31 Gorffennaf 2021. Defnyddiwyd yr arian i gwrdd â'r costau uwch sy'n deillio o effaith Covid19. Ni ragwelir y bydd mwyafrif yr arian ychwanegol yn gyllid rheolaidd. Tystiolaeth bellach o effaith y pandemig yw'r gostyngiad o £2.8m mewn incwm neuaddau, arlwyo a chynadleddau.

Parhaodd y brifysgol i ddefnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws i gefnogi'r brifysgol ac i helpu i warchod staff y mae effaith y coronafeirws yn effeithio arnynt.

Mewn ymateb i'r cwymp mewn incwm rheolaidd ac er mwyn cydnabod yr angen i'r Brifysgol gynhyrchu mwy o arian ar gyfer buddsoddi, cwblhaodd y Brifysgol ymarfer ailstrwythuro yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gostau staff a threuliau gweithredu is.

Effeithir ar y diffyg cyn treth yr adroddwyd amdano ar gyfer y flwyddyn o £0.6miliwn gan nifer o ffactorau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys addasiadau pensiwn ac effaith y pandemig coronafeirws. Mae'r perfformiad sylfaenol fel y caiff ei fesur gan EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio) yn well adlewyrchiad o'r perfformiad cyfredol.

Mae'r brifysgol, felly, wedi mabwysiadu mesur ychwanegol sef cynaliadwyedd ariannol, wedi ei seilio ar addasu canlyniadau ar gyfer symudiadau blynyddol anghylchol, yn unol â methodoleg a ddatblygwyd i'w defnyddio ar draws y sector addysg uwch. Mae'r mesur a fabwysiadwyd yn seiliedig ar EBITDA ond yna tynnir effaith addasiadau anghylchol sy'n bresennol yn y ffigyrau cyhoeddedig; mae hyn yn caniatáu cymharu, mewn modd mwy realistig ac ystyrlon, berfformiad rhwng blynyddoedd, neu hyd yn oed sefydliadau.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r canlyniadau a geir wrth ddefnyddio methodoleg 'EBITDA Addasedig Addysg Uwch':

| | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| **(Diffyg) / Gwarged** | **(1,549)** | **11,076** |
| Ychwanegu yn ôl | | |
| Dibrisiad | 14,282 | 13,257 |
| Llog a dalwyd | 5,205 | 5,812 |
| **EBITDA** | **17,938** | **30,145** |
| Addasiadau | | |
| Colled / (Enillion) ar waredu asedau sefydlog | 69 | (28) |
| Pensiynau | 2,412 | (6,490) |
| Grantiau Cyfalaf | (4,809) | (1,517) |
| Gwaddolion Newydd | (65) | (313) |
| Costau Ailstrwythuro | 2,322 | 12 |
| **EBITDA Addasedig** | **17,867** | **21,809** |

Mae EBITDA Addasedig Addysg Uwch 2020/21 o £17.9m yn cynrychioli canlyniad cadarnhaol mewn blwyddyn heriol ac roedd yn gyflawniad hynod glodwiw yng ngoleuni'r heriau sy'n wynebu'r Brifysgol, yn anad dim oherwydd pandemig y Coronafeirws. Cydnabyddir fodd bynnag bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd i symud i sefyllfa o gynaliadwyedd ariannol tymor hir.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm gan £2.6miliwn wedi ei ysgogi gan gynnydd mewn grantiau gan gyrff cyllido gan wrthbwyso'r gostyngiad mewn incwm arall yn dilyn effaith y pandemig Coronafeirws. Bu i grantiau cyrff cyllido elwa o gynnydd yn y grant rheolaidd gan HEFCW ac o ganlyniad i ffrydiau cyllido ychwanegol, yn rhannol i alluogi'r brifysgol i ymateb i effaith y pandemig Coronafeirws. Bu i incwm preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau ddioddef gostyngiad sylweddol o £2.8 miliwn i £8 miliwn yn 2020/21. Roedd hyn yn ganlyniad uniongyrchol i effaith cyfnod clo'r Coronafeirws o ddiwedd mis Mawrth 2020.

O ran costau, mae cyfanswm costau staff yn cynnwys y symudiadau sylweddol yn y darpariaethau pensiwn a drafodir yn ddiweddarach ac a gynyddodd gan £14.3miliwn. Oddi fewn i'r swm hwnnw, roedd £8.9m yn symudiad mewn darpariaethau pensiwn ar ddau gynllun pensiwn y Brifysgol, USS a BUPAS. Yn ogystal, cyfanswm y costau ailstrwythuro oedd £2.3 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae costau ac eithrio cyflogau'n parhau i gael eu rheoli'n dynn. Er bod cynnydd cyffredinol o £3.5miliwn mewn costau gweithredu, mae hyn yn adlewyrchu'r costau ychwanegol yr aethpwyd iddynt sy'n deillio o'r cynnydd yng ngrantiau'r cyngor cyllido. Cynyddodd costau dibrisiant o ganlyniad i fuddsoddiadau yn dilyn cyllid cyfalaf ychwanegol a ddarparwyd i'r Brifysgol.

Cydnabuwyd buddion sylweddol mewn perthynas â'r cynlluniau pensiwn a buddion wedi'u diffinio a weithredwyd gennym yn ystod 2020/21. Y symudiad mewn darpariaethau rhwng blynyddoedd ariannol oedd £6.3 miliwn. Roedd hyn oherwydd bod cynllun pensiwn lleol BUPAS wedi nodi gwarged o £3.6 miliwn o gymharu â diffyg o £4.2 miliwn yn y flwyddyn flaenorol tra cynyddodd y ddarpariaeth ar gyfer cynllun pensiwn USS o £19.4 miliwn yn 2019/20 i £20.9 miliwn yn 2020/21.

Ar ôl i'r cynllun adrodd diffyg ar 31 Gorffennaf 2020, canlyniad y tybiaethau prisio ar 31 Gorffennaf 2021 yw bod y cynllun wedi dychwelyd gwarged. Yn unol ag adroddiadau blaenorol, cydnabyddir hyn yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Cymharol ychydig yw'r materion sy'n teilyngu sylw mewn perthynas â'r Datganiad Sefyllfa Ariannol. Mae gwariant cyfalaf eleni wedi ei gyfyngu i'r buddsoddiadau ychwanegol sy'n deillio o'r arian cyfalaf ychwanegol a nodir uchod, nad yw ond yn rhannol yn gwrthbwyso'r tâl dibrisiad, gan esbonio felly pam fod gostyngiad mewn asedau anghyfredol. Cynyddodd asedau cyfredol net oherwydd gwelliant mewn cynhyrchu arian parod yn ystod y flwyddyn gan arwain at falansau arian parod cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl cynnwys arian parod sy'n cael ei ddal fel buddsoddiadau mewn adneuon dros dri mis, wedi cynyddu bron i £11.5miliwn i £44.3m. Cafodd hyn ei wrthbwyso gan gynnydd mewn incwm gohiriedig, gan arwain at gynnydd o £5.3 miliwn mewn asedau cyfredol net.

Sefyllfa asedau net cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £234.8m, i fyny o £226.4m. Mewn perthynas â llif arian, cynyddodd y mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol i £20.4m, cynnydd o 65% ar yr arian parod a gynhyrchwyd yn y flwyddyn flaenorol, sef £12.4m, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn EBITDA addasedig.

## CYNLLUNIAU PENSIWN

Cwblhawyd prisiad tair blynedd 'Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor' (BUPAS) 2020 yn ystod 2020/21, a chytunwyd ar atodlen cyfraniadau newydd gyda'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn. Y ffigyrau sy'n sail i'r prisiad hwnnw a ddarparodd y sail ar gyfer ffigyrau prisiad 31 Gorffennaf 2021 sydd wedi ei gynnwys yn y cyfrifon hyn.

Bu'n bryder mawr i'r brifysgol, ac i'r sector addysg uwch, bod y cynllun cenedlaethol i staff academaidd a chysylltiedig (USS) wedi wynebu diffygion cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cynhaliodd USS brisiad tair blynedd yn seiliedig ar Fawrth 2020 er nad oedd canlyniad y prisiad wedi'i gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2021. Yn dilyn hynny, cytunodd y Cyd-bwyllgor Negodi, gan gynnwys cynrychiolwyr y cyflogwyr a'r gweithwyr y mae cynllun yr USS yn effeithio arnynt, nifer o newidiadau yn strwythur y buddion a mesurau eraill i gryfhau cyfamod y cyflogwr. Derbyniwyd y newidiadau arfaethedig hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr USS ac ymgynghorir yn eu cylch. Mae'r Atodlen Cyfraniadau yr ymgynghorir yn ei chylch yn cynnwys dim ond cynnydd ymylol mewn cyfraddau cyfrannu.


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# ADOLYGIAD STRATEGOL

Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021

Defnyddiwyd y tybiaethau ym mhrisiad Mawrth 2020 ar gyfer cyfrifo'r darpariaethau ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Gorffennaf 2021, gan mai dyna'r amcangyfrif diweddaraf yr oedd yn ofynnol i bob cyflogwr ei ddilyn wrth wneud cyfraniadau o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

## POLISÏAU AC AMCANION Y TRYSORLYS

Mae gan y brifysgol nifer o gronfeydd yn deillio o gymynroddion a rhoddion eraill, sy'n cael eu cydnabod yn y cyfrifon hyn fel naill ai gwaddolion neu roddion gyda neu heb gyfyngiadau. Bu'r cronfeydd hyn yn cael eu buddsoddi ar sail gyfun a'u rheoli gan yr UBS Group yn unol â pholisi buddsoddi cynaliadwy'r brifysgol. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd y cronfeydd adenillion o £1.1miliwn ochr yn ochr ag incwm o £343k, a chyfanswm gwerth y cronfeydd a fuddsoddwyd ar ddiwedd y flwyddyn oedd £6.9m (2019/20 £5.9m).

## LLIF ARIAN A HYLIFEDD

Caeodd sefyllfa llif arian a hylifedd y brifysgol mewn sefyllfa well. Cynyddodd asedau cyfredol net i £29.4miliwn (2018/19 £24.2miliwn). Gwellodd mewnlif arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredol i £20.1 miliwn (2018/19 £12.4miliwn).

Mae'r sefyllfa hylifedd ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli lefel normal ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac fe'i cyfnerthir gan gyfleuster credyd cylchol gyda Santander na chafodd ei ddefnyddio yn ystod 2020/21 ond yr ydym yn dal gafael ynddo i gefnogi anwadalrwydd mewn llifoedd arian yn ystod y flwyddyn os oes angen.

## ARIAN CYFALAF

Cafwyd gwariant o £8.9miliwn ar brojectau cyfalaf yn 2020/21 (2019/20 £5.8miliwn). Buddsoddwyd mewn cynnal yr ystad ac mewn asedau offer sy'n cefnogi gweithgarwch addysgu ac ymchwil a gweithgarwch y gwasanaethau proffesiynol ar draws yr holl safleoedd a ddefnyddiwn.

## BUSNES HYFYW

Mae gweithgareddau'r Grŵp a'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ddatblygiad, perfformiad, sefyllfa ariannol, llifoedd arian, hylifedd a chyfleusterau benthyca, i'r dyfodol wedi'u nodi yn yr Adolygiad Strategol sy'n rhan o'r Adolygiad Blynyddol.

Mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn cyflawni ei ofynion o ran cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy falansau arian parod anghyfyngedig presennol, sy'n ddigonol i gwrdd â rhwymedigaethau fel y dônt yn ddyledus hyd y gellir rhagweld. Mae'r Cyngor wedi paratoi gwybodaeth fanwl am lif arian ar gyfer 2021/22 a 22/23. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, o ystyried risgiau anfantais difrifol ond credadwy, gan gynnwys effaith bosibl y pandemig, y bydd gan y Grŵp a'r Brifysgol ddigon o arian i gyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes hyfyw).

Parhaodd y pandemig coronafeirws i effeithio ar y Brifysgol, yn weithredol ac yn ariannol, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021. Amcangyfrifir y bydd y Brifysgol yn parhau i gael ei heffeithio yn y blynyddoedd i ddod. Mewn ymateb, mae'r Brifysgol yn parhau i reoli ei chostau a'i phrojectau gwariant cyfalaf yn ofalus.

Er bod y sefyllfa'n esblygu'n gyson gan wneud cynllunio senarios yn anodd, asesodd y Brifysgol nifer o senarios a oedd yn amcangyfrif effeithiau ariannol amrywiol y pandemig ar nifer o feysydd, yn enwedig niferoedd myfyrwyr a chynhyrchu incwm ffioedd ynghyd ag incwm neuaddau ac incwm masnachol.

Mae gan y Brifysgol Gyllideb ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar y sefyllfa o ran recriwtio myfyrwyr, ynghyd â rheolaeth dros wariant cyfalaf i gynnal hylifedd. Nid oes gan y Brifysgol unrhyw gynlluniau i gynyddu lefel ei chyfleusterau cyllido, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â chynlluniau cymorth y llywodraeth lle bo hynny'n briodol, y tu hwnt i'r rhai hynny oedd ar waith ar 31 Gorffennaf 2021 yn ystod y cyfnod asesu busnes hyfyw. Ni thorrwyd unrhyw gyfamodau bancio ac ni ragwelir y bydd hynny'n digwydd yn ystod y cyfnod asesu busnes hyfyw.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r Cyngor o'r farn bod y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol yn gallu rheoli ei risgiau cyllid a'i risgiau busnes ac yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly paratowyd datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.



# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL BANGOR

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

## ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Bangor ("y Brifysgol") am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 sy'n cynnwys Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol a Phrifysgol, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn Cyfunol a Phrifysgol, Mantolenni Cyfunol a Phrifysgol, Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y Datganiad Polisïau Cyfrifo.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2021, ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Brifysgol, enillion a cholledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, ac o lif arian y Grŵp, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland, a chyda Statement of Recommended Practice – Accounting for Further and Higher Education 2019; ac
- wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail y farn

Penodwyd ni yn archwiliwr o dan Siarterau a Statudau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno.

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) a chyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan, ac rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â, gofynion moesegol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn sail ddigonol a phriodol i ni roi barn.

### Busnes hyfyw

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw gan nad ydynt yn bwriadu datod y Grŵp na'r Brifysgol na rhoi'r gorau i weithredu, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Daethant hefyd i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd materol berthnasol a allai fod wedi bwrw amheuaeth sylweddol ar eu gallu i barhau fel busnes hyfyw am o leiaf blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("y cyfnod busnes hyfyw").

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r Cyngor, ystyriom y risgiau cynhenid i fodel busnes y grŵp, a dadansoddi sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu ar eu gallu i barhau i weithredu dros y cyfnod busnes hyfyw.

Dyma ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym o'r farn bod defnydd y Cyngor o sail cyfrifo busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi nodi, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor nad oes, ansicrwydd materol berthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw ar gyfer y cyfnod busnes hyfyw.

Fodd bynnag, gan na allwn ragfynegi pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau o'r fath arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol pan gawsant eu ffurfio, nid yw'r casgliadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

### Twyll a thorri deddfau a rheoliadau - y gallu i ganfod

#### Nodi ac ymateb i risgiau camddatgan materol berthnasol oherwydd twyll

Er mwyn nodi risgiau camddatgan materol berthnasol oherwydd twyll ("risgiau twyll") gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys.

- Holi'r llywodraethwyr ac archwilio dogfennau polisi ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Brifysgol i atal a chanfod twyll, a pholisi datgelu er lles y cyhoedd "chwythu'r chwiban" yn ogystal â gweld a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, neu a ydynt yn amau twyll neu'n gwybod am honiadau o dwyll.
- Darllen Cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom gyfathrebu'r risgiau twyll a nodwyd trwy'r tîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll trwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol yn ôl y safonau archwilio, rydym yn dilyn gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg bod rheolwyr yn diystyru camau rheoli a'r risg o gydnabod refeniw twyllodrus, yn enwedig y risg bod refeniw yn cael ei gofnodi yn y cyfnod cywir.

Ni wnaethom nodi unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Dilynom weithdrefnau gan gynnwys:

- Nodi cofnodion yn y dyddlyfr i'w profi yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â dogfennaeth ategol. Roeddent yn cynnwys y rhai hynny a bostiwyd gan uwch reolwyr cyllid, cofnodion dyddlyfr diwedd blwyddyn yn cefnogi balansau Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor (BUPAS), cyfuniadau anarferol rhwng codau refeniw a mantolen a chofnodion dyddlyfr ffioedd dysgu a bostiwyd i gyfrifon anarferol.
- Profom samplau o incwm arian parod ar gyfer cyrsiau a oedd yn rhychwantu diwedd blwyddyn 31 Gorffennaf 2021 yn erbyn dogfennaeth ategol i brofi bod refeniw wedi'i gofnodi yn y cyfnod cywir.

#### Nodi ac ymateb i risgiau camddatgan materol berthnasol oherwydd diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau

Gwnaethom nodi meysydd o fewn deddfau a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith faterol berthnasol ar y datganiadau ariannol yn ein profiad masnachol a'n profiad cyffredinol yn y sector, trwy drafod gyda'r rheolwyr (fel sy'n ofynnol yn ôl y safonau archwilio) a thrwy drafod gyda'r rheolwyr y polisïau a'r gweithdrefnau o ran cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau.

Gan fod y Brifysgol yn cael ei rheoleiddio, roedd ein hasesiad o risgiau'n cynnwys magu dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli gan gynnwys gweithdrefnau'r endid ar gyfer cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol.

Gwnaethom gyfathrebu'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd gennym ledled ein tîm a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y deddfau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol, deddfwriaeth trethiant, deddfwriaeth pensiynau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch / addysg a sgiliau ôl-16, deddfwriaeth elusennau a deddfwriaeth gysylltiedig ac asesom hyd a lled y cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau cysylltiedig y datganiad ariannol.

Yn ail, mae'r Brifysgol yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfiaeth gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft trwy orfodi dirwyon neu ymgyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: Cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, Deddfwriaeth cyflogaeth a nawdd cymdeithasol, twyll llygredd a llwgrwobrwyo, Gwyngalchu arian, a chydnabod natur reoledig gweithgarwch y Brifysgol.

Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau hyn i ymchwiliad llywodraethwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl. Felly, os na chaiff achos o dorri rheoliadau gweithredol ei ddatgelu i ni neu os nad yw'n amlwg o ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y methiant hwnnw.

#### Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dor-cyfraith neu dor-rheoliad

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel na fyddwn wedi canfod rhai camddatganiadau materol berthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a pherfformio ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw'r diffyg cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw'r gweithdrefnau cynhenid gyfyngedig a wneir yn ofynnol gan y safonau archwilio o'u canfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod twyll, gan y gallai hynny gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru camau rheoli mewnol.


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL BANGOR

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

Dyluniwyd ein gweithdrefnau archwilio i ganfod camddatganiadau materol berthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth yn achos pob deddf a rheoliad.

### Gwybodaeth arall

Y Cyngor sy'n gyfrifol am weddill yr wybodaeth, sef yr Adolygiad Strategol a'r Datganiad Budd Cyhoeddus, a'r Datganiadau Llywodraethu Corfforaethol a Chyfrifoldebau'r Cyngor. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â gweddill yr wybodaeth ac felly nid ydym yn mynegi barn archwilio nac yn dod i unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am yr wybodaeth honno, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen gweddill yr wybodaeth ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth ynddi, yn seiliedig ar ein gwaith yn archwilio'r datganiadau ariannol, yn gamddatganiad materol berthnasol neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio. Mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi:

- yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, os ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol yng ngweddill yr wybodaeth; ac
- yn ein barn ni, fod yr wybodaeth a roddir yn yr Adolygiad Strategol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

### Materion y mae angen i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r elusen wedi bod yn cadw cofnodion cyfrifo digonol; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifo; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

### Cyfrifoldebau'r Cyngor

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn eu datganiad a nodir ar dudalen 123, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol a bodloni eu bod yn rhoi golwg wir a theg; camau rheoli mewnol fel sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor i alluogi paratoi datganiadau ariannol lle na cheir unrhyw gamddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes hyfyw; a defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r rhiant-brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu bod dim dewis arall realistig ond gwneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r Archwiliwr

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol na cheir yn y datganiadau ariannol, drwodd a thro, gamddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyflwyno ein barn mewn adroddiad archwiliwr. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn canfod camddatganiad materol berthnasol pan fo un yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu'n yn gyfun, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed yn seiliedig ar y datganiadau ariannol.

Ceir disgrifiad llawnach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.**

## ADRODDIAD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIO ERAILL

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('HEFCW') a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd faterol:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli'n unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae'r cyllid a ddarparwyd gan HEFCW wedi'i ddefnyddio'n unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw delerau ac amodau eraill sy'n gysylltiedig ag ef a'i ddefnyddio at y dibenion y cafodd ei dderbyn; a bodlonwyd
- gofynion cyfarwyddiadau cyfrifon HEFCW.

## PWRPAS EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY Y MAE EIN CYFRIFOLDEBAU NI YN DDYLEDUS

Llunnir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig, yn unol ag Erthygl 12(ii) o Siartrau a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno. Gwnaed ein gwaith archwilio er mwyn i ni gael datgan y materion hynny y mae angen i ni eu datgan wrth y Cyngor mewn adroddiad archwiliwr ac i ddim diben arall. Hyd yr eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r Brifysgol a'i Chyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn y daethom iddi.

**Timothy Cutler**
dros ac ar ran KPMG LLP,
Archwiliwr Statudol

**Cyfrifwyr Siartredig**
1 St Peter's Square
Manchester, M2 3AE



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIAD CYFUNOL O INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| | | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Incwm** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **75,771** | **75,771** | 82,418 | 82,418 |
| Grantiau cyrff cyllido | 2 | **30,297** | **30,297** | 17,538 | 17,538 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **23,385** | **23,385** | 21,551 | 21,551 |
| Incwm arall | 4 | **23,211** | **20,470** | 25,127 | 22,297 |
| Incwm buddsoddi | 5 | **461** | **593** | 545 | 619 |
| Gwaddolion a rhoddion | 6 | **243** | **243** | 517 | 516 |
| **Cyfanswm incwm** | | **153,368** | **150,759** | 147,696 | 144,939 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff | 7 | **86,223** | **84,851** | 84,599 | 82,994 |
| Symudiad yn Narpariaeth Pensiwn USS | 7 | **1,323** | **1,323** | (11,384) | (11,384) |
| Treuliau gweithredu eraill | | **47,884** | **47,046** | 44,336 | 43,444 |
| Dibrisiad | 11 | **14,282** | **13,853** | 13,257 | 12,838 |
| Llog a chostau cyllid eraill | 8 | **5,205** | **5,190** | 5,812 | 5,634 |
| **Cyfanswm gwariant** | 9 | **154,917** | **152,263** | 136,620 | 133,526 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn enillion/(colledion) eraill a chyfran o warged gweithredu menter ar y cyd** | | **(1,549)** | **(1,504)** | 11,076 | 11,413 |
| Enillion / (Colled) ar waredu asedau sefydlog | | **(69)** | **(69)** | 28 | 28 |
| Enillion / (Colled) ar fuddsoddiadau | | **1,075** | **1,075** | (218) | (218) |
| Cyfran o (ddiffyg) / gwarged gweithredu mewn mentrau ar y cyd | 15 | **(20)** | **0** | 38 | 0 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | **(563)** | **(498)** | 10,924 | 11,223 |
| Trethiant | 10 | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn wedi ei briodoli i:** | | **(563)** | **(498)** | 10,924 | 11,223 |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth Pensiwn | 21 | **8,934** | **8,934** | (10,266) | (10,266) |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **8,371** | **8,436** | 658 | 957 |
| **Cynrychiolir gan:** | | | | | |
| Incwm gwaddol cynhwysfawr am y flwyddyn | | **1,235** | **1,235** | 0 | 0 |
| Incwm cyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn | | **87** | **87** | 34 | 34 |
| Incwm anghyfyngedig cynhwysfawr am y flwyddyn | | **7,049** | **7,114** | 624 | 923 |
| | | **8,371** | **8,436** | 658 | 957 |
| **Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn wedi ei briodoli i:** | | | | | |
| Budd anrheolaethol | | **(20)** | **0** | 38 | 0 |
| Prifysgol | | **(543)** | **(498)** | 10,886 | 11,223 |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr am y flwyddyn wedi ei briodoli i:** | | | | | |
| Budd anrheolaethol | | **(20)** | **0** | 38 | 0 |
| Prifysgol | | **8,391** | **8,436** | 620 | 957 |

Mae holl eitemau cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.
Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 84 i 120 yn rhan o'r datganiadau ariannol.





# DATGANIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A PHRIFYSGOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| **Cyfunol** | | **Cyfrif incwm a gwariant** | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaddol | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | **Cyfanswm** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| **Ar 1 Awst 2019 (Ailddatganwyd)** | **7,103** | **580** | **218,089** | **225,772** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 303 | 166 | 10,455 | 10,924 |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | (10,266) | (10,266) |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (303) | (132) | 435 | 0 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 0 | 34 | 624 | **658** |
| **Ar 1 Awst 2020** | **7,103** | **614** | **218,713** | **226,430** |
| Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 1,481 | 133 | (2,177) | **(563)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | 8,934 | **8,934** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (246) | (46) | 292 | **0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 1,235 | 87 | 7,049 | **8,371** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **8,338** | **701** | **225,762** | **234,801** |

| **Prifysgol** | | **Cyfrif incwm a gwariant** | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaddol | Cyfyngedig | Anghyfyngedig | **Cyfanswm** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| **Ar 1 Awst 2019 (Ailddatganwyd)** | **7,103** | **580** | **218,298** | **225,981** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 303 | 166 | 10,754 | **11,223** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | (10,266) | **(10,266)** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (303) | (132) | 435 | **0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 0 | 34 | 923 | **957** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **7,103** | **614** | **219,221** | **226,938** |
| Gwarged/(diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 1,481 | 133 | (2,112) | **(498)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | 0 | 0 | 8,934 | **8,934** |
| Rhyddhau cronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (246) | (46) | 292 | **0** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | 1,235 | 87 | 7,114 | **8,436** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **8,338** | **701** | **226,335** | **235,374** |

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 84 i 120 yn rhan o'r datganiadau ariannol.

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL CYFUNOL A PHRIFYSGOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| | | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Asedau sefydlog | 11 | **313,168** | **307,862** | 320,527 | 314,854 |
| Buddsoddiadau | 14 | **6,999** | **7,049** | 5,959 | 6,009 |
| Buddsoddiad mewn menter ar y cyd | 15 | **155** | **0** | 175 | 0 |
| | | **320,322** | **314,911** | 326,661 | 320,863 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | 16 | **51** | **30** | 68 | 43 |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 17 | **24,744** | **30,943** | 25,606 | 32,010 |
| Buddsoddiadau | 18 | **0** | **0** | 5,133 | 5,133 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | 24 | **44,322** | **43,083** | 27,693 | 27,089 |
| | | **69,117** | **74,056** | 58,500 | 64,275 |
| Llai: Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 19 | **(39,675)** | **(38,693)** | (34,315) | (33,824) |
| **Asedau cyfredol net** | | **29,442** | **35,363** | 24,185 | 30,451 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **349,764** | **350,274** | 350,846 | 351,314 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 20 | **(97,373)** | **(97,310)** | (100,598) | (100,558) |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Darpariaethau pensiwn | 21 | **(17,312)** | **(17,312)** | (23,628) | (23,628) |
| Darpariaethau eraill | 21 | **(279)** | **(279)** | (190) | (190) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **234,800** | **235,373** | 226,430 | 226,938 |
| **Cronfeydd Cyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa gwaddol | 22 | **8,338** | **8,338** | 7,103 | 7,103 |
| Cronfa incwm a gwariant | 23 | **701** | **701** | 614 | 614 |
| **Cronfeydd Anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant | | **225,762** | **226,335** | 218,713 | 219,221 |
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | **234,801** | **235,374** | 226,430 | 226,938 |

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 84 i 120 yn rhan o'r datganiadau ariannol.
Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 11 Chwefror 2022 a chawsant eu llofnodi gan:

Yr Athro Iwan Davies
Is-ganghellor

Mrs Marian Wyn Jones
Cadeirydd y Cyngor

Syr Paul Lambert
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| | Nodiadau | **2020/21** **£'000** | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged / (Diffyg) am y flwyddyn | | **(563)** | 10,924 |
| **Addasiad ar gyfer eitemau nad arian parod mohonynt** | | | |
| Dibrisiad | 11 | **14,282** | 13,257 |
| Colled / (Enillion) ar fuddsoddiadau | | **(1,075)** | 218 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn stoc | 16 | **17** | 41 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn dyledwyr | | **862** | (3,949) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr | | **5,834** | 1,591 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) yn y ddarpariaeth pensiwn | 21 | **2,618** | (10,346) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaethau eraill | 21 | **89** | (548) |
| Cyfran o warged gweithredu mewn mentrau ar y cyd | 15 | **20** | (38) |
| | | **22,647** | 226 |
| **Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu gyllido** | | | |
| Incwm grant cyfalaf | | **(6,209)** | (3,217) |
| Adenillion ar werthu asedau sefydlog | | **69** | (28) |
| Incwm buddsoddi | 5 | **(461)** | (545) |
| Llog sy'n daladwy | 8 | **4,988** | 5,333 |
| Incwm gwaddol | 6 | **(65)** | (313) |
| | | **(1,678)** | 1,230 |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **20,406** | 12,380 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Derbyniadau grant cyfalaf | | **6,177** | 3,185 |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog | | **1,456** | 343 |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | | **(8,929)** | (5,758) |
| Incwm buddsoddi | 5 | **461** | 545 |
| Gwaredu buddsoddiadau asedau cyfredol | 18 | **5,133** | 5,330 |
| Buddsoddiadau asedau anghyfredol newydd | | **(3,754)** | (3,848) |
| Gwaredu buddsoddiadau asedau anghyfredol | | **3,786** | 3,787 |
| | | **4,330** | 3,584 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Llog a dalwyd | 8 | **(1,164)** | (1,418) |
| Elfen log prydles gyllidol a thaliadau consesiwn gwasanaeth | 8 | **(3,824)** | (3,915) |
| Arian parod gwaddol a dderbynnir | 22 | **65** | 313 |
| Ad-dalu prydlesi cyllidol a chonsesiynau gwasanaeth | 19/20 | **(1,618)** | (469) |
| Benthyciadau ansicredig newydd | 19/20 | **1,051** | 2,614 |
| Ad-dalu benthyciadau sicredig | 19/20 | **(329)** | (305) |
| Ad-dalu benthyciadau ansicredig | 19/20 | **(2,288)** | (4,503) |
| | | **(8,107)** | (7,683) |
| **Cynnydd) / (Gostyngiad) mewn arian parod a chywerthoedd arian parod yn y flwyddyn** | | **16,629** | 8,281 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 24 | **27,693** | 19,412 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 24 | **44,322** | 27,693 |
| | | **16,629** | 8,281 |

Mae'r Datganiad Polisïau Cyfrifo a'r Nodiadau ar dudalennau 84 i 120 yn rhan o'r datganiadau ariannol

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**



1. **Gwybodaeth gyffredinol**
   Mae Prifysgol Bangor wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (rhif 1141565). Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG.

2. **Sail paratoi**
   Paratowyd y datganiadau ariannol Cyfunol a Phrifysgol yn unol â Safonau Cyfrifeg y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch a gyhoeddwyd yn 2015. Fe'u paratowyd hefyd yn unol â phwerau a dyletswyddau a 'ddygwyd ymlaen' o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosglwyddo hyd 31 Gorffennaf 2021, y Siarter Frenhinol a'r Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

   Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi gweithredu gofynion budd cyhoeddus perthnasol deddfau a safonau cyfrifeg y Deyrnas Unedig.

   Paratowyd y datganiadau ariannol Cyfunol a Phrifysgol o dan y confensiwn cost hanesyddol (a addaswyd trwy ailbrisio rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol ar werth teg).

   Paratoir y datganiadau ariannol mewn sterling sef arian cyfred gweithredol y grŵp a chaiff y symiau eu talgrynnu i'r £'000 agosaf.

3. **Eithriadau o dan FRS 102**
   Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad a geir o dan adran 3.3 SORP (1.12(b) yn FRS 102) i beidio â chynhyrchu datganiad llif arian ar gyfer y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

4. **Sail cyfuno**
   Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran canlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2021.

   Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi eu cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu. Caiff trafodion rhyng-grŵp eu dileu pan gânt eu cyfuno.

   Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion rhyng-grŵp yn cael eu dileu yn llawn. Mae symiau mewn perthynas â dyledion a hawliadau rhwng ymgymeriadau sydd wedi'u cynnwys wrth gyfuno hefyd yn cael eu dileu. Ni chaiff balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiedig a'i mentrau ar y cyd eu dileu. Mae trafodion masnachu arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y fantolen yn cael eu cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae unrhyw enillion neu golledion wedi'u cynnwys yn swm cario asedau'r naill endid neu'r llall, a chaiff y rhan sy'n ymwneud â chyfran y Brifysgol ei dileu.

   Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr gan nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol dros benderfyniadau polisi.

   Defnyddir y dull ecwiti i roi cyfrif am fentrau ar y cyd.

5. **Busnes Hyfyw**
   Mae gweithgareddau'r Grŵp a'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad, ei berfformiad a'i safle yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adolygiad Strategol sy'n rhan o'r Adolygiad Blynyddol. Mae'r Adolygiad Blynyddol hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y sefydliad, ei lif arian, ei sefyllfa hylifedd a'i gyfleusterau benthyca. Mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn cyflawni ei ofynion o ran cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy falansau arian parod anghyfyngedig presennol, sy'n ddigonol i gwrdd â rhwymedigaethau fel y dônt yn ddyledus hyd y gellir rhagweld. Mae'r Cyngor wedi paratoi gwybodaeth fanwl am lif arian ar gyfer 2021/22 a 22/23. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, o ystyried risgiau anfantais difrifol ond credadwy, gan gynnwys effaith bosibl y pandemig, y bydd gan y Grŵp a'r Brifysgol ddigon o arian i gyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes hyfyw).

   Parhaodd y pandemig coronafeirws i effeithio ar y Brifysgol, yn weithredol ac yn ariannol, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021. Amcangyfrifir y bydd y Brifysgol yn parhau i gael ei heffeithio yn y blynyddoedd i ddod. Mewn ymateb, mae'r Brifysgol yn parhau i reoli ei chostau a'i phrojectau gwariant cyfalaf yn ofalus.

   Er bod y sefyllfa'n esblygu'n gyson gan wneud cynllunio senarios yn anodd, asesodd y Brifysgol nifer o senarios a oedd yn amcangyfrif effeithiau ariannol amrywiol y pandemig ar nifer o feysydd, yn enwedig niferoedd myfyrwyr a chynhyrchu incwm ffioedd ynghyd ag incwm neuaddau ac incwm masnachol.

   Mae gan y Brifysgol Gyllideb ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar y sefyllfa o ran recriwtio myfyrwyr, ynghyd â rheolaeth dros wariant cyfalaf i gynnal hylifedd. Nid oes gan y Brifysgol unrhyw gynlluniau i gynyddu lefel ei chyfleusterau cyllido, ac eithrio'r rhai sy'n gysylltiedig â chynlluniau cymorth y llywodraeth lle bo hynny'n briodol, y tu hwnt i'r rhai hynny oedd ar waith ar 31 Gorffennaf 2021 yn ystod y cyfnod asesu busnes hyfyw. Ni thorrwyd unrhyw gyfamodau bancio ac ni ragwelir y bydd hynny'n digwydd yn ystod y cyfnod asesu busnes hyfyw.

   O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r Cyngor o'r farn bod y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol yn gallu rheoli ei risgiau cyllid a'i risgiau busnes ac yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly paratowyd datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

6. **Cydnabod incwm**
   Caiff incwm o werthiant nwyddau neu wasanaethau ei gredydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol pan gaiff y nwyddau neu'r gwasanaethau eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fo telerau'r contract wedi cael eu bodloni.

   Caiff incwm ffioedd ei ddatgan fel ffigwr gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfunol dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio. Lle mae swm y ffioedd dysgu wedi ei ostwng, er enghraifft, drwy ddisgownt am dalu'n brydlon neu ffurf arall ar hepgoriad, dangosir yr incwm a dderbynnir fel ffigwr net o unrhyw ostyngiadau o'r fath. Mae taliadau bwrsariaethau ac ysgoloriaethau wedi eu cyfrifo'n gros fel gwariant ac nid ydynt wedi'u didynnu o incwm.

   Caiff incwm buddsoddi ei gredydu i'r datganiad incwm a gwariant ar sail dderbyniadwy.

   Nid yw cyllid y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn a'i alldalu fel asiant talu ar ran corff cyllido wedi ei gynnwys yn incwm a gwariant y Brifysgol lle nad oes fawr ddim risg na budd economaidd i'r Brifysgol mewn perthynas â'r trafodyn.

   **Cyllid grant**
   Caiff cyllid grant yn cynnwys grant bloc gan gyngor cyllido, grantiau ymchwil o ffynonellau llywodraeth a grantiau (yn cynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau an-llywodraethol eu cydnabod fel incwm lle mae gan y Brifysgol hawl i'r incwm a lle mae amodau'n ymwneud â pherfformiad wedi cael eu cyflawni. Caiff incwm a dderbynnir ymlaen llaw cyn cyflawni amodau'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y fantolen a'i ryddhau i incwm wrth i'r amodau gael eu cyflawni.

   **Rhoddion a gwaddolion**
   Mae trafodion digyfnewid nad oes iddynt amodau'n ymwneud â pherfformiad yn rhoddion a gwaddolion.

   Caiff rhoddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau gan y rhoddwr yn gysylltiedig â nhw eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid. Cedwir yr incwm o fewn y gronfa gyfyngedig hyd nes caiff ei ddefnyddio yn unol â'r cyfryw gyfyngiadau pryd y caiff yr incwm ei ryddhau drwy drosglwyddiad i gronfeydd cyffredinol.

   Caiff rhoddion heb gyfyngiadau eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid.

   Cofnodir incwm buddsoddi ac adbrisiant gwaddolion mewn incwm yn y flwyddyn pan mae'n codi naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r gronfa waddol unigol. Ceir pedwar prif fath o roddion a gwaddolion o fewn cronfeydd:

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)

**YEAR ENDED 31 JULY 2021**

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid defnyddio'r rhodd ar gyfer amcan neilltuol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod y cyllid i'w fuddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu amcan neilltuol ac eithrio prynu neu adeiladu asedion diriaethol sefydlog, ac mae gan y Brifysgol rym i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod y cyllid i'w fuddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio ar gyfer amcan neilltuol.

**Grantiau cyfalaf**

Caiff grantiau cyfalaf eu cydnabod mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r cyllid yn amodol ar gyflawni unrhyw amodau'n ymwneud â pherfformiad.

**7. Cyfrifo buddion ymddeol**

Y ddau brif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) a Chynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS). Mae'r cynlluniau'n gynlluniau â buddion wedi'u diffinio a gyllidir yn allanol ac sydd wedi eu contractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Caiff y ddwy gronfa eu prisio bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol gyda chymwysterau proffesiynol.

Cynllun aml-gyflogwr â buddion wedi'u diffinio yw'r USS ac nid yw'n bosibl nodi'r asedau a'r rhwymedigaethau yn ôl y prifysgolion sy'n aelodau oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun ac felly cyfrifir y cynllun hwn fel cynllun buddion ymddeol â chyfraniadau wedi'u diffinio. Cofnodir rhwymedigaeth o fewn y darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad contract i ariannu diffygion yn y gorffennol yng nghynllun yr USS.

**Cynllun â Chyfraniadau wedi'u Diffinio**

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio lle mae'r Brifysgol yn talu cyfraniadau sefydlog i endid ar wahân ac ni fydd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na thrwy ddehongliad arno i dalu symiau pellach. Caiff rhwymedigaethau am gyfraniadau i gynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pryd y rhoddwyd gwasanaethau gan weithwyr.

**Cynlluniau aml-gyflogwr**

Pan na all y Brifysgol nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol mewn cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, bydd yn cyfrifo fel pe bai'r cynllun yn gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio. Pan fo'r Brifysgol wedi mynd i gytundeb â chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut y bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adfer diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rhwymedigaeth dros y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n deillio o'r cytundeb, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg, a chaiff y draul o ganlyniad i hynny ei chydnabod fel gwariant.

**Cynlluniau â buddion wedi'u diffinio**

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun â chyfraniadau wedi'u diffinio yw cynllun â buddion wedi'u diffinio. Dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion y cytunwyd arnynt i weithwyr presennol ac i gyn-weithwyr, ac mae'r risg actiwaraidd (y bydd y buddion yn costio mwy neu lai nag a ddisgwyliwyd) a'r risg buddsoddi (y bydd adenillion ar asedau a neilltuwyd i gyllido'r buddion yn wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd) yn cael eu dwyn, yn eu hanfod, gan y Brifysgol.

Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y fantolen mewn perthynas â phob cynllun a dyma werth presennol y rhwymedigaeth ar gyfer buddion wedi'u diffinio ar y dyddiad adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Dylai'r Grŵp gydnabod rhwymedigaeth am ei ymrwymiadau dan gynlluniau â buddion wedi'u diffinio yn net o asedau'r cynllun. Caiff y rhwymedigaeth hon am fuddion net wedi'u diffinio ei mesur fel amcangyfrif o swm y buddion y mae gweithwyr wedi ei ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnod cyfredol ac mewn cyfnodau blaenorol, wedi'i ddisgowntio i bennu ei werth presennol, llai gwerth teg asedau'r cynllun (ar bris bidio).

Gwneir y cyfrifiad hwn gan actiwari cymwysedig yn defnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. O dan adran 28.22 (Buddion Gweithwyr - ased cynllun â buddion wedi'u diffinio) yn FRS 102 nid yw'r Brifysgol yn cydnabod gwarged y cynllun gan nad yw'n gallu adennill y gwarged trwy gyfraniadau is yn y dyfodol na thrwy ad-daliadau o'r cynllun. Mae darpariaeth yn y Weithred Ymddiriedolaeth i'r Brifysgol, yn unochrog, ddirwyn Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor i ben, ac os digwydd hynny bod unrhyw symiau gweddilliol ar ôl setlo holl rwymedigaethau'r cynllun yn cael eu had-dalu i'r Brifysgol. O ganlyniad, mae'r Brifysgol wedi penderfynu bod ganddi hawl ddiamod i gael ad-daliad wrth ddirwyn i ben. Fodd bynnag, mae darpariaeth yn y Weithred Ymddiriedolaeth hefyd i Ymddiriedolwyr y Gronfa drosglwyddo polisïau blwydd-dal i enwau aelodau unigol heb fod angen cydsyniad y Brifysgol. Oherwydd bodolaeth yr hawliau hynny i Ymddiriedolwyr y Gronfa, mae'r Brifysgol o'r farn ei bod yn briodol peidio â chydnabod y gwarged o fewn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r Gronfa Bensiwn.

Bob blwyddyn mae'r Brifysgol yn cyflogi actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Pennir y gwerth presennol trwy ddisgowntio taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol ar gyfradd ddisgowntio sy'n seiliedig ar gynnyrch y farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel mewn sterling sydd â thelerau sy'n cyfateb i gyfnod amcangyfrifedig y taliadau yn y dyfodol.

Caiff gwerth teg asedau cynllun ei fesur yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiad a newidiadau i dybiaethau actiwaraidd eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun â buddion wedi'u diffinio, a gydnabyddir mewn gwariant fel costau staff, ac eithrio pan gaiff ei gynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd o ran y rhwymedigaeth buddion pensiwn sy'n deillio o wasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod a chost cyflwyno i'r cynllun, newidiadau i fuddion, cwtogiadau, a setliadau. Cyfrifir cost llog net trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgowntio i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost hon mewn gwariant fel cost cyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn Nodyn 29 y cyfrifon.

**8. Buddion cyflogaeth**

Caiff buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau digolledol eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn pryd y rhoddodd y gweithwyr wasanaeth i'r Brifysgol. Cronnir unrhyw fuddion na ddefnyddir a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl na ddefnyddiwyd.

**9. Prydlesi cyllidol**

Caiff prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo yn eu hanfod yr holl risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased ar brydles eu dosbarthu fel prydlesi cyllidol. Mae asedau ar brydles a gafodd eu caffael drwy brydles gyllidol a rhwymedigaethau'r prydlesi hynny'n cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar swm sy'n hafal â'r isaf o blith eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf ar gychwyniad y brydles.

Caiff y taliadau prydles isaf eu dosrannu rhwng y tâl cyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Pennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod oes y brydles er mwyn rhoi cyfradd gyfnodol gyson o log ar y balans sy'n weddill o'r rhwymedigaeth.

**10. Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth**

Mae trafodion Mentrau Cyllid Preifat (PFI), sydd o fewn diffiniad trefniant consesiwn gwasanaeth, yn cael eu cyfrifo fel bod 'ar y Fantolen' gan y Brifysgol. Caiff yr asedau sylfaenol eu cydnabod fel Asedau Sefydlog ar eu gwerth teg fel y pennir hynny ym model y gweithredwyr. Cydnabyddir rhwymedigaeth ariannol gyfwerth yn unol â FRS 102.


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)

**YEAR ENDED 31 JULY 2021**

Caiff taliadau blynyddol y contract eu dosrannu rhwng ad-dalu'r rhwymedigaeth, cost cyllid a'r taliadau am wasanaethau. Cyfrifir y gost cyllid gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg ar gyfer y cynllun

Caiff y tâl gwasanaeth ei gydnabod yn y treuliau gweithredu a chodir y gost cyllid i Gostau Cyllid yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff elfen o'r cynnydd yn y tâl unedol blynyddol o ganlyniad i fynegeio cronnus ei dyrannu i'r brydles gyllidol. Yn unol â FRS 102, ni chaiff y swm hwn ei gynnwys yn y taliadau prydles isaf, ond yn hytrach caiff ei drin fel rhent amodol. Mewn gwirionedd, mae'r swm hwn yn gost cyllid mewn perthynas â'r rhwymedigaeth a chyflwynir y draul fel cost cyllid amodol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff costau adnewyddu cylch oes eu cydnabod mewn treuliau gweithredu yn seiliedig ar y rhaglen adnewyddu y mae'r gweithredwyr wedi ei chynllunio.

**11. Prydlesi gweithredol**

Codir costau'n ymwneud â phrydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff unrhyw bremiymau neu gymhellion prydles eu gwasgaru dros y cyfnod prydlesu lleiaf.

**12. Arian tramor**

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian swyddogaethol endidau'r Grŵp ar y gyfradd gyfnewid dramor ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau mewn arian tramor ar ddyddiad y fantolen eu trosi i'r arian swyddogaethol ar y gyfradd gyfnewid dramor ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid tramor a geir wrth drosi eu cydnabod fel Gwarged neu Ddiffyg.

Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol mewn arian tramor a gaiff eu datgan ar werth teg eu haildrosi i'r arian swyddogaethol ar gyfraddau cyfnewid tramor ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

**13. Eiddo, Peirianwaith ac Offer**

**Tir ac adeiladau**

Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar gost wrth eu cydnabod y tro cyntaf.

Ar ôl cael eu cydnabod y tro cyntaf caiff tir ac adeiladau eu mesur ar gost dybiedig llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Cafodd rhai tiroedd ac adeiladau eu hailbrisio i werth teg ar ddyddiad y trawsnewid i FE HE SORP 2015, ac fe'u mesurir ar sail cost dybiedig, sef swm yr ailbrisiad ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw. Gwnaed y prisiad gan gwmni proffesiynol cymwys o Syrfewyr Siartredig. Ni chafodd rhai asedau eu cynnwys yn y prisiad gan eu bod yn cael eu hystyried i'w gwaredu, eu dymchwel neu eu hadnewyddu'n sylweddol.

Caiff costau a gafwyd mewn perthynas â thir ac adeiladau ar ôl y prynu neu'r adeiladu cychwynnol eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu'r buddion a ddisgwylir i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliol gan yr ystyrir bod iddo oes fuddiol amhenodol. Oni bai eu bod yn cael eu cydrannu, caiff adeiladau rhydd-ddaliol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes fuddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 50 mlynedd |
| Adnewyddiadau i adeiladau | 15 mlynedd |

Lle bo'n briodol, caiff adeiladau eu cydrannu'n dair rhan: adeiladwaith, ffitiadau ac elfennau mecanyddol a pheirianegol. Nodir y rhain fel eitemau ar wahân o asedau sefydlog a chaiff pob rhan ei dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod eu hoes fuddiol:

| | |
|---|---|
| Adeiladwaith Hyd at 50 mlynedd | |
| Ffitiadau | Hyd at 20 mlynedd |
| Elfennau Mecanyddol a Pheirianegol | Hyd at 20 mlynedd |

Pan fo eitem o dir ac adeiladau'n cynnwys dwy neu ragor o brif elfennau a chanddynt oes economaidd ddefnyddiol sy'n sylweddol wahanol i'w gilydd, mae pob elfen yn cael ei chyfrif ar wahân a'i dibrisio dros ei hoes economaidd ddefnyddiol unigol. Mae gwariant sy'n ymwneud ag amnewid elfennau wedi hynny yn cael ei gyfalafu wrth i hynny ddigwydd.

Dibrisir gwelliannau i eiddo prydles dros gyfnod oes y brydles.

Ni chodir dibrisiad ar asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

Adolygir dulliau dibrisio, oes fuddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.

**Offer**

Caiff offer ei gyfalafu ar gost wrth eu cydnabod y tro cyntaf ac wedi hynny ar gost llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Caiff offer, gan gynnwys cyfrifiaduron a meddalwedd, sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol de minimus, neu grŵp o eitemau cysylltiedig, ei gydnabod fel gwariant. Caiff pob offer arall eu cyfalafu.

Nodir offer a gyfalafwyd ar gost a chaiff ei ddibrisio dros ei oes fuddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Offer Cyfrifiadurol | 5 mlynedd |
| Offer ar gyfer projectau ymchwil penodol | 5 mlynedd |
| Cyfarpar arall | Hyd at 10 mlynedd |
| Cerbydau modur | 5 mlynedd |

Adolygir dulliau dibrisio, oes fuddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad paratoi pob Datganiad Sefyllfa Ariannol.

**Amhariad**

Adolygir amhariad i eiddo, peirianwaith ac offer os oes digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd modd adennill swm cario eiddo, peirianwaith ac offer.

**Costau benthyca**

Cydnabyddir costau benthyca fel gwariant yn y cyfnod pryd maent yn digwydd.

**14. Asedau treftadaeth**

Mae'r Brifysgol yn berchen ar gasgliad helaeth o weithiau celf, a chasgliadau amgueddfa eraill, yn cynnwys llestri, offerynnau cerdd, eitemau byd natur, arteffactau daearegol a llawysgrifau, sydd gan mwyaf wedi eu rhoi neu eu gadael i'r Brifysgol yn ystod y 130 mlynedd ddiwethaf. Nid yw'r eitemau hyn wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol gan fod y Brifysgol yn ystyried na fyddai'n ymarferol cael prisiad ystyrlon ohonynt yn y rhan fwyaf o achosion, oherwydd eu natur unigryw. Ychydig iawn o asedau treftadaeth y gallai'r Brifysgol eu gwerthu oherwydd natur gyfyngiadol eu caffael. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 12. Nodir cost cadwraeth ac adfer y casgliad treftadaeth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn pryd y digwyddodd.

**15. Buddsoddiadau**

Rhoddir buddsoddiadau asedau anghyfredol mewn gwarantau heb eu rhestru ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gost llai amhariad.

Caiff buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, cwmnïau cysylltiedig ac is-gwmnïau eu cario ar gost llai amhariad yn Natganiadau Ariannol y Brifysgol.

Rhoddir buddsoddiadau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel asedau ariannol sylfaenol a chânt eu mesur yn unol â Nodyn 18 y polisi cyfrifyddu.

**16. Stoc**

Caiff stoc ei ddal ar yr isaf o blith cost a gwerth gwireddadwy net, a chaiff ei fesur yn defnyddio fformiwla costau cyfartalog.


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)

**YEAR ENDED 31 JULY 2021**

**17. Arian parod a chywerthoedd arian parod**

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar gais. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael o fewn 24 awr heb gosb.

Buddsoddiadau tymor byr hynod hylifol yw cywerthoedd arian parod y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau hysbys o arian parod heb risg sylweddol y bydd newid mewn gwerth

**18. Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol**

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol pan:

(a) mae gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu trwy ddehongliad) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

(b) mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; a

(c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy ddisgowntio'r llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu risgiau penodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Brifysgol ond y cadarnheir ei bodolaeth yn unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, na fydd yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau amodol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

Mae ased amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Brifysgol ond y cadarnheir ei bodolaeth yn unig gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu fel arall, na fydd yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau amodol eu cydnabod yn y Fantolen ond maent yn cael eu datgelu yn y Nodiadau.

**19. Cyfrifo ar gyfer Gweithrediadau ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd**

Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r dull ecwiti i roi cyfrif am ei chyfran o fentrau ar y cyd.

Mae'r Brifysgol yn rhoi cyfrif am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad Cyfunol o Incwm a Gwariant.

**20. Trethiant**

Caiff y dreth gyfredol, gan gynnwys treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig a threth dramor, ei darparu ar symiau y disgwylir eu talu (neu eu hadennill) gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a'r cyfreithiau a ddeddfwyd erbyn dyddiad y fantolen.

Ystyrir bod y Brifysgol yn pasio'r profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 o Ddeddf Gyllid 2010 ac felly mae'n cyflawni'r diffiniad o gwmni elusennol i ddibenion treth gorfforaethol y Deyrnas Unedig. Felly, mae'r Brifysgol o bosibl wedi ei heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau a ddaw dan adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y defnyddir y cyfryw incwm neu enillion i ddibenion elusennol yn unig.

**21. Offerynnau Ariannol**

Mae'r Brifysgol wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 FRS 102 mewn perthynas â chydnabod, mesur a datgelu offerynnau ariannol.

Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau ariannol pan ddaw'r Brifysgol yn rhan o ddarpariaeth gontractol yr offeryn, ac fe'u dosbarthir yn ôl sylwedd y trefniadau contractol yr ymrwymwyd iddynt.

Caiff ased ariannol a rhwymedigaeth ariannol eu gwrthbwyso dim ond pan fo hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwyso'r symiau a gydnabyddir a bwriad naill ai i setlo ar sail net, neu i wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

**Asedau ariannol**

Mae asedau ariannol sylfaenol yn cynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, arian parod a chywerthoedd arian parod, a buddsoddiadau mewn papur masnachol (h.y. adneuon a bondiau). Caiff yr asedau hyn eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn oni bai bod y trefniant yn drafodyn cyllido, pan gaiff y trafodyn ei fesur yn ôl gwerth presennol y derbyniadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn hynny, caiff asedau o'r fath eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Asesir asedau ariannol i weld a oes arwyddion o amhariad ar bob dyddiad adrodd. Os oes tystiolaeth wrthrychol bod amhariad, caiff colled amhariad ei chydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

Yn achos asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio y golled amhariad yw'r gwahaniaeth rhwng swm cario'r ased a gwerth presennol llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol, wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased.

Mae asedau ariannol eraill, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn is-gwmnïau, yn gwmnïau cysylltiedig nac yn fentrau ar y cyd, yn cael eu mesur y tro cyntaf ar werth teg, sef pris y trafodyn fel arfer. Wedi hynny, caiff yr asedau hyn eu cario ar werth teg a chaiff newidiadau mewn gwerth teg ar y dyddiad adrodd eu cydnabod yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Pan nad yw'r buddsoddiad mewn offerynnau ecwiti'n cael ei fasnachu'n gyhoeddus a phan na ellir mesur y gwerth teg yn ddibynadwy, caiff yr asedau eu mesur ar gost llai amhariad.

Caiff asedau ariannol eu dad-gydnabod pan fo hawliau contractol i lifoedd arian o'r ased yn dod i ben neu'n cael eu setlo neu pan fo holl risgiau a manteision bod yn berchen ar yr ased yn cael eu trosglwyddo yn eu hanfod i barti arall.

**Rhwymedigaethau ariannol**

Mae rhwymedigaethau ariannol sylfaenol yn cynnwys symiau masnach a symiau taladwy eraill, benthyciadau banc a benthyciadau rhyng-grŵp. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn oni bai bod y trefniant yn drafodyn cyllido, pan gaiff yr offeryn dyled ei fesur ar werth presennol taliadau yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn hynny, caiff offerynnau dyled eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol

Caiff ffioedd a delir wrth sefydlu cyfleusterau benthyciad eu cydnabod fel costau trafod y benthyciad i'r graddau ei bod yn debygol y bydd peth neu'r cyfan o'r cyfleuster yn cael ei dynnu i lawr.

Rhwymedigaethau yw symiau masnach taladwy i dalu am nwyddau a gwasanaethau a gafwyd fel rhan o'r busnes arferol oddi wrth gyflenwyr. Dosberthir cyfrifon taladwy fel rhwymedigaethau cyfredol os ydynt yn daladwy o fewn blwyddyn neu lai. Os nad ydynt, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Caiff symiau masnach taladwy eu cydnabod y tro cyntaf ar bris y trafodyn ac wedi hynny cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Nid yw deilliadau ariannol, gan gynnwys blaen-gontractau cyfnewid tramor, yn offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff deilliadau ariannol eu cydnabod y tro cyntaf ar werth teg ar ddyddiad ymrwymo i'r contract deilliadol ac wedi hynny cânt eu hail-fesur yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Caiff newidiadau yng ngwerth teg deilliadau ariannol eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn costau cyllid neu incwm cyllid fel y bo'n briodol, oni bai eu bod wedi eu cynnwys mewn trefniant ymddiogelu.

I'r graddau y mae'r Brifysgol yn ymrwymo i flaen-gontractau cyfnewid tramor sy'n parhau i fod heb eu setlo ar y dyddiad adrodd, adolygir gwerth teg y contractau ar y dyddiad hwnnw. Mesurir y gwerth teg cychwynnol fel pris y trafodyn ar ddyddiad sefydlu'r contractau. Caiff prisiadau dilynol eu hystyried ar sail blaen-gyfraddau'r contractau hynny sydd heb eu setlo ar y dyddiad adrodd. Nid yw'r Brifysgol yn defnyddio cyfrifyddu ymddiogelu mewn perthynas â blaen-gontractau cyfnewid tramor a ddelir er mwyn rheoli achosion o amlygu llifoedd arian i drafodion arian tramor sy'n cael eu rhagweld.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dad-gydnabod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei rhyddhau, ei chanslo neu pan ddaw i ben.


ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# DATGANIAD PRIF BOLISÏAU CYFRIFO (PARHAD)

**YEAR ENDED 31 JULY 2021**

**22. Cronfeydd wrth gefn**

Dosberthir cronfeydd yn rhai cyfyngedig neu anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys rhai balansau sydd, drwy waddol i'r Brifysgol, yn cael eu dal fel cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Brifysgol ei dal yn fythol barhaus.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi pennu diben penodol ac felly mae'r Brifysgol wedi ei chyfyngu o ran defnyddio'r cyllid hwn.

**23. Barn gyfrifyddu gritigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif**

Wrth baratoi datganiadau ariannol y Brifysgol mae angen i'r rheolwyr ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar sut y defnyddir polisïau cyfrifo ac ar symiau asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau yr adroddir amdanynt. Mae'r farn, yr amcangyfrifon a'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Anaml, trwy ddiffiniad, y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu a geir yn hafal i'r canlyniadau gwirioneddol cysylltiedig.

Mae'r rheolwyr o'r farn mai'r meysydd a nodir isod yw'r rhai lle cafodd barn gyfrifyddu gritigol ei defnyddio a gall yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sy'n deillio o hynny arwain at addasiadau i symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y dyfodol:

**Cydnabod incwm**

Defnyddir barn wrth bennu gwerth ac amseriad rhai eitemau incwm sydd i'w cydnabod yn y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys penderfynu pryd y mae amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu bodloni, a phenderfynu ar y refeniw sy'n gysylltiedig â chyrsiau a hyfforddiant a gyflwynwyd yn rhannol pan nad yw'r gweithgareddau wedi'u cwblhau'n llawn ar y dyddiad adrodd.

**Oes fuddiol eiddo, peirianwaith ac offer**

Mae eiddo, peirianwaith ac offer yn cynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm asedau'r Brifysgol. Felly, gall amcangyfrif oes fuddiol gael effaith sylweddol ar y dibrisiad a godir ac ar y perfformiad y mae'r Brifysgol yn adrodd yn ei gylch. Pennir oes fuddiol pan gaiff ased ei chaffael a chaiff ei adolygu'n rheolaidd o ran priodoldeb. Mae'r oes yn seiliedig ar brofiad hanesyddol o ymwneud ag asedau tebyg yn ogystal â rhagweld digwyddiadau yn y dyfodol. Dangosir manylion gwerthoedd cario eiddo, peirianwaith ac offer yn Nodyn 11.

**Adenilladwyedd dyledwyr**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn seiliedig ar amcangyfrif i ba raddau y gellir adennill y dyledion hynny. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar sefyllfa bresennol y cwsmer, proffil oedran y ddyled a natur y swm sy'n ddyledus

Mae balans Symiau Masnach Derbyniadwy, Nodyn 17, y Brifysgol yn datgelu'r swm sy'n ddyledus i'r Brifysgol ac i'r Grŵp ar ôl didynnu'r ddarpariaeth drwgddyled o £2,809k (2020: £2,020k) a £2,904k (2020: £2,117k) yn y drefn honno. Mae'r ddarpariaeth drwgddyled yn ymwneud yn bennaf â ffioedd neuaddau a ffioedd dysgu sy'n ddyledus gan fyfyrwyr.

Mae'r rheolwyr wedi adolygu dyledion unigol ac wedi asesu i ba raddau y gellid eu hadennill gan ystyried oedran, statws y dyledwr, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â'r oedi wrth dalu.

**Cytundebau consesiwn gwasanaeth**

Mae gan y Brifysgol ddau gytundeb consesiwn gwasanaeth ar ei Mantolen, sef cynlluniau Ffordd Ffriddoedd a'r Santes Fair (Nodyn 13). Cafwyd y rhwymedigaethau cyllid cysylltiedig drwy ddefnyddio offeryn modelu ar gyfer cytundebau consesiwn gwasanaeth dan gyfarwyddyd ymgynghorwyr proffesiynol y Brifysgol, gyda mewnbynnau'n deillio o'r modelau gweithredwyr a oedd yn sail i'r contractau a luniwyd â'r partneriaid o'r sector preifat. Mae gwerth yr asedau'n seiliedig ar gostau a gymerwyd o'r un modelau gweithredwyr, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu am amhariad bob blwyddyn. Ni chododd unrhyw amhariad yn 2020/21 (2019/20 - Dim).

Tybiwyd bod unrhyw wariant cylch oes yn refeniw yn ei natur yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y modelau gweithredwyr.

**Rhwymedigaethau buddion ymddeol**

**Darpariaeth pensiwn USS**

Pennir cost cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn defnyddio prisiadau actiwaraidd. Mae'r prisiad actiwaraidd yn golygu gwneud tybiaethau ynghylch cyfraddau disgowntio, codiadau cyflog yn y dyfodol, cyfraddau marwolaethau a chodiadau pensiwn yn y dyfodol. Oherwydd cymhlethdod y prisiad, y tybiaethau sylfaenol a natur tymor hir y cynlluniau hyn, mae ansicrwydd sylweddol yn gysylltiedig ag amcangyfrifon o'r fath. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 29

Mae'r rheolwyr yn fodlon bod Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn cyflawni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly wedi cydnabod gwerth teg disgowntiedig y cyfraniadau contractol dan y cynllun ariannu sydd mewn bodolaeth ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Gan fod y Brifysgol yn rhwym o dan gontract i wneud taliadau adfer diffyg i'r USS, caiff hyn ei gydnabod fel rhwymedigaeth ar y fantolen. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adfer diffyg yr USS y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraidd 2017, sy'n diffinio'r taliad adfer diffyg sy'n ofynnol fel canran o gyflogau'r dyfodol tan 2034. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu hailasesu ym mhrisiad y cynllun bob tair blynedd.

Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o chwyddiannau cyflog disgwyliedig yn y dyfodol, newidiadau yn nifer y staff a chyfradd gyffredinol y disgownt. Nodir manylion pellach yn Nodyn 29A.

**Buddion ymddeol (BUPAS)**

Mae sefyllfa'r rhwymedigaeth pensiwn, fel y ceir yn y cyfrifon, yn seiliedig ar nifer o asesiadau cymhleth ac ar farn yn ymwneud â chyfraddau disgowntio, codiadau cyflog rhagamcanol, newidiadau i oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac elw a ddisgwylir ar asedau'r cynllun. Mae'r Brifysgol yn cyflogi cwmni proffesiynol o actiwariaid i roi cyngor arbenigol ar y tybiaethau i'w gweithredu ac i gyfrifo rhwymedigaeth y cynllun.

Manylir ar y tybiaethau a ddefnyddir yn y flwyddyn gyfredol yn Nodyn 29B.



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| | | 2020/21 | | 2019/20 (Ailddatganwyd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| 1 | **Ffioedd dysgu a chontractau addysg** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | Myfyrwyr llawn amser o'r DU/UE | **46,861** | **46,861** | 48,253 | 48,253 |
| | Myfyrwyr rhyngwladol llawn amser | **14,537** | **14,537** | 18,778 | 18,778 |
| | Myfyrwyr rhan amser | **2,082** | **2,082** | 1,925 | 1,925 |
| | Grantiau cefnogi hyfforddiant ymchwil | **873** | **873** | 899 | 899 |
| | Ffioedd cyrsiau byr | **513** | **513** | 1,030 | 1,030 |
| | Contractau addysg | **10,905** | **10,905** | 11,533 | 11,533 |
| | | **75,771** | **75,771** | 82,418 | 82,418 |
| 2 | **Grantiau cyrff cyllido** | | | | |
| | **Grant rheolaidd** | | | | |
| | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | **10,207** | **10,207** | 9,074 | 9,074 |
| | **Grantiau penodol** | | | | |
| | **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** | | | | |
| | Grantiau Cyfalaf | **4,809** | **4,809** | 1,517 | 1,517 |
| | Cefnogaeth Ychwanegol i Fyfyrwyr | **3,603** | **3,603** | 0 | 0 |
| | Prif Gyllid Adfer a Buddsoddi mewn Addysg Uwch | **2,850** | **2,850** | 0 | 0 |
| | Mentrau Cyfrwng Cymraeg | **1,034** | **1,034** | 1,018 | 1,018 |
| | Cronfa Datblygu Gallu Arloesi | **841** | **841** | 210 | 210 |
| | Covid19 - Cefnogaeth Ychwanegol i Fyfyrwyr | **802** | **802** | 0 | 0 |
| | Cyfalaf Ymchwil | **715** | **715** | 0 | 0 |
| | Prentisiaethau Gradd | **565** | **565** | 262 | 262 |
| | Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru | **487** | **487** | 0 | 0 |
| | Gwell Iechyd Meddwl | **184** | **184** | 0 | 0 |
| | Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig Meistr | **242** | **242** | 318 | 318 |
| | Cronfa Newton a'r Her Fyd-eang | **147** | **147** | 96 | 96 |
| | Cyllid Ymchwil Cymru | **136** | **136** | 473 | 473 |
| | Cydweithrediad AU ac AB | **9** | **9** | 352 | 352 |
| | Ymestyn yn Uwch Ymestyn yn Ehangach: | **384** | **384** | 342 | 342 |
| | Lles ac Iechyd Myfyrwyr | **145** | **145** | 131 | 131 |
| | Arall | **383** | **383** | 67 | 67 |
| | **Llywodraeth Cymru** | | | | |
| | Canolfan Addysg Feddygol Gogledd Cymru | **518** | **518** | 1,669 | 1,669 |
| | Ymarferwyr Cenedlaethol | **276** | **276** | 308 | 308 |
| | Canolfan Cymraeg i Oedolion | **1,518** | **1,518** | 1,518 | 1,518 |
| | Ysbyty Enfys | **225** | **225** | 120 | 120 |
| | Arall | **217** | **217** | 63 | 63 |
| | | **30,297** | **30,297** | 17,538 | 17,538 |

| | | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| 3 | **Grantiau a chontractau ymchwil** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | Cynghorau ymchwil | **4,376** | **4,376** | 3,488 | 3,488 |
| | Y Deyrnas Unedig - Elusennau | **881** | **881** | 1,184 | 1,184 |
| | Y Deyrnas Unedig - Llywodraeth | **8,129** | **8,129** | 6,115 | 6,115 |
| | Y Deyrnas Unedig - Diwydiant a Masnach | **701** | **701** | 327 | 327 |
| | Yr Undeb Ewropeaidd - Llywodraeth | **8,563** | **8,563** | 9,662 | 9,662 |
| | Yr Undeb Ewropeaidd - Arall | **48** | **48** | 56 | 56 |
| | Tramor - Arall | **588** | **588** | 588 | 588 |
| | Ffynonellau eraill | **99** | **99** | 131 | 131 |
| | | **23,385** | **23,385** | 21,551 | 21,551 |

Mae'r cyfansymiau contractau a grantiau ymchwil yn cynnwys incwm a gydnabyddir yn llawn o £1.4m (2019/20 - £1.7m) a dderbyniwyd i grantiau cyfalaf lle mae amodau perfformiad wedi'u bodloni. Bydd yr offer cysylltiedig a brynwyd yn cael eu dibrisio dros 5 mlynedd yn unol â Pholisïau Cyfrifo'r Brifysgol.

| | | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| 4 | **Incwm arall** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **7,973** | **7,973** | 10,805 | 10,805 |
| | Gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Brifysgol | **4,526** | **4,526** | 3,784 | 3,785 |
| | Incwm arall | **7,682** | **7,971** | 9,377 | 9,376 |
| | **Is-gwmnïau** | | | | |
| | NWWMDC Cyf | **1,920** | **0** | 1,983 | 0 |
| | Eraill | **1,110** | **0** | 847 | 0 |
| | | **23,211** | **20,470** | 25,127 | 22,298 |
| 5 | **Incwm buddsoddi** | | | | |
| | Incwm buddsoddi ar waddolion | **343** | **343** | 207 | 207 |
| | Incwm buddsoddi arall | **118** | **250** | 338 | 412 |
| | | **461** | **593** | 545 | 619 |
| 6 | **Incwm rhoddion a gwaddolion** | | | | |
| | Gwaddolion newydd | **65** | **65** | 313 | 313 |
| | Rhoddion gyda chyfyngiadau | **142** | **142** | 166 | 166 |
| | Rhoddion anghyfyngedig | **36** | **36** | 38 | 37 |
| | | **243** | **243** | 517 | 516 |
| 7 | **Costau staff** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | Cyflogau | **65,203** | **63,991** | 61,806 | 60,530 |
| | Costau nawdd cymdeithasol | **6,147** | **6,035** | 6,280 | 6,047 |
| | Costau Ailstrwythuro | **2,322** | **2,322** | 12 | 12 |
| | Symudiad ar ddarpariaeth USS | **1,323** | **1,323** | (11,384) | (11,384) |
| | Symudiad ar ddarpariaeth USS | **1,089** | **1,089** | 4,894 | 4,894 |
| | Costau pensiwn eraill | **11,462** | **11,414** | 11,607 | 11,511 |
| | Cyfanswm | **87,546** | **86,174** | 73,215 | 71,610 |



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021

**Taliadau i'r Is-ganghellor 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2021:**

| | **Yr Athro I Davies 2020/21** | Yr Athro I Davies o 01/09/19 hyd 31/7/20 | Yr Athro G Upton o 01/08/19 hyd 30/8/19 |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Cyflog | **220** | 202 | 16 |
| Cyfanswm y tâl | **220** | 202 | 16 |

| **Tâl yr Is-ganghellor fel cymhareb â chyflog yr holl weithwyr eraill ar sail CALI** | **2020/21** | 2019/20 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Canolrif cyflog sylfaenol | **1 : 6.17** | 1 : 5.70 | 1 : 5.03 |
| Canolrif cyfanswm y tâl | **1 : 6.17** | 1 : 5.70 | 1 : 5.03 |

Dangosir taliadau i'r Is-ganghellor ar yr un sail â staff ar gyflogau uwch ond maent yn cynnwys cyfraniad y cyflogwr i gynllun adfer diffyg yr USS.

Penododd Cyngor y Brifysgol Is-ganghellor newydd o 1 Medi 2019 am gyfnod penodol o 5 mlynedd, y gellir ei adnewyddu, ac ar y sail mai £220,000 yw cyflog cychwynnol y swydd, heb unrhyw fuddion eraill y tu hwnt i'r rhai a dderbynnir gan aelodau eraill o'r staff. Wrth bennu cyflog yr Is-ganghellor, cymerodd y panel penodi Arolwg Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau o Dâl Uwch Staff i ystyriaeth ynghyd ag Arolwg Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol o gyflogau Is-gangellorion.

Nid yw'r Is-ganghellor yn aelod o gynllun pensiwn yr USS ac felly ni wnaed unrhyw gyfraniadau cyflogwr yn y cyfnod hwn.

Caiff perfformiad yr Is-ganghellor ei fonitro trwy gydol y flwyddyn gan gynnwys gwerthusiadau perfformiad 1: 1 gyda Chadeirydd y Cyngor. Mae Cadeirydd y Cyngor yn gosod amcanion i'r Is-ganghellor yn unol â chyfeiriad strategol y Brifysgol. Mae'r adolygiad blynyddol hefyd yn cynnwys adborth gan aelodau'r Cyngor a chan Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol. Y Pwyllgor Taliadau sy'n pennu ac yn adolygu tâl yr Is-ganghellor. Byddant yn ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am daliadau yn y sector neu mewn mannau eraill, a metrigau perthnasol a data perfformiad. Bydd perfformiad uwch aelodau staff yn cael ei ystyried yn erbyn safonau a nodwyd.

**Taliadau i staff ar gyflogau uwch, (ac eithrio'r Is-ganghellor a heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr:)**

| | **2020/21** | 2019/20 |
|---|---|---|
| | **Rhif** | Rhif |
| £100,000 to £104,999 | **3** | 5 |
| £105,000 to £109,999 | **2** | 0 |
| £110,000 to £114,999 | **2** | 3 |
| £120,000 to £124,999 | **0** | 1 |
| £125,000 to £129,999 | **1** | 0 |
| £130,000 to £134,999 | **0** | 0 |
| £135,000 to £139,999 | **0** | 2 |
| £270,000 to £274,999 | **0** | 1 |
| | **11** | 14 |
| **Cyfartaledd nifer staff fesul prif gategori:** | **Rhif** | **Rhif** |
| Academaidd a chysylltiedig ac ymchwil | **936** | 938 |
| Clercyddol | **330** | 333 |
| Technegol | **92** | 91 |
| Arall | **234** | 282 |
| | **1,592** | 1,644 |

Mynegir niferoedd staff fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn.

£1.87m (2019/20 - £1.89m) oedd y costau staff annodweddiadol (costau staff Is-gwmnïau, Asiantaethau, Hunangyflogedig a di-gontract), ac eithrio costau staff yr Is-gwmnïau £331k (2019/20 - 281k)

Talwyd iawndal am golli swydd i ddau gyn weithiwr ar gyflog uwch o dan delerau cynllun diswyddo gwirfoddol safonol y Brifysgol, y swm a dalwyd oedd £80,441 (2019/20 2 - £206,225).

**Staff rheoli allweddol**

Staff rheoli allweddol yw'r bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Brifysgol. Mae costau staff yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwyr at bensiwn ac Yswiriant Gwladol.

| | **2020/21** | 2019/20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cost staff rheoli allweddol | **1,590** | 1,561 |
| | **Rhif** | Rhif |
| Cyfanswm CALI personél rheoli allweddol yn ystod 2020/21 | **10.6** | 11 |

**Ar 31 Gorffennaf 2021 roedd 9 aelod o bersonél rheoli allweddol (19/20 - 9).**



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

**Aelodau'r Cyngor**

Mae aelodau cyngor y Brifysgol yn ymddiriedolwyr i ddibenion cyfraith elusennol. Oherwydd natur gweithrediadau'r Brifysgol a chyfansoddiad y Cyngor, wedi eu tynnu o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn lleol, mae'n anorfod y gweneir trafodion lle y gallai aelod o'r Cyngor fod â budd ynddynt.

Cynhelir yr holl drafodion yn ymwneud â sefydliadau y gall aelod o'r Cyngor fod â budd ynddynt o hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol a threfn caffael arferol. Nodir isod werth y trafodion hyn a adlewyrchir yn y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021:

| Sefydliad | Enw | Swydd | Incwm | Gwariant | Dyledus oddi wrth/(i) ar 31 Gorffennaf 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £000 | £000 | £000 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Mrs Marian Wyn Jones | Is-gadeirydd | 912 | 0 | (259) |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Yr Athro Nichola Callow | Aelod o'r Bwrdd | 643 | 668 | 193 |
| Grŵp Llandrillo Menai | Dr Griffith W Jones | Is-gadeirydd | 347 | 409 | 10 |
| Menter Môn | Dr Griffith W Jones | Cyfarwyddwr | 103 | 52 | (122) |
| | Dr Karen Jones | | | | |
| Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol | Dr Kevin Mundy | Cyfarwyddwr | 0 | 34 | 0 |
| BUPAS | Mrs Tracy Hibbert | Ymddiriedolwr | 24 | 400 | 0 |

Ni dderbyniodd unrhyw aelod lleyg o'r cyngor dâl gan y grŵp yn ystod y flwyddyn (2020 - dim).

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i neu ar ran 5 aelod lleyg o'r Cyngor oedd £0 (2019 - talwyd £1,420 i 5 aelod). Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio wrth ddod i gyfarfodydd y Cyngor, ac i bwyllgorau a digwyddiadau eraill yn rhinwedd eu swydd.

**8 Llog a chostau ariannu eraill**

| | | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Llog benthyciad | | **1,164** | **1,149** | 1,418 | 1,240 |
| Llog prydles gyllidol (yn cynnwys tâl cyllid consesiwn gwasanaeth) | | **3,824** | **3,824** | 3,915 | 3,915 |
| Tâl net ar gynllun pensiwn | 21 | **479** | **217** | 479 | 479 |
| | | **5,205** | **5,190** | 5,812 | 5,634 |





**9 Dadansoddiad o gyfanswm gwariant fesul gweithgaredd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adrannau academaidd | **46,018** | **46,019** | 46,949 | 47,335 |
| Gwasanaethau Academaidd | **11,582** | **11,629** | 11,230 | 11,279 |
| Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog | **8,865** | **8,875** | 8,934 | 8,938 |
| Addysgol cyffredinol | **10,036** | **10,036** | 11,692 | 11,695 |
| Cyfleusterau staff a myfyrwyr | **11,303** | **11,097** | 7,329 | 6,855 |
| Eiddo | **20,259** | **21,068** | 20,033 | 20,401 |
| Preswylfeydd a gweithrediadau arlwyo | **14,707** | **14,707** | 13,753 | 13,755 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | **20,802** | **20,839** | 18,954 | 19,232 |
| Gwasanaethau a ddarperir | **5,901** | **2,549** | 7,101 | 3,391 |
| Costau ailstrwythuro / (heb eu defnyddio) | **2,322** | **2,322** | 12 | 12 |
| Symudiad ar ddarpariaeth USS | **1,323** | **1,323** | (11,384) | (11,384) |
| Arall | **1,799** | **1,799** | 2,017 | 2,017 |
| | **154,917** | **152,263** | 136,620 | 133,526 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:** | | | | |
| | | | Ailddatganwyd | Ailddatganwyd |
| **Tâl archwilwyr allanol (gan gynnwys TAW):** | | | | |
| Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio | **146** | **108** | 138 | 109 |
| Gwasanaethau sicrwydd eraill | **55** | **55** | 12 | 12 |
| Trethiant / gwasanaethau ac eithrio archwilio | **54** | **47** | 102 | 95 |

Mae costau na aethpwyd iddynt sy'n ymwneud ag archwiliad allanol 19/20 wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ailddatganedig.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhenti prydles weithredol** | | | | |
| Tir ac adeiladau | **444** | **444** | 256 | 256 |
| Arall | **1,043** | **1,043** | 1,131 | 1,131 |
| **Costau ailstrwythuro yn cynnwys** | | | | |
| Disywddo Staff | **2,322** | **2,322** | 14 | 14 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**



**10 Trethiant**

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| **Treth gyfredol** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Treth gorfforaeth y DU o 19% (2020: 19%) ar ddiffyg am y flwyddyn | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Cyfanswm tâl treth** | **0** | **0** | 0 | 0 |

**Ffactorau'n effeithio ar y tâl treth**

Mae'r dreth a aseswyd am y flwyddyn yn is na chyfradd safonol treth gorfforaethol yn y DU. Eglurir y gwahaniaeth isod.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| (Diffyg)/Gwarged cyn treth | **(563)** | **(498)** | 10,924 | 11,223 |
| (Diffyg)/Gwarged wedi'i luosi gan gyfradd safonol treth gorfforaeth yn y Deyrnas Unedig o 19% (2020: 19%) | **(107)** | **(95)** | 2,076 | 2,132 |
| Gwarged/(Diffyg) o fewn eithriad elusennol | **107** | **95** | (2,076) | (2,132) |
| Effaith newid yng nghyfradd treth gorfforaeth | **0** | **0** | 0 | 0 |
| **Tâl treth cyfredol** | **0** | **0** | 0 | 0 |

**11 Eiddo, Peirianwaith ac Offer**

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliol | Gwelliannau Prydlesol | Trefniant consesiwn gwasanaeth Tir ac Adeiladau | Gosodiadau, Ffitiadau ac Offer | Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol** | | | | | | |
| **Cost** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Awst 2020 | 295,292 | 11,095 | 68,652 | 31,277 | 2,742 | 409,058 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 6,659 | 1,789 | **8,448** |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwarediadau | (700) | 0 | 0 | (1,365) | (922) | **(2,987)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **294,592** | **11,095** | **68,652** | **36,571** | **3,609** | **414,519** |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 49,632 | 5,462 | 8,094 | 25,343 | 0 | 88,531 |
| Tâl am y flwyddyn | 9,064 | 374 | 1,466 | 3,379 | 0 | **14,282** |
| Gwarediadau | (98) | 0 | 0 | (1,364) | 0 | **(1,462)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **58,598** | **5,836** | **9,559** | **27,358** | **0** | **101,351** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **235,994** | **5,259** | **59,093** | **9,213** | **3,609** | **313,168** |
| Ar 1 Awst 2020 | 245,660 | 5,633 | 60,558 | 5,934 | 2,742 | 320,527 |
| **Prifysgol** | | | | | | |
| **Ar 1 Awst 2020** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ychwanegiadau | 295,292 | 58 | 68,652 | 29,338 | 2,741 | 396,081 |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 6,597 | 1,789 | **8,386** |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ar 31 Gorffennaf 2021 | (700) | 0 | 0 | (1,365) | (922) | **(2,987)** |
| **At 31 July 2021** | **294,592** | **58** | **68,652** | **34,570** | **3,608** | **401,480** |
| **Dibrisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 49,632 | 9 | 8,094 | 23,492 | 0 | 81,227 |
| Tâl am y flwyddyn | 9,064 | 1 | 1,465 | 3,323 | 0 | **13,853** |
| Gwarediadau | (98) | 0 | 0 | (1,364) | 0 | **(1,462)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **58,598** | **10** | **9,559** | **25,451** | **0** | **93,618** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **235,994** | **48** | **59,093** | **9,119** | **3,608** | **307,862** |
| Ar 1 Awst 2020 | 245,660 | 49 | 60,558 | 5,846 | 2,741 | 314,854 |

Ar 31 Gorffennaf 2021, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £38.7m (2020 - £38.7m) mewn perthynas â thir rhydd-ddaliad ac nid yw wedi'i ddibrisio.

| **Asedau ar brydles a gynhwyswyd uchod:** | |
|---|---|
| **Gwerth Net ar Bapur:** | **£'000** |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | 982 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **823** |

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**



**12 Asedau Treftadaeth**

Mae gan y Brifysgol nifer o gasgliadau o Asedau Treftadaeth, yn cynnwys: Casgliadau Celf – oddeutu 600 o ddarluniau olew, dyfrlliw, printiau a lluniadau, yn ogystal â 9 o gerfluniau, yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg i'r unfed ganrif ar hugain; Casgliad Cerameg - yn cynnwys oddeutu 500 o ddarnau sy'n cael eu harddangos ac wedi'u cadw; Casgliad Cerdd - oddeutu 600 o offerynnau cerdd ethnograffig, ynghyd â 325 o offerynnau clai cyn-Golumbaidd; Casgliad Daeareg - tua 8,000 o greigiau a 6,000 o ffosiliau o bob rhan o'r byd; Casgliad Astudiaethau Natur - yn cynnwys tua 40,000 o sbesimenau (gyda tua 500 yn cael eu harddangos); Casgliad Hynafiaethau Cymreig - a hynafiaethau eraill a arddangosir yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Gwynedd; a Chasgliad Llawysgrifau - mae gan y Llyfrgell tua 16,500 o lyfrau prin neu o bwysigrwydd arbennig ac mae gan yr Adra– Archifau tua 80 o gasgliadau, y rhan fwyaf yn bapurau ystadau a theuluoedd o siroedd Gogledd Cymru, ynghyd â phapurau preifat unigolion amlwg a chasgliad amrywiol o gofnodion llenyddol, hanesyddol a hynafiaethol.

Mae Asedau Treftadaeth y Brifysgol yn cael eu cofnodi a chawsant eu prisio ar £12.3m at ddibenion yswiriant yn unig. Nid yw'r gwerth hwn yn cael ei adlewyrchu yn Natganiadau Ariannol y Brifysgol.

**13 Trefniadau consesiwn gwasanaeth**

Mae gan y Brifysgol ddau drefniant consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen, sef safleoedd y Santes Fair a Ffordd Ffriddoedd, lle mae darparu gwasanaeth wedi dechrau.

**Symudiad yn asedau trefniant consesiwn gwasanaeth**

Gwerth ased y consesiynau gwasanaeth a gynhwysir ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2021 yw £59,093k (1 Awst 2020 £60,558k). Mae'r gostyngiad o £1,465k yn deillio o daliadau dibrisiad yn ystod y flwyddyn.

**Symudiad yn rhwymedigaethau trefniant consesiwn gwasanaeth**

Cyfanswm y rhwymedigaethau'n ymwneud â'r consesiynau gwasanaeth a gynhwysir ar y Fantolen ar 31 Gorffennaf 2021 oedd £61,885k (1 Awst 2020 £63,344k). Mae'r gostyngiad o £ 1,459k yn deillio o ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

**Ymrwymiadau yn y dyfodol**

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth.

| | Taladwy mewn 1 flwyddyn | Taladwy mewn 2-5 mlynedd | Taladwy mewn 6 mlynedd neu fwy | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 1,419 | 5,710 | 54,756 | **61,885** |
| Tâl cyllid | 3,395 | 12,718 | 32,621 | **48,734** |
| Tâl gwasanaeth | 2,234 | 10,788 | 68,633 | **81,655** |
| | **7,048** | **29,216** | **156,010** | **192,275** |

Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am drefniadau cyfredol consesiwn gwasanaeth y Brifysgol ar y Fantolen:

**a) Cynllun Ffordd Ffriddoedd**

Ar 6 Hydref 2006 llofnododd y Brifysgol gontract 29 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw llety i 1,136 o fyfyrwyr.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.

Dechreuodd y gwasanaeth ar 1 Hydref 2009 a bydd y contract yn gorffen ar 30 Medi 2038.

**b) Cynllun y Santes Fair**

Ar 23 Gorffennaf 2014 llofnododd y Brifysgol gontract 40 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw llety i 602 o fyfyrwyr.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Fantolen y Brifysgol.

Dechreuodd y gwasanaeth ar 25 Medi 2015 a bydd y contract yn gorffen ar 24 Medi 2055.

**14 Buddsoddiadau Anghyfredol**

| | Is-gwmnïau (Nodyn 28)) | Cwmnïau cysylltiedig (Nodyn 28) | Mentrau ar y cyd (Nodyn 15) | Buddsoddiadau Anghyfredol Eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Awst 2020** | 0 | 50 | 0 | 5,909 | 5,959 |
| Rhyddhau yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | (90) | (90) |
| Ailbrisiad | 0 | 0 | 0 | 1,130 | 1,130 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **0** | **50** | **0** | **6,949** | **6,999** |
| **Prifysgol** | | | | | |
| **Ar 1 Awst 2020** | 0 | 50 | 50 | 5,909 | 6,009 |
| Rhyddhau yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | (90) | **(90)** |
| Ailbrisiad | 0 | 0 | 0 | 1,130 | **1,130** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **0** | **50** | **50** | **6,949** | **7,049** |

Nodir buddsoddiadau anghyfredol ar gost ac eithrio cronfeydd a reolir gan y Brifysgol a nodir ar werth y farchnad.

| | Prifysgol |
|---|---|
| Mae buddsoddiadau anghyfredol eraill yn cynnwys: | £'000 |
| CVCP Properties plc | 33 |
| Laser Micromachining Ltd | 80 |
| Cronfeydd a reolir mewn ecwitïau a gwarantau llog sefydlog | 6,836 |
| | **6,949** |

Delir cronfeydd a reolir gyda UBS Asset Management (UK) Limited sydd wedi eu trwyddedu gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

**15 Buddsoddiad mewn mentrau ar y cyd**

Mae gan y Brifysgol gyfran o 50% (50,000 o gyfrannau cyffredin £1) yn P.Madog Offshore Services Limited, sef cwmni wedi'i gofrestru yn Lloegr, sy'n ymgymryd â hurio'r llong ymchwil. Cwmni cyd-fentro yw hwn y mae'r Brifysgol ac O.S. Energy (UK) Limited yn berchnogion cyfartal arno. Caiff y trefniant ei drin fel menter ar y cyd a'i gyfrifo gan ddefnyddio'r dull ecwiti, fel bod 50% o asedau a rhwymedigaethau gros y cwmni'n cael eu hymgorffori ym mantolen gyfunol y Brifysgol a 50% o'i incwm net yn cael ei adrodd yn Natganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr y Brifysgol.

| **Cyfrif incwm a gwariant** | **2020/21** | 2019/20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyfran o incwm | **530** | 608 |
| Cyfran o wariant | **(550)** | (570) |
| Cyfran o warged am y flwyddyn | **(20)** | 38 |
| **Mantolen** | **2021** | 2020 |
| | **£'000** | £'000 |
| Asedau sefydlog | **20** | 122 |
| Asedau cyfredol | **192** | 319 |
| | **212** | 441 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | **(49)** | (104) |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | **(8)** | (162) |
| | **(57)** | (266) |
| **Cyfran o asedau net** | **155** | 175 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021

### 16 Stoc

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Stociau arlwyo ac adwerthu | **51** | **30** | 68 | 43 |
| | **51** | **30** | 68 | 43 |

### 17 Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn: | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | **12,281** | **12,067** | 13,270 | 13,083 |
| Symiau derbyniadwy eraill - treth adferadwy | **11** | **0** | 7 | 0 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **12,941** | **12,783** | 11,945 | 11,850 |
| Symiau dyledus gan is-gwmnïau | **(523)** | **2,608** | 0 | 3,030 |
| Swm dyledus gan fenter ar y cyd | **0** | **0** | 200 | 200 |
| Rhagdaliad i fenter ar y cyd | **34** | **34** | 50 | 50 |
| | **24,744** | **27,492** | 25,472 | 28,213 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn: | | | | |
| Symiau dyledus gan is-gwmnïau | **0** | **1,662** | 0 | 1,736 |
| Benthyciad i fenter ar y cyd | **0** | **0** | 100 | 100 |
| Rhagdaliad i fenter ar y cyd | **0** | **0** | 34 | 34 |
| Rhagdaliad i ymgymeriadau is-gwmni | **0** | **1,789** | 0 | 1,927 |
| | **24,744** | **30,943** | 25,606 | 32,010 |

### 18 Buddsoddiadau cyfredol

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Adneuon tymor byr | **0** | **0** | 5,133 | 5,133 |
| | **0** | **0** | 5,133 | 5,133 |

### 19 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaethau dan brydlesi cyllidol | **159** | **159** | 159 | 159 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth (Nodyn 13) | **1,419** | **1,419** | 1,459 | 1,459 |
| Benthyciadau sicredig | **0** | **0** | 329 | 329 |
| Benthyciadau ansicredig | **2,722** | **2,722** | 2,288 | 2,288 |
| Gorddrafft Banc | **0** | **0** | 0 | 0 |
| Credydwyr | **8,191** | **9,351** | 8,888 | 8,632 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi taladwy eraill | **3,251** | **1,678** | 1,992 | 1,961 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **23,933** | **23,066** | 19,036 | 18,430 |
| Symiau dyledus i fenter ar y cyd | **0** | **0** | 164 | 164 |
| Symiau dyledus i ymgymeriadau is-gwmnïau | **0** | **298** | 0 | 402 |
| | **39,675** | **38,693** | 34,315 | 33,824 |

**Incwm gohiriedig**

Wedi eu cynnwys o fewn croniadau ac incwm gohiriedig mae'r eitemau incwm canlynol sydd wedi eu gohirio nes bod amodau penodol sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi cael eu cyflawni.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ar gyfrif | **4,907** | **4,907** | 3,754 | 3,754 |
| Grantiau corff cyllido | **5,237** | **5,237** | 1,820 | 1,820 |
| Arall | **373** | **373** | 269 | 269 |
| | **10,517** | **10,517** | 5,843 | 5,843 |

### 20 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | **97** | **34** | 73 | 33 |
| Rhwymedigaethau dan brydles gyllidol | **664** | **664** | 823 | 823 |
| Rhwymedigaethau consesiwn gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | **60,466** | **60,466** | 61,885 | 61,885 |
| Benthyciadau ansicredig | **36,146** | **36,146** | 37,817 | 37,817 |
| | **97,373** | **97,310** | 100,598 | 100,558 |
| Dadansoddiad o fenthyciadau sicredig ac ansicredig: | | | | |
| **Dyledus o fewn un flwyddyn neu ar gais** | **2,722** | **2,722** | 2,617 | 2,617 |
| Dyledus rhwng un a dwy flynedd | **2,798** | **2,798** | 2,621 | 2,621 |
| Dyledus rhwng dwy a phum mlynedd | **8,864** | **8,864** | 8,314 | 8,314 |
| Dyledus ymhen pum mlynedd neu fwy | **24,484** | **24,484** | 26,882 | 26,882 |
| **Dyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn** | **36,146** | **36,146** | 37,817 | 37,817 |
| **Cyfanswm benthyciadau sicredig ac ansicredig** | **38,868** | **38,868** | 40,434 | 40,434 |
| Benthyciadau sicredig sy'n ad-daladwy erbyn 2026 | **0** | **0** | 329 | 329 |
| Benthyciadau ansicredig sy'n ad-daladwy erbyn 2033 | **38,868** | **38,868** | 40,105 | 40,105 |
| | **38,868** | **38,868** | 40,434 | 40,434 |

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys mewn benthyciadau:

| **Benthyciwr** | **Swm £'000** | **Aeddfedu** | **Cyfradd llog %** | **Rhoddwr Benthyg** |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol | 2,353 | 2030 | 0% | Salix Energy Efficiency Loans |
| Prifysgol | 20,022 | 2033 | Sefydlog 3.913% | Banc Buddsoddi Ewrop |
| Prifysgol | 15,442 | 2033 | Sefydlog 2.135% | Banc Buddsoddi Ewrop |
| Prifysgol | 1,051 | 2031 | Sefydlog 0.55% | Cynnal Arbenigedd Ymchwil Prifysgol (SURE) |
| **Cyfanswm Prifysgol** | **38,868** | | | |



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

## Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021

### 21 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

| | Diffyg USS | Cynllun lleol | **Cyfanswm Darpariaethau Pensiwn** | Darpariaeth Ailstrwythuro | **Cyfanswm Arall** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol a Phrifysgol** | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 | **£'000** |
| **Ar 1 Awst 2020** | 19,424 | 4,203 | **23,628** | 190 | **190** |
| Cost staff | 0 | 1,088 | **1,088** | 0 | **0** |
| Cyfraniad Adfer Diffyg | (900) | 0 | **(900)** | 0 | **0** |
| Cost cyllid | 142 | 64 | **206** | 0 | **0** |
| Symudiad ar y Cynllun Pensiwn | 2,223 | (8,933) | **(6,710)** | | **0** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | **0** | 89 | **89** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **20,889** | **(3,578)** | **17,312** | **279** | **279** |

**Diffyg y cynllun lleol**

Roedd rhwymedigaethau â buddion wedi'u diffinio ar 1 Awst 2020 yn ymwneud â'r rhwymedigaethau dan gynllun pensiwn BUPAS y Brifysgol. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 29B.

**Diffyg USS**

Mae'r rhwymedigaeth i ariannu diffyg hanesyddol Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) yn deillio o'r ymrwymiad contract gyda'r USS i ariannu taliadau adfer diffyg yn unol â'r cynllun adfer diffyg. Wrth gyfrifo'r ddarpariaeth hon, mae'r rheolwyr wedi amcangyfrif lefelau staff yn y dyfodol o fewn cynllun yr USS trwy gydol yr ymrwymiad contract a chwyddiant cyflogau.

Ar ôl cwblhau prisiad actiwaraidd 2018, cytunwyd ar gynllun adfer diffyg newydd a cheir rhagor o wybodaeth amdano yn Nodyn 29A. Mae'r cynllun newydd hwn yn gwneud taliadau adfer diffyg o 2% o gyflogau yn ofynnol rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2021 ac yna taliadau o 6% o gyflogau rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2028.

Caiff rhagdybiaethau allweddol o ran cyfrifo'r rhwymedigaeth eu hamlinellu isod a darperir gwybodaeth bellach yn Nodyn 29A.

| | **2021** | 2020 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgowntio | 0.87% | 0.73% |
| Twf cyflogau | 4.50% | 0.00% |

**Dadansoddiad sensitifrwydd**

Fel y nodir yn y polisïau cyfrifo, caiff barn feirniadol ei ffurfio wrth amcangyfrif y rhwymedigaeth ar gyfer ariannu diffyg yr USS. Nodir isod sensitifrwydd y prif dybiaethau a ddefnyddir i fesur darpariaeth diffyg yr USS:

| **Newid mewn tybiaethau ar 31 Gorffennaf 2020** | Effaith fras £m |
|---|---|
| Gostyngiad o 0.5% y flwyddyn yn y gyfradd ddisgowntio | 0.4 |
| Cynnydd o 0.5% y flwyddyn mewn chwyddiant cyflogau dros y cyfnod | 0.4 |
| Cynnydd o 0.5% y flwyddyn mewn chwyddiant cyflogau blwyddyn 1 yn unig | 0.1 |
| Cynnydd o 0.5% mewn newidiadau staff dros y cyfnod | 0.4 |
| Cynnydd o 0.5% mewn newidiadau staff blwyddyn 1 yn unig | 0.1 |
| Cynnydd o 1% mewn cyfraniadau adfer diffyg | 3.5 |

### 22 Cronfeydd gwaddol

| | Gwaddolion parhaol cyfyngedig | Gwaddolion parhaol anghyfyngedig | Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig | **2021 Cyfanswml** | 2020 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfunol a Phrifysgol** | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Ar 1 Awst** | | | | | |
| Cyfalaf | 4,198 | 193 | 1,574 | **5,965** | 6,183 |
| Incwm cronedig | 1,117 | 0 | 21 | **1,138** | 920 |
| | **5,315** | **193** | **1,595** | **7,103** | 7,103 |
| Gwaddolion newydd | 0 | 0 | 8 | **8** | 313 |
| Incwm buddsoddi | 243 | 11 | 89 | **343** | 208 |
| Gwariant | (45) | (11) | (190) | **(246)** | (303) |
| Cynnydd yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 799 | 37 | 294 | **1,130** | (218) |
| Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr gwaddolion am y flwyddyn | 997 | 37 | 201 | **1,235** | 0 |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **6,312** | **230** | **1,796** | **8,338** | 7,103 |
| **Cynrychiolir gan:** | | | | | |
| Cyfalaf | 5,129 | 230 | 1,646 | **7,005** | 5,965 |
| Incwm cronedig | 1,183 | 0 | 150 | **1,333** | 1,138 |
| | **6,312** | **230** | **1,796** | **8,338** | 7,103 |
| **Dadansoddiad yn ôl ased** | | | | | |
| Buddsoddiadau asedau anghyfredol | | | | **6,836** | 5,796 |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | | | | **1,502** | 1,307 |
| | | | | **8,338** | 7,103 |

### 23 Cronfeydd cyfyngedig eraill

Mae'r cronfeydd gyda chyfyngiadau fel a ganlyn:

| | **2021 Rhoddion** | 2020 Rhoddion |
|---|---|---|
| **Cyfunol a Phrifysgol** | **£'000** | £'000 |
| **Ar 1 Awst** | **614** | 580 |
| Rhoddion newydd | **133** | 166 |
| Incwm buddsoddi | **0** | 0 |
| Gwariant | **(46)** | (132) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn** | **87** | 34 |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **701** | 614 |

### 24 Arian parod a chywerthoedd arian parod

| | **2021** | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Ar 1 Awst** | **27,693** | **27,089** | 19,412 | 18,991 |
| Llifoedd arian | 16,629 | 15,994 | 8,281 | 8,098 |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **44,322** | **43,083** | 27,693 | 27,089 |



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021

**25 Cyfalaf ac ymrwymiadau eraill**

Nid yw darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2021:

| | **2021** | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Prifysgol** | Cyfunol | Prifysgol |
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| Ymrwymiadau y contractiwyd ar eu cyfer | **38** | **38** | 135 | 135 |
| | **38** | **38** | 135 | 135 |

**26 Rhwymedigaethau prydles**

Cyfanswm rhenti taladwy dan brydlesi gweithredol:

| **Cyfunol a Phrifysgol** | **Tir ac adeiladau** | **Prydlesi eraill** | **2021 Cyfanswm** | 2021 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| **Taladwy yn ystod y flwyddyn** | 444 | 1,043 | **1,487** | 1,387 |
| **Taliadau prydles isaf sy'n ddyledus yn y dyfodol:** | | | | |
| Heb fod yn hwyrach nag 1 flwyddyn | 359 | 786 | **1,145** | 1,381 |
| Hwyrach nag 1 flwyddyn a heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd | 1,069 | 691 | **1,760** | 2,221 |
| Hwyrach na 5 mlynedd | 13,931 | 0 | **13,931** | 14,105 |
| **Cyfanswm taliadau prydles dyledus :** | **15,359** | **1,477** | **16,836** | 17,707 |

**27 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd**

Ers 31 Gorffennaf 2021, mae prisiad 2020 Cynllun Pensiwn y Prifysgolion wedi'i lofnodi a'i ffeilio gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau gyda dyddiad dod i rym ar 1 Hydref 2021. Daeth Prisiad 2020 i rym gydag atodlen cyfraniadau cyfradd ddeuol:

- Byddai'r rhan gyntaf, sy'n cynnwys cynnydd bach mewn cyfraddau cyfraniadau ers Prisiad 2018 a chyfnod hirach o adfer diffyg o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-bwyllgor Negodi (JNC) i fwrw ymlaen â gwneud newid i fuddion yn amodol ar ymgynghoriad aelodau, yn cynyddu darpariaeth yr USS yr adroddwyd arno o £20,889k i £62,695k.

- Mae'r ail ran, a ystyrir yn annhebygol iawn, yn cynnwys codiadau mwy sylweddol mewn cyfraddau cyfraniadau ers Prisiad 2018 a chyfnod adfer diffyg byrrach, a ddaw'n berthnasol cyhyd â bod gweithred argymhellion y Cyd-bwyllgor Trafod ar newidiadau i fuddion heb ei gweithredu erbyn 28 Chwefror 2022.





**28 Gweithgareddau is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig**

| | **Statws** | **Cyfalaf Cyfrannau a Ddelir** | **Gwlad y Cofrestriad** | **Prif Weithgaredd** |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan Datblygu Rheolaeth Gogledd Orllewin Cymru Cyf. | 100% | 1 Gyfran Gyffredin £1 | Cymru | Cyrsiau rheolaeth, cynadleddau a llety |
| UNDEB (Trading) Cyfyngedig | 100% | 2 Cyfranddaliadau cyffredin £1 | Cymru | Rhai gweithgareddau masnachol i gefnogi Undeb y Myfyrwyr |
| Parc Gwyddoniaeth Menai Cyfyngedig | 100% | 1 Gyfran Gyffredin £1 | Cymru | Datblygu parc gwyddoniaeth |
| The Shellfish Centre | - | Cyfyngedig trwy warant | Cymru | Prosesu pysgod cregyn ac ymchwil |
| Naturiol Bangor Limited | 20% | 20 Cyfrannau cyffredin £1 | Cymru | Ymchwil i ddeunyddiau naturiol |
| Daliad wedi ei gaffael ar gost o £50,000 | | | | |

Nid yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys Naturiol Bangor Limited na The Shellfish Centre gan nad ystyrir bod canlyniadau ac asedau a rhwymedigaethau'r cwmnïau hyn yn faterol berthnasol.

**29 Cynlluniau Pensiwn**

Roedd gwahanol gategorïau staff yn gymwys i ymuno ag un o'r cynlluniau a ganlyn:

- Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)
- Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS)
- Cynllun pensiwn gweithleoedd y Llywodraeth (NEST)

Mae nifer fechan o staff yn parhau mewn cynlluniau eraill nad ydynt yn agored i aelodau newydd.

**29A Cynllun Pensiwn y Prifysgolion**

Mae'r sefydliad yn rhan o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) sef y prif gynllun i'r rhan fwyaf o staff academaidd ac academaidd-gysylltiedig. Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn hybrid, sy'n darparu buddion wedi'u diffinio (ar gyfer pob aelod), yn ogystal â buddion cyfraniadau wedi'u diffinio. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Cynllun aml-gyflogwr yw'r USS a rhoddir cyfrif amdano fel y nodir yn y polisïau cyfrifo.

Cyfanswm y gost a dalwyd i'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yw £9.498m (2020: £9.486m). Y cyfraniadau adfer diffyg sy'n ddyledus o fewn blwyddyn i'r Sefydliad yw £0.9m (2020 - £0.76m).

Gwnaed y prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf o adran Adeiladu Incwm Ymddeol y Cynllun ar 31 Mawrth 2018 (y dyddiad prisio) gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau.

Prisiad 2018 oedd y pumed prisiad i'r USS dan y drefn gyllido cynllun-benodol a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004. Dan y drefn hon mae angen i gynlluniau fabwysiadu amcan cyllido statudol, sef bod ag asedau digonol a phriodol ar gyfer eu darpariaethau technegol. Ar y dyddiad prisio, roedd gwerth asedau'r cynllun yn £63.7 biliwn ac roedd gwerth darpariaethau technegol y cynllun yn £67.3 biliwn, gan ddynodi diffyg o £3.6 biliwn a chymhareb ariannu o 95%.

Disgrifir y tybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2018 isod. Nodir rhagor o fanylion yn y Datganiad Egwyddorion Ariannu.

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| | |
|---|---|
| Cyfradd ddisgowntio (blaen-gyfraddau) | Blynyddoedd 1-10: CPI - 0.14% gan ostwng yn llinol i CPI - 0.73%<br>Blynyddoedd 11-20: CPI + 2.52% gan ostwng yn llinol i CPI - 1.55% erbyn blwyddyn 21<br>Blynyddoedd 21 +: CPI + 1.55%" |
| Codiadau pensiwn (CPI) | Cyfraddau tymor-ddibynnol yn unol â'r gwahaniaeth rhwng cromliniau cynnyrch Llog Sefydlog a rhai Mynegai Gysylltiedig, llai 1.3% y flwyddyn. |

Mae'r prif dybiaeth ddemograffig a ddefnyddir yn gysylltiedig â thybiaethau marwolaethau. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a wnaed fel rhan o brisiad actiwaraidd 2018. Mae'r tybiaethau marwolaethau a ddefnyddir yn y ffigyrau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Tabl Sylfaen Marwolaethau | **Cyn ymddeol**<br>71% o AMC00 (hyd 0) yn achos dynion a 112% o AFC00 (hyd 0) yn achos merched. |
| | **Ar ôl ymddeol**<br>97.6% o'r SAPS S1NMA yn "ysgafn" yn achos dynion a 102.7% o RFV00 yn achos merched. |
| Gwelliannau i'r sylfaen marwolaethau yn y dyfodol | CMI_2017 gyda pharamedr llyfnhau o 8.5 a chyfradd gwelliant tymor hir o 1.8% y flwyddyn yn achos dynion a 1.6% y flwyddyn yn achos merched. |

Y disgwyliadau oes ar hyn o bryd i rai'n ymddeol yn 65 yw:

| | **Prisiad 2018** | Prisiad 2017 |
|---|---|---|
| Dynion sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **24.4** | **24.6** |
| Merched sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **25.9** | **26.1** |
| Dynion sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **26.3** | **26.6** |
| Merched sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **27.7** | **27.9** |

Mae sefyllfa ariannu'r cynllun wedi'i diweddaru ers hynny ar sail FRS102. Rhoddwyd cynllun adfer diffyg newydd ar waith fel rhan o brisiad 2018, sy'n gofyn am dalu 2% o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2021 pryd y bydd y gyfradd yn cynyddu i 6%, tan 31 Mawrth 2028. Mae'r rhwymedigaeth adfer diffyg yn 2021 yn adlewyrchu'r cynllun hwn.

Cynhyrchwyd ffigyrau'r rhwymedigaeth gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

| | **2021** | 2020 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgowntio | **2.59%** | 2.59% |
| Twf cyflog pensiynadwy | **4.20%** | 4.20% |

Yn y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020, roedd y rhwymedigaeth yn seiliedig ar y cynllun adfer diffyg blaenorol, a oedd yn gofyn am dalu 5% o gyflogau dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Mehefin 2034.

Mae prisiad llawn pellach ar 31 Mawrth 2020 ar y gweill ar hyn o bryd. Mae gwaith i'w wneud o hyd yn cytuno ar dybiaethau'r darpariaethau technegol, maint y risg buddsoddi yn y dyfodol, hyd y cyfnod adfer diffyg a lefel y cyfraniadau adfer diffyg. Mae newid rheolau mewn perthynas â chryfhau cyfamod y cyflogwr hefyd ar y gweill gan gynnwys cyfyngiadau ar allanfeydd cyflogwyr, monitro dyledion a threfniadau pari passu. Nid yw'r prisiad yn bodloni'r dyddiad cau statudol, sef 30 Mehefin 2021. Rhagwelir y bydd cynnydd yn y ddarpariaeth adfer diffyg a'r effaith ar lif arian parod o ganlyniad i'r atodlen cyfraniadau newydd.

**29B Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS)**

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn budd diffiniedig i staff ategol a chefnogi, sef Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor 1978 (BUPAS). Ariennir y cynllun yn allanol a chafodd ei all-gontractio o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P) tan 31 Mawrth 2016.

Gwnaed y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar 1 Awst 2020 ac fe'i diweddarwyd at ddibenion FRS102 Adran 28, Buddion Gweithwyr, hyd at 1 Awst 2021 gan actiwari cymwysedig proffesiynol.

Yn ystod y flwyddyn, talodd y Brifysgol gyfraniadau i'r cynllun pensiwn ar gyfradd o 19.5% (2020: 19.5%). Cyfanswm cost y cyfraniadau a dalwyd gan y Brifysgol oedd £1,765k (2020: £1,854k).

Mae safon gyfrifeg FRS102 yn ei gwneud yn ofynnol, gan nad oes gan y Brifysgol hawl awtomatig i gael ad-daliad gwarged, fod gwarged cyfredol y cynllun yn cael ei gydnabod i'r graddau y gall y Brifysgol gael gwerth economaidd o'r gwarged ar ffurf y potensial o gyfraniadau gostyngol posibl yn y dyfodol. Cyfrifir y gwerth economaidd y gall y Brifysgol ei gael o'r gwarged fel y gwahaniaeth rhwng gwerth presennol y cyfraniadau y mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'w talu yn y dyfodol o dan y ddogfennaeth sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a gwerth presennol y buddion y disgwylir iddynt gronni yn y dyfodol (dros hyd gyrfa'r aelodau gweithredol) o fesur hynny ar y sail gyfrifo ar y dyddiad adrodd. Ar y sail hon, cafodd gwarged o £3,578k ei chydnabod yn llawn ar gyfer 2020/21.

Diweddarodd y Brifysgol eu dull i ddefnyddio tybiaethau tymor-ddibynnol ar gyfer y Mynegai Prisiau Adwerthu (trwy newid y Premiwm Risg Chwyddiant) ac ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (trwy newid y "lletem" rhwng y ddau fesur chwyddiant). Mae'r Brifysgol wedi cynnig bod chwyddiant y Mynegai Prisiau Adwerthu yn parhau i gael ei osod yn unol â disgwyliadau adennill costau yn y farchnad llai premiwm risg chwyddiant. Mae'r premiwm risg chwyddiant wedi'i osod ar ddim cyn 2030 ac ar 0.3% ar ôl 2030. Ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, mae'r Brifysgol wedi cynnig gosod y bwlch tymor hir rhwng y Mynegai Prisiau Adwerthu a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr i fod yn 100bps cyn 2030 a 10bps ar ôl 2030. Amcangyfrifir mai'r effaith gyfun yw cynnydd o c. £10.6m yn y DBO (Rhwymedigaethau Buddion Diffiniedig).

**Tybiaethau**

Y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun dan FRS102 yn y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf yw:

| | **2021 % y flwyddyn** | 2020 % y flwyddyn |
|---|---|---|
| Chwyddiant prisiau (Mynegai Prisiau Adwerthu) Cyn / Ar Ôl 2030 | **3.4% / 3.1%** | 3.40% |
| Chwyddiant prisiau (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) Cyn / Ar Ôl 2030 | **2.4% / 3.0%** | 2.40% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau Cyn / Ar Ôl 2030 | **3.7% / 3.4%** | 3.70% |
| Cyfradd cynnydd pensiynau a delir i aelodau BUPAS Cyn / Ar Ôl 2030 | **2.2% / 2.6%** | 2.25% |
| Cynnydd i bensiynau gohiriedig cyn ymddeol Cyn / Ar Ôl 2030 | **2.4% / 3.0%** | 2.40% |
| Cyfradd ddisgowntio | **1.65%** | 2.10% |

Y dybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw lefel dybiedig hirhoedledd. Mae'r tabl isod yn dangos y tybiaethau disgwyliad oes a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau cyfrifo ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf yn seiliedig ar ddisgwyliad oes aelodau gwrywaidd a benywaidd yn 65 oed.

| | **2021** | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Dynion** | **Merched** | Dynion | Merched |
| Aelod 65 oed yn ymddeol heddiw | **20.8** | **23.8** | 20.7 | 23.8 |
| Aelod 45 oed yn ymddeol ymhen 20 mlynedd | **22.1** | **25.4** | 22.1 | 25.3 |



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| **Roedd prif gategorïau asedau'r cynllun fel a ganlyn:** | **2020/21** | 2019/20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ecwitïau | **132,853** | 101,483 |
| Buddsoddiadau ar sail rhwymedigaethau | **33,992** | 36,520 |
| Eiddo | **6,679** | 5,987 |
| Arian parod | **9,126** | 24,278 |
| **Cyfanswm gwerth asedau ar y farchnad** | **182,650** | 168,268 |
| Nid oes gan y cynllun unrhyw fuddsoddiadau yn y Brifysgol neu mewn unrhyw eiddo a ddefnyddir gan y Brifysgol. | | |
| **Incwm / llog cyllid net sy'n cael ei gydnabod o fewn cost ac incwm cyllid:** | **£'000** | £'000 |
| Incwm llog | **2,256** | 3,406 |
| Traul llog | **(2,320)** | (3,274) |
| **Cyfanswm** | **(64)** | 132 |
| Yr adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun pensiwn oedd enillion o £14.43m (2020: £3.48m) | | |
| **Y symiau sy'n cael eu cydnabod mewn incwm cynhwysfawr yw:** | | |
| **Cost gwasanaeth:** | **£'000** | £'000 |
| Cost gwasanaeth gyfredol (yn net o gyfraniadau gweithwyr) | **3,657** | 3,401 |
| Treuliau gweinyddu | **400** | 382 |
| Colled/(Enillion) ar gyflwyniadau, newidiadau, cwtogiadau a setliadau i'r cynllun | **80** | 0 |
| Traul llog net/(credyd) | **64** | (132) |
| **Tâl sy'n cael ei gydnabod yn yr incwm cynhwysfawr** | **4,201** | 3,651 |
| Y symiau sy'n cael eu cydnabod mewn incwm cynhwysfawr yw: | | |
| **Ailfesur rhwymedigaethau net:** | **£'000** | £'000 |
| Adenillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio swm wedi'i gynnwys mewn traul llog net) | **(14,430)** | (3,477) |
| (Enillion)/Colled Actiwaraidd | **5,508** | 13,743 |
| **Tâl/(credyd) a gofnodir mewn incwm cynhwysfawr arall** | **(8,922)** | 10,266 |
| **Dadansoddiad o'r swm a ddangosir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol:** | | |
| **Cysoni Asedau** | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Awst | **168,268** | 163,019 |
| Buddion a dalwyd | **(5,015)** | (4,400) |
| Treuliau gweinyddu | **(400)** | (382) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | **3,060** | 3,093 |
| Cyfraniadau gweithwyr | **51** | 55 |
| Incwm llog | **2,256** | 3,406 |
| Adenillion ar asedau | **14,430** | 3,477 |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **182,650** | 168,268 |
| **Cysoni Rhwymedigaethau** | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Awst | **(172,471)** | (156,398) |
| Buddion a dalwyd | **5,015** | 4,400 |
| Cost gwasanaeth | **(3,657)** | (3,401) |
| Cyfraniadau gweithwyr | **(51)** | (55) |
| Traul llog | **(2,320)** | (3,274) |
| Colled Actiwaraidd ar Rwymedigaethau | **(5,508)** | (13,743) |
| Colled ar gyflwyniadau a newidiadau i'r cynllun | **(80)** | 0 |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **(179,072)** | (172,471) |
| **Gwarged / (Diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn** | **3,578** | (4,203) |

Wrth gyfrifo cynllun pensiwn BUPAS arweiniodd hynny at gydnabod debyd o £0.064m (2020 credyd o £0.132m) i incwm llog.

**30 Trafodion partïon cysylltiedig**

Wedi eu cynnwys yn y datganiadau ariannol mae trafodion ariannol gyda'r partïon cysylltiedig canlynol lle nad oes gan y Brifysgol fudd rheolaethol. Cynhelir yr holl drafodion o hyd braich ac yn unol â Rheoliadau Ariannol y Brifysgol a threfn caffael arferol. Nodir isod werth y trafodion hyn a adlewyrchir yn y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021.

| **Sefydliad** | Nodyn | **Incwm** | **Gwariant** | **Dyledus oddi wrth/(i) ar 31 Gorffennaf 2021** |
|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Bangor | | 62 | 1,505 | (147) |
| P.Madog Offshore Services Limited | 15 | 9 | 844 | 0 |

Datgelir trafodion eraill â phartïon cysylltiedig sy'n ymwneud ag aelodau o Gyngor y Brifysgol o dan Nodyn 7

**31 Bwrsariaethau**

Y Brifysgol yw'r asiant talu ar ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â bwrsariaethau a threuliau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio nyrsio a hyfforddiant athrawon. Y symiau a dalwyd yw:

| | **2020/21** | 2019/20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Nyrsio | **4,878** | 4,797 |
| Hyfforddiant Athrawon | **630** | 401 |
| | **5,508** | 5,198 |

Mae'r bwrsariaethau a'r alldaliadau cysylltiedig wedi eu heithrio o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.



ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

## 32 Offerynnau Ariannol

| | | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | **Cyfunol £'000** | **Prifysgol £'000** | Cyfunol £'000 | Prifysgol £'000 |
| **Asedau ariannol** | | | | | |
| ***Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost:*** | | | | | |
| Arian parod a chywerthoedd arian parod | 24 | **44,322** | **43,083** | 27,693 | 27,089 |
| ***Asedau ariannol wedi'u mesur ar werth teg:*** | | | | | |
| Buddsoddiadau Anghyfredol | 14 | **6,836** | **6,836** | 5,796 | 5,796 |
| ***Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost llai amhariad:*** | | | | | |
| Buddsoddiadau Anghyfredol | 14 | **83** | **213** | 83 | 213 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 17 | **12,281** | **12,067** | 13,270 | 13,083 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 17 | **12,463** | **18,876** | 12,336 | 18,927 |
| | | **75,985** | **81,075** | 59,178 | 65,108 |
| **Rhwymedigaethau ariannol** | | | | | |
| ***Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost:*** | | | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 18/19 | **35,472** | **34,427** | 30,153 | 29,622 |
| ***Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio:*** | | | | | |
| Benthyciadau | 18/19 | **38,868** | **38,868** | 40,434 | 40,434 |
| Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | 18/19 | **61,885** | **61,885** | 63,344 | 63,344 |
| Prydlesi cyllidol | 18/19 | **823** | **823** | 982 | 982 |
| | | **137,048** | **136,003** | 134,913 | 134,382 |

Ceir crynodeb isod o'r incwm a'r gwariant mewn perthynas â'r offerynnau ariannol:

| | | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm incwm buddsoddi asedau ariannol ar gost | 5 | **118** | **250** | 338 | 412 |
| Cyfanswm incwm buddsoddi asedau ariannol ar werth teg | 5 | **343** | **343** | 207 | 207 |
| Cyfanswm gwariant llog ar gyfer rhwymedigaethau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio | 8 | **4,988** | **4,973** | 5,333 | 5,155 |

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd yn bennaf â thrafodion nad ydynt yn gymhleth neu rai tymor byr gan olygu y defnyddir offerynnau ariannol sylfaenol. O'r herwydd, mae'r Brifysgol o'r farn bod y risg sy'n gysylltiedig â'r asedau a'r rhwymedigaethau a amlinellir uchod yn gymharol isel. Mae'r asedau ariannol a fesurir ar gost yn bennaf ar ffurf arian parod neu gywerthoedd arian parod a ddelir gyda sefydliadau ariannol ar adnau. Mae asedau ariannol a fesurir ar werth y farchnad yn agored i'r risg y bydd newid ym mhrisiau'r farchnad. Rheolir y rhain yn weithredol gan reolwyr cronfeydd proffesiynol yn unol â strategaeth fuddsoddi a bennwyd gan y Brifysgol.

I gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â benthyciadau, cyfeiriwch at Nodyn 20.





## 33 Atodlen Cyfrifoldeb Ariannol Adran Addysg yr Unol Daleithiau

Er mwyn bodloni ei rhwymedigaethau i hwyluso mynediad myfyrwyr at gymorth ariannol ffederal yn yr Unol Daleithiau, mae Adran Addysg yr Unol Daleithiau yn ei gwneud yn ofynnol i Brifysgol Bangor gyflwyno'r Atodlen ganlynol mewn fformat rhagnodedig.

Mae'r symiau sy'n cael eu cyflwyno yn yr atodlenni wedi cael eu:

- paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, yn ddarostyngedig i ailbrisio rhai asedau sefydlog;
- paratoi gan ddefnyddio arfer cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifo ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch (rhifyn 2019);
- cyflwyno mewn punnoedd sterling.

Mae'r atodlenni'n nodi sut mae pob swm a ddatgelir wedi'i dynnu o'r datganiadau ariannol. Fel y nodir uchod, nid yw'r polisïau cyfrifo a ddefnyddir wrth bennu'r symiau a ddatgelir yn cydymffurfio â gofynion yr egwyddorion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn Unol Daleithiau America ac ni fwriadwyd iddynt.

***Cyfrifiad y Brif Gymhareb Wrth Gefn***

| **Asedau Gwariadwy Net:** | | | **Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021** | | **Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau cyfrifon** | **Disgrifiad** | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cronfa Incwm a Gwariant | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Asedau net heb gyfyngiadau gan y rhoddwr | Asedau net heb gyfyngiadau gan y rhoddwr | | 225,761 | | 218,714 |
| Nodiadau 22 a 23 | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Asedau net gyda chyfyngiadau gan y rhoddwr | Asedau net gyda chyfyngiadau gan y rhoddwr | | 9,040 | | 7,716 |
| Nodyn 17 - Llinellau o Fentrau ar y Cyd anghyfunol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig a datgeliad nodyn parti cysylltiedig | Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig sicredig ac ansicredig | **34** | **0** | **383** | |
| Nodyn 17 - Llinellau o Fentrau ar y Cyd anghyfunol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig a datgeliad nodyn parti cysylltiedig | Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig ansicredig | | (34) | | 383 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol - Asedau Sefydlog llai Consesiynau Gwasanaeth a Phrydles yn Nodyn 11 | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Eiddo, peirianwaith ac offer, net | Eiddo, peirianwaith ac offer, net (yn cynnwys Adeiladu sy'n mynd rhagddo) | **248,815** | | **254,336** | |
| Balans Agoriadol - Nodyn 11 Asedau Sefydlog llai Consesiynau Gwasanaeth a Gwelliannau Prydles | Nodyn o'r Datganiadau Ariannol - Datganiad Sefyllfa Ariannol - Eiddo, Peirianwaith ac Offer - cyn-weithredu | Eiddo, peirianwaith ac offer - cyn-weithredu | | (254,336) | | 260,808 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| | | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau cyfrifon** | **Disgrifiad** | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans Diwedd Blwyddyn llai Balans Agoriadol - Nodyn 11 Asedau Sefydlog llai Consesiynau Gwasanaeth a Gwelliannau Prydles llai Asedau sydd ynghanol eu hadeiladu | Nodyn o'r Datganiadau Ariannol - Datganiad Sefyllfa Ariannol - Eiddo, Peirianwaith ac Offer - ôl-weithredu gyda dyled heb ei thalu am bryniant gwreiddiol | Eiddo, Peirianwaith ac Offer - ôl-weithredu gyda dyled heb ei thalu am bryniant gwreiddiol | | 9,128 | | (9,212) |
| | Nodyn o'r Datganiadau Ariannol - Datganiad Sefyllfa Ariannol - Eiddo, Peirianwaith ac Offer - ôl-weithredu heb ddyled heb ei thalu am bryniant gwreiddiol | Eiddo, Peirianwaith ac Offer - ôl-weithredu heb ddyled heb ei thalu am bryniant gwreiddiol | | 0 | | 0 |
| Nodyn 11 - Asedau yng Nghanol eu Hadeiladu | Nodyn o'r Datganiadau Ariannol - Datganiad Sefyllfa Ariannol - Adeiladu sy'n Mynd Rhagddo | | | (3,607) | | 2,740 |
| Nodyn 11 Consesiynau Gwasanaeth a Gwelliannau Prydles | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Asedau hawl i ddefnyddio prydles, net | Ased hawl i ddefnyddio prydles, net | **64,352** | | **66,191** | |
| Nodyn 11 Balans Agoriadol - Consesiynau Gwasanaeth a Gwelliannau Prydles | Nodyn o'r Datganiadau Ariannol - Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cyn-weithredu ased hawl i ddefnyddio prydles | Cyn-weithredu ased hawl i ddefnyddio prydles | | (66,191) | | 68,014 |
| Nodyn 11 Balans Diwedd Blwyddyn llai Balans Agoriadol - Consesiynau Gwasanaeth a Gwelliannau Prydles | Nodyn o'r Datganiadau Ariannol - Datganiad Sefyllfa Ariannol - ôl-weithredu ased hawl i ddefnyddio prydles | Ôl-weithredu ased hawl i ddefnyddio prydles | | 1,839 | | (1,823) |
| | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Ewyllys da | Asedau anniriaethol | | 0 | | 0 |
| Nodyn 21 USS + BUPAS | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Rhwymedigaethau ôl-gyflogaeth a phensiwn | Rhwymedigaethau ôl-gyflogaeth a phensiwn | | 17,312 | | 23,628 |
| Nodyn 20 llai Consesiynau Gwasanaeth a Phrydlesi Cyllidol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Nodyn Taladwy a Llinell Credyd at ddibenion tymor hir (cyfredol a thymor hir) a Llinell Credyd ar gyfer Adeiladu sy'n Mynd Rhagddo | Dyled tymor hir - at ddibenion tymor hir | **36,146** | | **37,816** | |





| **Asedau Gwariadwy Net (parhad):** | | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau cyfrifon** | **Disgrifiad** | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Nodyn 20 - Balansau Agoriadol - Benthyciadau tymor hir ansicredig a sicredig | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Nodyn Taladwy a Llinell Credyd at ddibenion tymor hir (cyfredol a thymor hir) a Llinell Credyd ar gyfer Adeiladu sy'n Mynd Rhagddo | Dyled tymor hir - at ddibenion tymor hir cyn-weithredol | | 37,817 | | 39,841 |
| Nodyn 20 - Balansau Diwedd Blwyddyn llai Balansau Agoriadol - Benthyciadau tymor hir ansicredig a sicredig | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Nodyn Taladwy a Llinell Credyd at ddibenion tymor hir (cyfredol a thymor hir) a Llinell Credyd ar gyfer Adeiladu sy'n Mynd Rhagddo | Dyled tymor hir - at ddibenion tymor hir ôl-weithredol | | (1,671) | | (2,025) |
| | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Nodyn Taladwy a Llinell Credyd at ddibenion tymor hir (cyfredol a thymor hir) a Llinell Credyd ar gyfer Adeiladu sy'n Mynd Rhagddo | Llinell Credyd ar gyfer Adeiladu sy'n Mynd Rhagddo | | 0 | | 0 |
| Nodyn 19 a Nodyn 20 Consesiwn Gwasanaeth a Phrydles Gyllidol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - rhwymedigaeth ased hawl i ddefnyddio prydles | Rhwymedigaeth ased hawl i ddefnyddio prydles | **61,130** | | **64,326** | |
| Balansau Agoriadol Nodyn 19 a Nodyn 20 ar gyfer Consesiwn Gwasanaeth a Phrydles Gyllidol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - rhwymedigaeth ased hawl i ddefnyddio prydles cyn-weithredol | Cyn-weithredu prydlesi hawl i ddefnyddio | | 63,503 | | 64,795 |
| Diwedd Blwyddyn llai Balansau Agoriadol Nodyn 19 a Nodyn 20 ar gyfer Consesiwn Gwasanaeth a Phrydles Gyllidol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - rhwymedigaeth ased hawl i ddefnyddio prydles ôl-weithredol | Ôl-weithredu prydlesi hawl i ddefnyddio | | (1,618) | | (469) |
| | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Blwydd-daliadau | Blwydd-daliadau gyda chyfyngiadau gan y rhoddwr | | 0 | | 0 |
| | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Gwaddolion Cyfnod Penodol | Gwaddolion tymor gyda chyfyngiadau rhoddwyr | | 0 | | 0 |

# NODIADAU AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

| | | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau cyfrifon** | **Disgrifiad** | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cronfeydd Incwm Bywyd | Cronfeydd incwm bywyd gyda chyfyngiadau rhoddwyr | | 0 | | 0 |
| Nodyn 22 Gwaddolion Parhaol Cyfyngedig | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cronfeydd Parhaol | Asedau net gyda chyfyngiadau gan y rhoddwr: wedi'u cyfyngu yn fytholbarhaus | | (6,312) | | 5,314 |
| | | **Asedau Gwariadwy Net** | | **30,631** | | **25,977** |
| **Cyfanswm Treuliau a Cholledion:** | | | | | | |
| Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Cyfanswm Gwariant | Datganiad o Weithgareddau -, Cyfanswm y Treuliau Gweithredu, - (Cyfanswm o'r Datganiad o Weithgareddau cyn addasiadau) | Cyfanswm y treuliau heb gyfyngiadau gan y rhoddwr - wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r Datganiad Gweithgareddau | | 154,916 | | 136,621 |
| Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti - Colled ar Fuddsoddiadau + Cyfran o'r gwarged gweithredu mewn menter ar y cyd + Symudiad yn y Ddarpariaeth Pensiwn llai Nodyn 5 Incwm Buddsoddi | Datganiad o Weithgareddau _ Anweithredol (Adenillion ar fuddsoddiad wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant), Buddsoddiadau, yn net o enillion gwariant blynyddol (colled), Elfennau eraill o gostau pensiwn cyfnodol net, Newidiadau cysylltiedig â phensiwn ac eithrio pensiwn cyfnodol net, Newid yng ngwerth cytundebau llog rhanedig ac Enillion eraill (colled) - (Cyfanswm o'r Datganiad o Weithgareddau cyn addasiadau) | Buddsoddiad Anweithredol a Net (colled) | | 9,528 | | (10,991) |
| Nodyn 5 Incwm Buddsoddi llai Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti - Colled ar Fuddsoddiadau | Datganiad o Weithgareddau - (Adenillion ar fuddsoddiad wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant) a Buddsoddiadau, net o wariant blynyddol, enillion (colled) | Colledion buddsoddiad net | | 1,536 | | 327 |
| Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti - Symudiad yn y Ddarpariaeth Pensiwn | Datganiad o Weithgareddau - Newidiadau cysylltiedig â phensiwn ac eithrio pensiwn cyfnodol | Newidiadau cysylltiedig â phensiwn ac eithrio costau cyfnodol net | | (8,934) | | 10,266 |
| | | **Cyfanswm Treuliau a Cholledion** | | **157,046** | | **136,223** |



| | | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau cyfrifon** | **Disgrifiad** | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| ***Cyfrifiad Cymhareb Ecwiti*** | | | | | | |
| **Asedau Net Addasedig:** | | | | | | |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cronfa Incwm a Gwariant | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Asedau net heb gyfyngiadau gan y rhoddwr | Asedau net heb gyfyngiadau gan y rhoddwr | | 225,761 | | 218,714 |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cronfeydd Cyfyngedig | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cyfanswm Asedau net gyda chyfyngiadau gan y rhoddwr | Asedau net gyda chyfyngiadau gan y rhoddwr | | 9,040 | | 7,716 |
| | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Ewyllys da | Asedau anniriaethol | | 0 | | 0 |
| Nodyn 17 - Llinellau o Fentrau ar y Cyd anghyfunol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig a datgeliad nodyn parti cysylltiedig | Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig sicredig ac ansicredig | 34 | | 383 | |
| Nodyn 17 - Llinellau o Fentrau ar y Cyd anghyfunol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig a datgeliad nodyn parti cysylltiedig | Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig ansicredig | | (34) | | (383) |
| | | **Asedau Net Addasedig:** | | **234,767** | | **226,047** |

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

| Asedau Addasedig: | | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinellau cyfrifon** | **Disgrifiad** | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Datganiad Sefyllfa Ariannol Asedau Anghyfredol + Asedau Cyfredol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cyfanswm yr asedau | Cyfanswm yr asedau | | 389,439 | | 385,159 |
| Balans Agoriadol (a ddygwyd ymlaen llai dibrisiad a ddygwyd ymlaen - Nodyn 11 Consesiwn Gwasanaeth a Gwelliannau Prydles | Nodyn o'r Datganiadau Ariannol - Datganiad Sefyllfa Ariannol - Cyn-weithredu ased hawl i ddefnyddio prydles | Cyn-weithredu ased hawl i ddefnyddio prydles | | (66,191) | | (68,014) |
| Balansau Agoriadol - Nodyn 19 ac 20 ar gyfer Prydlesi Cyllidol a Chonsesiwn Gwasanaeth | Datganiad Sefyllfa Ariannol - rhwymedigaeth ased hawl i ddefnyddio prydles cyn-weithredol | Cyn-weithredu prydlesi hawl i ddefnyddio | | 63,503 | | 64,795 |
| | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Ewyllys da | Asedau anniriaethol | | 0 | | 0 |
| Nodyn 17 - Llinellau o Fentrau ar y Cyd anghyfunol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig a datgeliad nodyn parti cysylltiedig | Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig sicredig ac ansicredig | 34 | | 383 | |
| Nodyn 17 - Llinellau o Fentrau ar y Cyd anghyfunol | Datganiad Sefyllfa Ariannol - Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig a datgeliad nodyn parti cysylltiedig | Symiau derbyniadwy parti cysylltiedig ansicredig | | (34) | | (383) |
| | | **Asedau Addasedig:** | | **389,405** | | **384,776** |
| ***Cyfrifiad Cymhareb Incwm Net*** | | | | | | |
| Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti - Cyfanswm yr Incwm Cynhwysfawr llai Nodyn 6 Gwaddolion Newydd a Rhoddion gyda Chyfyngiadau | Datganiad o Weithgareddau - Newid mewn Asedau Net Heb Gyfyngiadau gan y Rhoddwr | Newid mewn Asedau net heb gyfyngiadau gan y rhoddwr | | 8,164 | | 177 |
| Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti - Cyfanswm yr incwm llai Nodyn 6 Gwaddolion a Rhoddion Newydd gyda Chyfyngiadau ynghyd â Gwerthiant Asedau Sefydlog llai Nodyn 5 Incwm Buddsoddi | Datganiad o Weithgareddau - (Asedau net a ryddhawyd o'r cyfyngiad), Cyfanswm Refeniw Gweithredol ac Ychwanegiadau Eraill a Gwerthu Asedau Sefydlog, enillion (colledion) | Cyfanswm Refeniw ac Enillion | | 152,630 | | 146,699 |



# DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

Mae Prifysgol Bangor yn Elusen Gofrestredig (rhif 1141565) yn unol â thelerau Deddf Elusennau 2011. Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae'r Brifysgol wedi ystyried cyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau ar adrodd ar fudd cyhoeddus, ac yn arbennig ei gyfarwyddyd atodol ynglŷn â budd cyhoeddus ar hyrwyddo addysg.

Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad cryf a hyderus a gaiff ei gydnabod yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth am ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i staff a myfyrwyr. Sefydlwyd y Brifysgol o ganlyniad uniongyrchol i ymgyrch gan gymunedau yng Ngogledd Cymru am ddarpariaeth addysg uwch i'r rhanbarth. Wedi'i sefydlu gan gefnogaeth leol sylweddol, yn ariannol ac fel arall, mae'r Brifysgol yn parhau i ymfalchïo yn ein swyddogaeth fel aelod o'r gymuned ac yn ein treftadaeth ddwyieithog.

## ADDYSG A PHROFIAD RHAGOROL I FYFYRWYR

Mae'r Brifysgol yn rhoi addysg uwch i fwy na 11,000 o fyfyrwyr mewn ystod eang o ddisgyblaethau yn y celfyddydau a'r dyniaethau, gwyddorau cymdeithas, gwyddorau naturiol, gwyddorau ffisegol, iechyd ac addysg.

Mae'r Brifysgol yn derbyn myfyrwyr a all ddangos eu gallu i fanteisio ar addysg uwch – beth bynnag fo eu cefndir ariannol, cymdeithasol, crefyddol neu ethnig. Rydym yn diogelu mynediad teg ac yn dal gafael ar ragor o fyfyrwyr drwy ddarparu bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chynlluniau caledi i rai sy'n gadael gofal ac i'r digartref.

Mae'r Brifysgol yn gweithio gydag ysgolion i godi dyheadau addysgol ac ymwybyddiaeth grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; trwy adnabod unigolion sydd â photensial, a datblygu sgiliau i baratoi myfyrwyr ar gyfer Addysg Uwch.

Mae gweithgareddau allgyrsiol a gwirfoddoli yn datblygu unigolion, yn gwella eu cyflogadwyedd, ac yn hyrwyddo ymwneud â'r gymuned. Mae'r Brifysgol yn caniatáu i'w myfyrwyr ymuno am ddim â'r holl glybiau chwaraeon, cymdeithasau a gweithgareddau gwirfoddoli, waeth beth fo gallu'r myfyriwr i dalu.

Ym maes addysgu a dysgu, mae'r Brifysgol yn darparu cwricwlwm deniadol sy'n addas i'r diben gyda rhaglenni academaidd o ansawdd uchel, cyfleusterau addysgu rhagorol ac ystod eang o wasanaethau cefnogi (gan gynnwys cyngor academaidd, ariannol, bugeiliol, ysbrydol a gyrfaoedd). Mae ein rhaglenni'n adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod ein myfyrwyr yn ddinasyddion byd-eang.

## GWELLA LLWYDDIANT YMCHWIL

Mae'r ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Bangor yn cael effaith sylweddol ar yr economi ac ar fywydau pobl o ledled y byd. Mae ein hymchwil yn cael ei lledaenu drwy gyhoeddi llyfrau a phapurau, a thrwy ddarlithoedd a chyflwyniadau mewn cynadleddau.

Mae cyfleoedd i wneud astudiaethau ac ymchwil ôl-radd (gan gynnwys darparu efrydiaethau) ar gael ym mhob ysgol academaidd.

Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu gwasanaethau i ddiwydiant a masnach, trwy gefnogi mentrau (er enghraifft, Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth – ceir bron 100 ohonynt – gyda gwahanol fusnesau yng Ngogledd Cymru a thu hwnt), cymorth gyda datblygu cynnyrch newydd, hyrwyddo a chefnogi cwmnïau deilliedig, masnacheiddio syniadau ac ecsbloetio eiddo deallusol.

## PRIFYSGOL RYNGWLADOL I'R RHANBARTH

Caiff Prifysgol Bangor ei rhestru ymysg y 200 o'r prifysgolion mwyaf rhyngwladol yn fyd-eang a'r fwyaf rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn darparu cymuned ryngwladol lewyrchus ac yn estyn croeso i staff a myfyrwyr o fwy na 100 o wledydd ledled y byd, gan ddarparu profiad unigryw Bangor i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda phartneriaid ledled y byd, gan gynnwys sefydlu Coleg Bangor yn Tsieina yn ddiweddar.

Caiff cyflogadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang eu cryfhau gan gwricwlwm rhyngwladol y Brifysgol a thrwy hyrwyddo a chefnogi myfyrwyr i ehangu eu gorwelion daearyddol, gan ganiatáu i bob myfyriwr gael profi cyfnod dramor fel rhan o'u rhaglen academaidd.

## YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMRAEG A CHYSYLLTIADAU DINESIG

Mae'r Brifysgol yn arwain ym maes darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae'r Brifysgol yn mynd ati i annog myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i ddilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Ceir Llyfrgell helaeth ac mae gan yr adran Archifau statws 'Man Cadw Cofnodion Cyhoeddus'. Rhennir llyfrau a chasgliadau'r Llyfrgell â'r cyhoedd oddi allan i'r Brifysgol trwy gynlluniau megis 'Linc y Gogledd', sy'n golygu bod adnoddau Llyfrgell y Brifysgol ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus lleol yng Ngogledd Cymru.

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020 - 2021

Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn hyrwyddo datblygiadau diwylliannol drwy ei rhaglen o Ddarlithoedd Cyhoeddus, rhaglen o gerddoriaeth a drama, Amgueddfa ac Oriel Gelf, ynghyd â chasgliad celf o bwys, a chasgliadau unigryw yn cynnwys cerameg, offerynnau cerdd a sbesimenau o fyd natur.

Mae Pontio, Canolfan Celfyddydau ac Arloesi, gwerth £50m, yn cynnwys theatr, theatr stiwdio, sinema, darlithfeydd mawr a chanolfan arloesi, man perfformio awyr agored, yn ogystal â chaffis, bariau a chynteddau sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'n gwneud cyfraniad enfawr i ddatblygiad diwylliannol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r brifysgol hefyd yn darparu dosbarthiadau a chyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel i'r gymuned leol.

Mae ystad y Brifysgol yn cynnwys bron i 150 o adeiladau, yn cynnwys 14 o adeiladau rhestredig (gydag un ohonynt yn adeilad rhestredig gradd 1 sydd o bwysigrwydd hanesyddol).

### YMRWYMIAD I GYNALIADWYEDD A'R AMGYLCHEDD

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynaliadwyedd nid yn unig yng nghyd-destun ein hamgylchedd naturiol cyfoethog, ond hefyd o ran cydlyniant cymdeithasol, sefydlogrwydd ariannol ac effeithlonrwydd adnoddau. Mae cynaliadwyedd yn un o'n galluogwyr strategol ac rydym yn cyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru o ran llesiant cenedlaethau'r dyfodol a nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Adlewyrchir ymrwymiad Bangor i gynaliadwyedd yn ei pholisi amgylcheddol, sy'n datgan "Byddwn nid yn unig yn ceisio diogelu ein hamgylchedd naturiol, ond hefyd yn mynd ati i geisio cyfleoedd i'w wella, gan hyrwyddo diwylliant o fod yn stiwardiaid yr amgylchedd ymysg ein staff a'n myfyrwyr a gweithio tuag at nodau datblygu cynaliadwy." Rydym wedi cynnal ein System Rheoli Amgylcheddol ISO14001.2015. Dangosodd yr uwch reolwyr arweinyddiaeth ac ymrwymiad mewn perthynas â'r System Rheoli Amgylcheddol trwy benodi Ysgrifennydd y Brifysgol, ar ran y Pwyllgor Gweithredu, i gadeirio'r Grŵp Tasg Cynaliadwyedd, sy'n gosod cyfeiriad strategol ac yn atebol am effeithiolrwydd y system rheoli amgylcheddol trwy graffu ar yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

Mae bioamrywiaeth yn ffocws arall. Mae gan gynefinoedd ar ein tiroedd werth addysgol, cymdeithasol, diwylliannol, hamdden ac amgylcheddol i fyfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn ceisio hyrwyddo bioamrywiaeth ym mhob cynefin ar y campws ac integreiddio bioamrywiaeth yn rhan o'n dulliau gweithredu wrth i ni gynnal ein busnes. Mae'r gwaith estyn allan yng Ngardd Fotaneg Treborth yn parhau.

### YMRWYMIAD I GYNALIADWYEDD DRWY EIN POLISI BUDDSODDI

Mae'r Brifysgol, drwy is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Polisi Buddsoddi Cynaliadwy sy'n berthnasol i'r cronfeydd gwaddol sy'n cael eu rheoli ar ei rhan gan UBS. Mae'r polisi'n sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud y gorau o'i hadenillion buddsoddi heb gyfaddawdu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae hyn yn golygu cynnal sgrinio cadarnhaol a negyddol ar bob cwmni i weld a ydynt yn cydymffurfio â safonau moesegol a chymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys osgoi gweithgareddau sy'n niweidiol i'r amgylchedd neu i les eu gweithlu. Mae eithriadau penodol hefyd ar gyfer meysydd megis arfau, alcohol, gamblo, tybaco ac ati. Nid yw'r Brifysgol yn buddsoddi mewn tanwyddau ffosil echdynnol. Gellir dod o hyd i gopi o'r polisi yn:

**https://www.bangor.ac.uk/finance/pl/documents/SIPBU-Cym**





# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR MEWN PERTHYNAS Â'R DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL

**Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2021**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adolygiad Strategol a'r datganiadau ariannol cyfunol yn unol â gofynion Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol iddynt baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y grŵp a'r rhiant-brifysgol yn unol â safonau cyfrifo'r Deyrnas Unedig a chyfraith berthnasol (yr arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys FRS 102 y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd yn ei gwneud yn ofynnol bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi'n unol â Statement of Recommended Practice – Accounting for Further and Higher Education 2019, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch ynglŷn â'u Cyfrifon a gyhoeddwyd gan HEFCW. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, enillion a cholledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifo addas, ac yna'u defnyddio'n gyson;
- dod i farn ac amcangyfrif mewn modd sy'n rhesymol a doeth;
- datgan a yw safonau cyfrifo perthnasol y Deyrnas Unedig wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau materol berthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw; a
- defnyddio sail cyfrifo busnes hyfyw oni bai eu bod naill ai'n bwriadu datod y grŵp neu'r rhiant-brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y rhiant-brifysgol a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-brifysgol a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a safonau cyfrifo perthnasol eraill. Nhw sy'n gyfrifol am unrhyw

gamau rheoli mewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw i alluogi paratoi datganiadau ariannol lle na cheir camddatganiad materol berthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac yn gyfrifol yn gyffredinol dros gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol o dan y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd am:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac wedi'u rheoli'n unol â deddfwriaeth berthnasol;
- sicrhau mai dim ond ar gyfer y dibenion y rhoddwyd ef y defnyddir cyllid gan HEFCW a chyrff cyllido eraill, ac yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd ac unrhyw amodau eraill y gallai HEFCW eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau fod camau rheoli ariannol priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol dros adnoddau a gwariant y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a geir ar wefan y Brifysgol ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

